



Cyfarfod

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

Dyddiad ac Amser

10.00 y.b., DYDD IAU, 28AIN MEDI, 2017

Lleoliad

Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 22/9/17)

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

AELODAETH (19)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
Charles Wyn Jones
Peter Read
Gethin Glyn Williams

Aled Ll. Evans
Huw Gruffydd Wyn Jones
Paul John Rowlinson

Aled Wyn Jones
Berwyn Parry Jones
Cemlyn Rees Williams

Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Dylan Fernley
Richard Medwyn Hughes
John Pughe Roberts

John Brynmor Hughes
Dewi Wyn Roberts
Angela Russell

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Aeron M. Jones

Llaf / Rhydd (1)

Y Cynghorydd
Sion W. Jones

Aelod Lleyg (1)

Mrs Sharon Warnes

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017, fel rhai cywir.

5. CYFRIFON TERFYNOL 2016/17

12 - 180

Cyflwyno'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2016/17.

- a) Cyflwyno'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig gan y Pennaeth Cyllid am gymeradwyaeth y pwyllgor.
- b)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" i'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" gan yr archwiliwr allanol Deloitte, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar Ddatganiadau Cyfrifon 2016/17 Cyngor Gwynedd.
- b)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ar ran y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyswllt cymeradwyo datganiadau ariannol statudol y Cyngor (Atodiad 1 i adroddiad gan yr archwiliwr allanol Deloitte, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn (b)(i) uchod)
- c)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" i'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" gan yr archwiliwr allanol Deloitte, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ar Ddatganiadau Cyfrifon 2016/17 y Gronfa Bensiwn
- c)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" ar ran y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n gyfrifol am lywodraethu yng nghyswllt cymeradwyo datganiadau ariannol statudol y Gronfa Bensiwn (Atodiad 1 i adroddiad gan yr archwiliwr allanol Deloitte, ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn (c)(i) uchod).

6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2017/18 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 181 - 191

Cyflwyno, er gwybodaeth, adroddiad y Pennaeth Cyllid ar wir weithgarwch benthyg a buddsoddi'r Cyngor hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

7. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU 192 - 199

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyflwyno adborth o gyfarfod y Gweithgor ar 11 Medi 2017.

8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/7/17 - 15/9/17 200 - 221

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio.

9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18 222 - 227

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2017/18.

10. ARDRETHI ANNOMESTIG – RHYDDHAD DEWISOL 228 - 233

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 13/7/17

Yn bresennol: Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Aled Ll. Evans, Huw G. Wyn Jones, Dewi Wyn Roberts, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell, Cemlyn Williams a Gethin Glyn Williams.

Aelod Lleyg: Sharon Warnes

Eraill a wahoddwyd: Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Cyllid)

Hefyd yn Bresennol: Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer Eitem 7 ar y rhaglen), Caren Rees Jones (Prif Gyfrifydd - ar gyfer Eitem 7 ar y rhaglen), Clare Edge (Rheolwr Archwilio Ariannol, Deloitte - ar gyfer Eitem 7 ar y rhaglen), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 8 ar y rhaglen), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Paul Goodlad (Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Dylan Fernley, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Charles Wyn Jones a Peter Read.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2017 a 22 Mehefin 2017, fel rhai cywir.

3. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – CYNLLUN ARCHWILIO 2017 CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Archwilio Ariannol (Deloitte) ac Arweinydd Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru).

Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn manylu ar drefniadau archwilio SAC ar gyfer 2017. Amlygwyd y prif risgiau archwilio ariannol a'r gwaith a wneir o ran incwm a gwariant arian grant GwE. Tynnwyd sylw at yr archwiliadau perfformiad y gwneir ar lefel cenedlaethol ac y rhai penodol i Wynedd.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau, ymatebodd y swyddogion iddynt fel a ganlyn:

- Yn meddwl bod y Cyngor wedi derbyn cyfran o ffi gwaith archwilio perfformiad SAC 2015/16 yn ôl ac y byddai cyfran o'r ffi ar gyfer 2016/17 yn cael ei ddychwelyd;
- Mai £417,987 oedd cyfanswm ffi'r archwiliadau ariannol a pherfformiad ar gyfer 2017/18;
- Bod y gwaith archwilio ac asesu gwelliant yn golygu edrych ar weithrediad y Cyngor ar argymhellion blaenorol, dewisir y rhai a oedd fwyaf perthnasol i'r Cyngor drwy drafod rhestr fer o argymhellion posib;
- O ran yr adolygiad o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth, fe adeiladir ar y gwaith a wnaed yn yr Astudiaeth Llywodraeth Leol ynghylch mynd i'r afael â dibyniaeth a galw, byddai'r prosiect hwn yn profi'r rhyngwyneb ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau ym mhob awdurdod. Nodwyd fe ddewisir grwpiau roedd y Cyngor

yn ymgysylltu â nhw eisoes gan ddethol grwpiau penodol efo diddordebau penodol ac amrediad oed;

- Byddai cyfle i edrych ar ledaeniad gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig a trefol efallai yn y dyfodol. Fe ellir efallai cynnwys grwpiau tebyg megis grwpiau dros 50 oed ar draws y Sir yn yr adolygiad o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth. Fe ddoir i ddealltwriaeth efo'r Cyngor o ran y grwpiau i'w cynnwys.

Nododd Rheolwr Archwilio Ariannol (Deloitte) bod cynllun archwilio'r Gronfa Bensiwn wedi ei ddrafftio ond nid oedd wedi ei gyfieithu, fe ddsbarthir y cynllun unwaith y byddai'n ddwyieithog. Amlygwyd y prif risgiau archwilio ariannol y rhoddir ystyriaeth fel rhan o'r archwiliad sef y risg y byddai rheolwyr yn diystyru rheolaethau, y prisiad tair blyneddol a gynhaliwyd llynedd a phrasiad buddsoddiadau. Nodwyd mai'r ffi ar gyfer yr archwiliad penodol yma byddai oddeutu £34,000.

Nododd y Pennaeth Cyllid y prisiwyd y Gronfa Bensiwn llynedd, roedd rhagdybiaethau Cronfa Gwynedd ymysg y rhai mwyaf darbodus ar lefel Cymru a Phrydeinig a chymariaethau tebyg wrth debyg y Llywodraeth wedi cadarnhau fod dim risg o or-ddatgan gwerth asedau Cronfa Gwynedd. Tynnodd sylw bod cynnydd yn y ffi o ran archwiliad Cydbwyllgor GwE ac eglurodd gan fod y 6 Cyngor wedi gosod eu cyfraniadau am y flwyddyn, bydd rhaid i GwE ariannu'r cynnydd o fewn ei gyllideb.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

4. DATGANIAD O GYFRIFON 2016/17

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Pennaeth Cyllid. Tynnwyd sylw mai cyfrifon drafft heb eu harchwilio a gyflwynir yma er gwybodaeth, gyda'r fersiwn terfynol i'w gyflwyno er cymeradwyaeth y Pwyllgor yng nghyfarfod 28 Medi 2017.

Manylodd yr Uwch Reolwr Cyllid ar eu cynnwys ac ymatebwyd i ymholiadau cyffredinol yr aelodau.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid o ran y £51 miliwn o symudiad mewn pensiynau, mai symudiad ar bapur ydoedd yn hytrach nag arian parod. Ymhelaethodd bod y gyfradd disgownt wedi gostwng o 3.5% i 2.6%. Eglurodd bod cyfraddau llog yn echrydus o isel, felly oherwydd bod gwir ddychweliadau ar fondiau yn isel, roedd y gyfradd disgownt a oedd yn seiliedig ar hynny hefyd yn isel. Nododd bod y gyfradd disgownt yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo gwerth heddiw'r pensiynau a delir allan yn y dyfodol, ac o ganlyniad bod y gwerth yr hyn a delir allan yn ymddangos yn fwy. Nododd, beth bynnag ydy'r diffyg, roedd rhagdybiaethau'r Gronfa Bensiwn yn golygu y bydd y diffyg yn cael ei adennill dros 20 mlynedd fel cyflogwr. Nodwyd bod y Gronfa Bensiwn wedi cael blwyddyn dda gyda'r asedau wedi cynyddu yn sylweddol iawn, sef 22% yn 2016/17, ac mai gwerth y Gronfa ar 31 Mawrth 2017 oedd £1.8 biliwn.

Nododd aelod bod y tabl ar dudalen 51 o'r rhaglen yn dangos gostyngiad sylweddol yn y derbyniadau cyfalaf yn 2016/17 o gymharu â 2015/16. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod y ffigwr yn ddibynnol ar faint o eiddo a werthwyd yn ystod y flwyddyn. Pwysleisiodd nad oedd yn arwydd o berfformiad llai effeithiol, dim ond amseriad gwaredu eiddo.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed y gostyngiad yn y tybiaethau marwolaeth yng nghyswllt costau pensiwn, nododd y Pennaeth Cyllid bod yr actiwari wedi gwneud ymchwil manwl i'r tybiaethau a bod y Cyngor yn derbyn y wybodaeth. Ychwanegodd aelod bod hyn yn groes i'r hyn a glywir o ran oes unigolyn, holodd pa mor aml yr adolygir y tybiaethau. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid yr adolygir y tybiaethau fel rhan o'r prasiad actiwaraid tair blyneddol.

Holodd aelod o ran effaith newid yr oed pensiwn i 67. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod ymhlygiadau'r newid i'r oed pensiwn wedi ei ymgorffori yn y cynllun a'r rhagdybiaethau perthnasol i amcangyfrif gwerth yr ymrwmiadau.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2016/17.

5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2016/17

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2016/17, yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno. Manylwyd ar y cefndir economaidd, y gofyn benthycia a rheoli dyledion, gweithgarwch buddsoddi a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus.

Nododd y Pennaeth Cyllid y cynhelir cyfarfod briffio ar 24 Ionawr 2018 gan gwmni Arlingclose, Ymgynghorwyr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor, ar gyfer aelodau'r Pwyllgor er mwyn trafod ac egluro adroddiad Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor am 2018/19. Eglurodd y byddai'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 8 Chwefror 2018 yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor Llawn yng nghyswllt Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor am 2018/19, a bu penderfyniad cyffelyb yn Chwefror/Mawrth 2016 ynghylch strategaeth 2016/17 sef testun yr adroddiad yma.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed benthycy arian dros dro, nododd y Rheolwr Buddsoddi mewn rhai amgylchiadau eithriadol yn unig fe fenthycir arian dros dro i bontio cyfnod cyn y derbynir arian i mewn ac mai am gyfnod byr iawn byddai'r benthyciad. Ymhelaethodd ei fod yn rhatach ar rai adegau, oherwydd lefel llog isel i fenthycy arian am gyfnod byr yn hytrach na defnyddio gorddrafft.

Holodd aelod a fyddai'n fwy darbodus i ddefnyddio reserfau yn hytrach na benthycy. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor yn "hunan-fenthycia", yn hytrach na benthycy i wasanaethu asedau, a bod penderfyniadau ynghylch benthycia yn agosach at y sefyllfa o ran llif arian dyddiol. Eglurodd bod y sefyllfa reserfau yn wahanol, ac fe osgoir benthycia tymor hir.

Mewn ymateb i sylw gan aelod yng nghyswllt y frawddeg gyntaf ar dudalen 158 o'r rhaglen yng nghyswllt Gofyn Benthycia Cyfalaf (CFR) y Cyngor, nododd y Pennaeth Cyllid y dylai'r frawddeg nodi bod yr angen i fuddsoddi yn cynyddu a'r benthyciadau ddim yn lleihau digon er mwyn cyfarch y 'CFR'.

Mewn ymateb i ymholiadau yng nghyswllt gosod dangosyddion darbodus, nododd y Pennaeth Cyllid bod cyrff yn llunio dangosyddion yn benodol i'w hamgylchiadau gyda lefel disgwyladau a chyfyngiadau cyrff yn amrywio. Cadarnhawyd bod dangosyddion y Cyngor yn unol â Côt Ymarfer CIPFA (*Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth*) ar Reoli Trysorlys.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

6. ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – LLYWODRAETHU DA WRTH BENDERFYNU AR NEWIDIADAU SYLWEDDOL I WASANAETHAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Arweinydd Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru). Nododd bod yr adroddiad a oedd yn edrych ar y sefyllfa yng Ngwynedd o ran llywodraethu wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau yn gyffredinol positif. Eglurodd y bu oediad yng nghyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor oherwydd cyfnod etholiadol cynghorau

lleol a'r etholiad cyffredinol. Nododd bod adroddiad ar y sefyllfa yn genedlaethol i'w gyhoeddi cyn yr Hydref.

Tynnodd sylw y daethpwyd i'r casgliad bod "...trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd ar gyfer newid gwasanaethau yn gadarn ac yn gwella, gan gefnogi proses gwneud penderfyniadau effeithiol yn well." Amlygodd y cynnig ar gyfer gwella i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r Cyngor, sef, "Pwyllgorau Craffu'n cael y cyfle i adolygu a herio achosion busnes newid gwasanaethau'n amserol cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad terfynol." Nododd bod y Cyngor eisoes yn cynyddu rôl aelodau craffu gyda dau aelod craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Aelodau Cabinet.

Cyfeiriodd aelod at yr Is-Grŵp Adolygiad Craffu a holodd os byddai'r Is-Grŵp yn gallu ystyried y cynnydd yn ymateb i'r cynnig ar gyfer gwella. Nododd y Pennaeth Cyllid bod y Cyngor yn gweithredu ar y cynnig ar gyfer gwella a byddai'n cadarnhau'r sefyllfa efo'r Is-Grŵp i'r aelod.

Mewn ymateb i sylw gan aelod yng nghyswllt monitro craffu da, nododd Arweinydd Archwilio Perfformiad (Swyddfa Archwilio Cymru) y derbynnir arweiniad gan CIPFA, fe ystyrir cylch gorchwyl y Pwyllgorau Craffu a Chyfansoddiad y Cyngor. Ymhelaethodd y monitir sut y tystiolaethir craffu gan edrych ar gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu i weld os oedd herio yn cymryd lle, y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r penderfyniad.

PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Angela Russell ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2017 i ystyried archwiliadau a dderbyniodd gategori barn C, sef -

- a) Gweithwyr Cefnogol Plant (Derwen)
- b) Gwerthiant Diesel
- c) Goramser Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)
- ch) Cartref Plas Gwilym

Gwahoddwyd swyddogion i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw. Nodwyd nad oedd swyddogion yn bresennol yng nghyfarfod y gweithgor i drafod yr archwiliad 'Cartref Plas Gwilym'. Eglurwyd nad oedd Rheolwr Ardal Gogledd - Preswyl a Dydd a Rheolwr Plas Gwilym yn bresennol yn y Gweithgor oherwydd eu bod yn cynnal cyfweiliadau ac nad oedd modd iddynt gael eu hail-drefnu. Nodwyd bod y swyddogion wedi anfon crynodeb ysgrifenedig o'r camau a gymerwyd i leihau'r risgiau a amlygwyd yn yr adroddiad ac fe roddwyd sylw iddynt yn y Gweithgor ynghyd â'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan Reolwr Plas Gwilym.

Holodd aelod yng nghyswllt gwerthiant diesel, a fyddai'n syniad i newid y dull talu i fod efo cerdyn yn unig er mwyn lleihau'r risg? Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio bod cwsmeriaid yn talu efo arian parod a rhai yn derbyn anfoneb, byddai derbyn taliadau drwy gerdyn yn gwella llif arian ond mai mater i'r gwasanaeth ydoedd. Mewn ymateb i sylw pellach, nododd y Rheolwr Archwilio y byddai'r archwiliad dilyniant yn edrych ar lefel defnydd y drefn newydd o dalu efo cerdyn.

Nododd aelod ei bod wedi codi mater yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar 7 Gorffennaf 2017 o ran y dylai cyswllt fod rhwng swyddogion a oedd yn cyflwyno gwybodaeth gerbron y Cydbwyllgor efo swyddogion archwilio mewnol pan fo materion o bryder yn codi. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio y byddai'n croesawu'r cyfle i gael trafodaeth efo'r swyddogion pe cyfyd mater o bryder wrth lunio Cynllun Archwilio Mewnol am y flwyddyn.

Nododd aelodau sylwadau am eu pryderon o ran lefel trosiant staff mewn cartrefi preswyl a phroblemau recriwtio yn y maes gofal. Cynigiwyd ac eiliwyd i ofyn i'r Pwyllgor Craffu Gofal i ystyried craffu'r mater.

PENDERFYNWYD:

- (i) **derbyn yr adroddiad;**
- (ii) **gofyn i'r Pwyllgor Craffu Gofal ystyried craffu lefel trosiant staff mewn cartrefi preswyl a phroblemau recriwtio yn y maes gofal.**

8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/4/17 – 30/6/17

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 2 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol wedi ei gwblhau, 2 adroddiad am archwiliad o Gynllun Archwilio 2016/17 a 1 archwiliad grant.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

Ymwybyddiaeth Gweithwyr o'r Polisi Canu'r Gloch

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, eglurodd y Rheolwr Archwilio yr anfonwyd yr holiadur at weithwyr swyddfa'r Cyngor.

Nododd yr aelod lleyg y dylid ystyried trefn lle gweinyddir y drefn canu'r gloch gan gwmni allanol.

Holodd yr aelod lleyg am drefniadau canu'r gloch mewn ysgolion ac ar gyfer gwirfoddolwyr. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio bod polisi unigol ar gyfer bob ysgol ac y byddai archwiliad ar wahân. Eglurodd bod yr Adran Addysg efo polisi canolog yr oedd yr ysgolion yn diwygio i'w defnydd a bod trefniadau i adolygu'r polisi canolog. O ran gwirfoddolwyr, y disgwylir eu bod yn ymwybodol o'r polisi ac fe ellir eu cynnwys os cynhelir archwiliad o ran ymwybyddiaeth gweithwyr maes o'r polisi.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr aelod lleyg yng nghyswllt Cerdyn Cyswllt Canu'r Gloch, nododd y Rheolwr Archwilio bod gweithwyr newydd yn derbyn y cerdyn fel rhan o'r pecyn anwytho. Eglurodd bod y nifer o unigolion a oedd wedi derbyn cerdyn wedi gostwng ers yr archwiliad blaenorol a'i fod yn fater i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i ystyried o ran hyrwyddo'r polisi. Nododd mai isel iawn oedd niferoedd achosion o ganu'r gloch, a allai fod yn adlewyrchiad positif neu negyddol.

Debydau Uniongyrchol Hafan

Mewn ymateb i sylw gan aelod nad oedd categori barn wedi ei roi ar yr archwiliad, nododd y Rheolwr Archwilio oherwydd y cynhelir adolygiad o reolaeth yr Hafan ni ystyriwyd y dylid gosod categori barn. Tynnodd sylw bod y gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu ar adolygu trefniadau parhad busnes i liniaru'r risgiau a amlygwyd yn yr archwiliad.

PENDERFYNWYD:

- (i) **derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 hyd at 30 Mehefin 2017 a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol;**
- (ii) **bod yr aelodau a benodwyd i wasanaethu ar y Gweithgor Gwella Rheolaethau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Mehefin yn ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C' yn y cyfnod yma yn ogystal;**

(iii) mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.

9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2017/18.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol hyd at 30 Mehefin 2017 wedi cwblhau 3.33% o'r cynllun, gyda 2 o'r 60 archwiliad yng nghynllun 2017/18 wedi eu rhyddhau yn derfynol. Eglurwyd mai un rheswm pam bu'r perfformiad yn is na'r uchelgais chwarterol oedd oherwydd trafferthion recriwtio staff. Roedd y lefel staffio i lawr drwy gydol y chwarter yn gyfatebol i ddau archwiliwr llawn amser. Ychwanegwyd y bu i ddau aelod o staff newydd gychwyn yn ystod mis Ebrill ac o reidrwydd wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y cyfnod. Nodwyd bod camau mewn lle i adfer y sefyllfa gydag archwiliadau penodol eisoes wedi eu dynodi i'r archwilwyr.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed y rhesymau am y trafferthion recriwtio, nododd y Rheolwr Archwilio mai un o'r rhesymau oedd graddfa cyflog Uwch Archwiliwr gyda chynghorau cyfagos yn dynodi cyflog uwch ar gyfer y swydd. Ychwanegodd ei bod o'r farn nad oedd y cyflog yn adlewyrchu'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a oedd ynghlwm â'r swydd.

Nododd yr aelod llewyg y dylid ail-edrych ar raddfa cyflog Uwch Archwiliwr. Ychwanegodd bod lefel staffio i gyflawni gwaith archwilio mewnol yn fater o bryder mewn cynghorau eraill yn yr ardal, gyda rhai cynghorau yn prynu i mewn oriau staff cynghorau eraill.

Mynegodd aelodau eu pryderon o ran risg o beidio cyflawni gwaith archwilio mewnol yn unol â chynllun 2017/18, a'r angen i ail-edrych ar raddfa cyflog Uwch Archwiliwr. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Cyllid y byddai'n trefnu asesiad os oedd y raddfa cyflog yn addas i bwrpas, gan ofyn i'r Rheolwr Archwilio adolygu'r swydd ddisgrifiad, a gofyn i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ail arfarnu'r raddfa cyflog.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2017/18.

10. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio y Siarter Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor a luniwyd yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus 2013 (diwygiwyd Ebrill 2017). Tywysodd yr aelodau trwy'r Siarter gan dynnu sylw at bwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, sef:

“Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.”

Eglurodd mai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu y cyfeirir ato yn y ddogfen fel “Bwrdd” a “Pwyllgor Archwilio” yn unol â diffiniadau'r Safonau ac mai hi fel y Rheolwr Archwilio oedd yn gweithredu fel y “Prif Swyddog Archwilio” yn unol â'r derminoleg yn y Safonau.

Amlygodd mai un o'r newidiadau mwyaf yn y Siarter oedd bod y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg a oedd yn atebol i'r Pennaeth Cyllid. Roedd y newid yn adlewyrchu'r drefn weithio.

Tynnodd sylw bod Archwilio Mewnol ar ôl cyfnod priodol, yn cynnal profion dilyniant er mwyn sicrhau bod yr hyn a gytunwyd efo'r Gwasanaethau yn weithredol pa bynnag farn y derbyniodd yr archwiliad. Roedd hyn yn adlewyrchu'r symudiad tuag at annog perchnogaeth rheolwyr o'r camau cytunedig.

Nododd y Pennaeth Cyllid fod y symudiad tuag at annog perchnogaeth rheolwyr a swyddogion o'r camau i liniaru risgiau a adnabuwyd mewn archwiliad, gan ddod i gytundeb ar y camau gweithredu, wedi'i groesawu a'i ganmol ganddo ef a'r Prif Weithredwr.

Nododd aelod bod y Siarter yn glir ac yn dda. Holodd sut y byddai'r Rheolwr Archwilio yn adrodd os credir bod diffyg adnoddau i gwblhau'r gwaith. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio y byddai unrhyw ddiffyg adnoddau yn cael ei amlygu yn yr adroddiadau cynnydd a gyflwynir gerbron y Pwyllgor. Ychwanegodd os byddai angen gweithredu y byddai'n trafod efo'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Pennaeth Cyllid.

Cyfeiriodd yr aelod lleyg at baragraff 10.1 o dan y pennawd 'Anghenion Adnoddau Archwilio Mewnol', nododd y dylid cryfhau'r paragraff. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio y byddai'n ychwanegu cymal i'r perwyl y cyfeirir y mater i'r Pwyllgor os oes diffyg adnoddau.

Nododd aelod ei fod yn hoffi'r broses o drafod a chytuno ar gamau gweithredu efo rheolwyr er mwyn annog eu perchnogaeth o'r datrysiadau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol.

11. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio yr adroddiad gan nodi bod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol CIPFA sy'n gysylltiedig, yn mynnu bod y Rheolwr Archwilio (y "prif weithredwr archwilio" yn nherminoleg y Safonau) yn datblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella sy'n cwmpasu pob agwedd o weithgareddau archwilio mewnol.

Nododd ei bod wedi cynnal hunanasesiad mewnol ac wedi trafod y canlyniadau gyda'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg a chytunwyd ar y gweithrediadau oedd i'w cynnwys yn y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant ble roedd cydymffurfiaeth rannol neu ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Safonau. Tynnwyd sylw at y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant a oedd yn atodiad i'r adroddiad.

Eglurodd bod asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd wedi ei gynllunio i'w gynnal yn Hydref 2017 gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gaerfyrddin a chyflwynir canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor. Hysbysodd y Rheolwr Archwilio y Pwyllgor y byddai'n ymgymryd ag asesiad allanol Cyngor Sir Dinbych yng Ngwanwyn 2018.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant Archwilio Mewnol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am a daeth i ben am 12.30pm

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
DYDDIAD	28 Medi 2017
TEITL	Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;• Adroddiadau 'ISA260' Deloitte;• Llythyrau Cynrychiolaeth (Atodiad 1).
ARGYMHELLIAD	Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyrau.
AWDUR	Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

1. CYFRIFON 2016/17

Bydd aelodau yn cofio cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon 2016/17 (cyn archwiliad) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 13 Gorffennaf 2017, pryd bu craffu priodol.

2. ARCHWILIAD GAN DELOITTE AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Gorffennaf byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan gwmni Deloitte, a chyflwynir yma adroddiadau 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Deloitte.

3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2016/17

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2016/17. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn Atodiad 3 i adroddiad 'ISA260' Deloitte.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried a chymeradwyo'r –

- Adroddiad 'ISA260' gan Deloitte ar gyfer:
 - Cyngor Gwynedd
 - Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2016/17 (ôl-archwiliad)

5. LLYTHYRAU CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyrau Cynrychiolaeth (Atodiad 1 i adroddiadau Deloitte) wedi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r uchod.

6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyrau Cynrychiolaeth wedi'u hardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Huw Vaughan Thomas) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.

Cyngor Gwynedd

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2016/17

Adran Cyllid
www.gwynedd.llyw.cymru



MYNEGAI

	Tudalen
Adroddiad Naratif	2 - 6
Datganiad Cyfrifoldebau	7
Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu	8
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	9
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	10
Y Fantolen	11
Datganiad Llif Arian	12
Nodiadau i'r Cyfrifon	13 – 76
Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r Nodiadau	77 –106
Adroddiad yr Archwilwyr	107 - 108
Atodiad A – Y Gronfa Degwm	109
Atodiad B – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan	110
Atodiad C – Datganiad Llywodraethu Blynyddol	111 – 127

ADRODDIAD NARATIF

Rhagarweiniad

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2016/17 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 106.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw yn ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a trethi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw'r Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol derbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dangosir y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.
- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2017.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2016/17 at ddibenion refeniw a chyfalaf.
- **Cyfrifon a Mantolen Cronfa Bensiwn Gwynedd.**
- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Gwariant Refeniw

Strategaeth Ariannol

Sefydli'r y gyllideb flynyddol o fewn cyd-destun strategaeth ariannol tymor canolig, er mwyn sicrhau fod y gyllideb honno yn paratoi ar gyfer y sefyllfa i ddod, yn hytrach na chyfarch anghenion un flwyddyn yn unig. Mae'r cynllunio tymor canolig hyn wedi talu ar ei ganfed i'r Cyngor, gan ei alluogi i gynllunio arbedion angenrheidiol yn rhesymegol, heb orfod cymryd penderfyniadau brysiog/amhriodol o ran y buddion i'r dinesydd, ac wedi sefydlu cyfundrefn ar gyfer adnabod arbedion a thoriadau cyllidol.

Perfformiad Ariannol 2016/17

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £348m yn ystod 2016/17, gyda'r sefyllfa net yn £227m.
- Er gwaethaf gofynion parhaus i gyflawni arbedion heriol, mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2016/17 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol. Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2016/17 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2017. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet danwariant net gwasanaethau o £469k i'w cario drosodd am y flwyddyn.
- Roedd perfformiad ariannol ffafriol 2016/17 yn galluogi'r Cyngor i glustnodi £700k tuag at y pecyn ariannu angenrheidiol ar gyfer strategaeth ariannol 2017/18, tra hefyd yn ychwanegu £1.4m i'r elfen o falans y gronfa gyffredinol heb ei glustnodi.
- Bu i sefyllfa ariannol 2016/17 gael ei chymryd i ystyriaeth yn y broses o sefydlu cyllideb 2017/18.

TABL I - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl I yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb	Gwir	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000
Gwariant Net ar Weithgareddau	241,043	239,728	(1,315)
Swm Adrannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn	0	469	469
	241,043	240,197	(846)
Ariannwyd gan -			
Incwm y Dreth Cyngor	(74,093)	(74,640)	(547)
Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol	(37,158)	(37,158)	0
Grantiau Llywodraeth Cyffredinol	(129,792)	(129,792)	0
Cyfraniad i Falans y Gronfa Gyffredinol	0	1,393	1,393
	0	0	0

- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 9 a 10 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 2 - Symudiad Trawsddodiad rhwng 'Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant sydd yn adlewyrchu'r Strwythur Rheolaethol Adrannol.

Adran	Adroddiad Perfformiad (Alldro)	Addasiad Trawsddodiad	Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo	Datganiad Incwm a Gwariant
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg	81,620	533	82,153	0	82,153
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,838	77	7,915	0	7,915
Cyllid	5,660	85	5,745	0	5,745
Economi a Chymuned	6,641	(87)	6,554	0	6,554
Oedolion, Iechyd a Llesiant	44,560	(8)	44,552	0	44,552
Plant a Chefnogi Teuluoedd	13,187	(15)	13,172	0	13,172
Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)	20,709	(1,427)	19,282	1,681	20,963
Amgylchedd	5,960	(55)	5,905	0	5,905
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,991	(76)	1,915	0	1,915
Ymgynghoriaeth Gwynedd	222	2	224	0	224
Corfforaethol	35,334	(19,628)	15,706	21,865	37,571
Cost Gwasanaethau	223,722	(20,599)	203,123	23,546	226,669
Eraill (Yn cynnwys Addasiad Canolog a Chorfforaethol)	16,475	20,599	37,074	(23,546)	13,528
Cyfanswm	240,197	0	240,197	0	240,197

Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.

- Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- £51m yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r asedau buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23).
- Yn dilyn ailbrisiu rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net o £7m ar ailbrisiu asedau eiddo, offer a chyfarpar sefydlog (Nodyn 15 a 23).

- Materion Eraill**

- Bu problemau digynsail yn y sefyllfa ariannol fyd-eang yn y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd y sefyllfa gyffredinol yma, bu'n angenrheidiol i'r Awdurdod gymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan hefyd gadw lefel darbodus o reserfau.
- Ers y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, bu cryn ansicrwydd economaidd. Disgwylir i hyn barhau am gyfnod a gall hyn effeithio rhai ffactorau a phenderfyniadau cyllidol gan y Cyngor yn 2016/17 a'r tymor canolig.

Gwariant Cyfalaf yn 2016/17

Yn 2016/17 gwariodd y Cyngor £29.3m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â'r modd y cafodd ei ariannu.

CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU		
2015/16		2016/17
£'000		£'000
12,354	Addysg	15,033
8,495	Amgylchedd	5,053
348	Cefnogaeth Gorfforaethol	70
494	Cyllid	609
5,147	Economi a Chymuned	1,951
3,894	Oedolion, Iechyd a Llesiant	2,802
103	Plant a Chefnogi Teuluoedd	58
4,508	Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	2,558
191	Ymgynghoriaeth Gwynedd	1,175
35,534		29,309
	ARIANNWYD GAN -	
6,029	Benthyciadau	11,106
17,635	Grantiau a Chyfraniadau	11,460
1,622	Derbyniadau Cyfalaf	770
10,248	Refeniw a Chronfeydd Eraill	5,973
35,534		29,309

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £5.0m yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm gwariant ar Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu oedd £24.3m fel y dangosir yn Nodyn 15 a 20 ar dudalennau 38 i 40 a thudalen 50.
- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2017 yn £111.5m – gostyngiad o £1.9m (o £113.4m) yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd ad-daliadau o £2.06m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

Darpariaethau ac Arian wrth Gefn

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol heb ei glustnodi o £6.9m, roedd gan y Cyngor ddarpariaethau o £8.1m, reserfau eraill a glustnodwyd o £43.6m a balansau ysgolion o £2.9m. Cyfanswm y rhain oedd £61.5m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 22.

Cronfa Bensiwn

Mae gan y Cyngor (fel cyflogwr) ymrwymiad net yn deillio o'u cyfran o asedau ac ymrwymadau'r Gronfa Bensiwn Gwynedd, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol I9. Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans, o gyfran y Cyngor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Mae'r ymrwymiad net yma wedi cynyddu £57m i £235m yn 2016/17. Gweler Nodyn 38 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn cael ar y Gronfa Bensiwn.

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Dengys cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd (tudalennau 77 i 106) gynnydd yn ystod y flwyddyn o £339m ar werth y farchnad yn asedau net y Gronfa i £1,864m. Roedd gwerth llyfr yr asedau net ar 31 Mawrth 2017 yn £1,170m (2016: £1,127.6m).

Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiau Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon ar dudalen 13.

Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Nid oedd newidiadau i bolisiau cyfrifeg yn ystod 2016/17.

Effaith newidiadau i Safonau Cyfrifeg

Yn dilyn yr adolygiad "Dweud y Stori" ar gyflwyniad datganiadau ariannol awdurdodau lleol ac yn unol â safon cyfrifeg SCC 1, newidiodd côd 2016/17 y trefniadau adrodd rhannol ar gyfer y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a chyflwyno y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu gyda'r nodiadau priodol. Mae ffurf cyflwyno'r Datganiad Symudiadau mewn Reserfau wedi ei addasu hefyd. Mae'r DOGC a'r DGA yn adlewyrchu strwythur adrodd a monitro y Cyngor. Er mwyn cymharu gyda ffigyrau 2016/17 mae ffigyrau 2015/16 wedi eu hail ddatgan yn yr un ffurf, ond nid oes unrhyw effaith ar y wybodaeth ar y Fantolen.

Effaith newidiadau i Safonau Cyfrifeg i'r Dyfodol

Bydd newid i driniaeth Pensiynau yn effethio'r cyfrifon o 2016/17 ymlaen. Gweler Nodyn 4 am wybodaeth bellach.

Gwybodaeth Bellach

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679133

neu

Cares Rees Jones
Prif Gyfrifydd
01286 679134

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

CYNGOR GWYNEDD

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB YR AWDURDOD

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

28 Medi 2017

Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor a Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd a'r Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2017, ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

20 Medi 2017

DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a trethi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu i bwrpas gwneud penderfyniadau rhwng adrannau y Cyngor. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2015/16				2016/17			
Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (gweler Nodyn 8)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr		Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (gweler Nodyn 8)	Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr	
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	
82,394	0	82,394	Addysg	82,153	0	82,153	
7,236	0	7,236	Cefnogaeth Gorfforaethol	7,915	0	7,915	
5,782	0	5,782	Cyllid	5,745	0	5,745	
7,459	0	7,459	Economi a Chymuned	6,554	0	6,554	
44,553	0	44,553	Oedolion, Iechyd a Llesiant	44,552	0	44,552	
13,183	0	13,183	Plant a Chefnogi Teuluoedd	13,172	0	13,172	
19,036	1,754	20,790	Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	19,282	1,681	20,963	
5,789	0	5,789	Amgylchedd	5,905	0	5,905	
2,026	0	2,026	Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,915	0	1,915	
(121)	0	(121)	Ymgynghoriaeth Gwynedd	224	0	224	
13,798	18,456	32,254	Corfforaethol	15,706	21,865	37,571	
201,135	20,210	221,345	Cost Gwasanaethau	203,123	23,546	226,669	
20,098	8,944	29,042	Gwariant Gweithredol Arall	20,466	694	21,160	
23,732	(9,689)	14,043	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	19,563	(7,253)	12,310	
(241,476)	(13,970)	(255,446)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(241,598)	(9,288)	(250,886)	
3,489	5,495	8,984	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	1,554	7,699	9,253	
(58,422)			Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol	(54,933)			
3,489			(Gwarged)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	1,554			
(54,933)			Balans Cau y Gronfa Gyffredinol	(53,379)			

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu ac yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

2015/16			2016/17				
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Nodyn	Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	£'000
101,435	(19,041)	82,394	Addysg		100,797	(18,644)	82,153
9,833	(2,597)	7,236	Cefnogaeth Gorfforaethol		10,587	(2,672)	7,915
8,068	(2,286)	5,782	Cyllid		8,026	(2,281)	5,745
17,514	(10,055)	7,459	Economi a Chymuned		15,158	(8,604)	6,554
68,038	(23,485)	44,553	Oedolion, Iechyd a Llesiant		69,566	(25,014)	44,552
16,577	(3,394)	13,183	Plant a Chefnogi Teuluoedd		16,679	(3,507)	13,172
35,357	(14,567)	20,790	Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)		36,453	(15,490)	20,963
14,778	(8,989)	5,789	Amgylchedd		15,260	(9,355)	5,905
2,501	(475)	2,026	Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol		2,657	(742)	1,915
2,122	(2,243)	(121)	Ymgynghoriaeth Gwynedd		2,520	(2,296)	224
65,029	(32,775)	32,254	Corfforaethol		70,482	(32,911)	37,571
341,252	(119,907)	221,345	Cost Gwasanaethau		348,185	(121,516)	226,669
29,286	(244)	29,042	Gwariant Gweithredol Arall	11	21,200	(40)	21,160
14,551	(508)	14,043	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	12	12,623	(313)	12,310
0	(255,446)	(255,446)	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	13	0	(250,886)	(250,886)
385,089	(376,105)	8,984	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau		382,008	(372,755)	9,253
		(6,095)	(Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisiu Asedau Sefydlog	23.1			(7,282)
		(57)	(Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisiu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu	23.2			159
		(80,568)	Ailfesuriadau o'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net	23.6			51,322
		(86,720)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				44,199
		(77,736)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				53,452

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan yr Awdurdod, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Awdurdod yn cael eu torri lawr rhwng ennillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm godir ar y dreth cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

		<i>Gwybodaeth ychwanegol</i>			Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau					
Nodyn		<i>Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi</i>	<i>Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd</i>	<i>Cyfanswm Balansau Ysgolion</i>	<i>Balans Cronfa Gyffredinol</i>	<i>Reserf Derbyniadau Cyfialaf</i>	<i>Grantiau Cyfialaf heb eu defnyddio</i>	<i>Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy</i>	<i>Reserfau na ellir eu defnyddio</i>	<i>Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod</i>
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans 31 Mawrth 2015 a gariwyd ymlaen		(6,350)	(48,576)	(3,496)	(58,422)	(2,728)	(2,577)	(63,727)	11,734	(51,993)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2015/16</u>										
	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	8,984	0	0	8,984	0	0	8,984	(86,720)	(77,736)
9	Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	(5,495)	0	0	(5,495)	693	1,484	(3,318)	3,318	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2015/16		3,489	0	0	3,489	693	1,484	5,666	(83,402)	(77,736)
10	<i>Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd</i>	(2,656)	2,497	159	0	0	0	0	0	0
<i>(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2015/16 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)</i>		833	2,497	159	3,489	693	1,484	5,666	(83,402)	(77,736)
Balans 31 Mawrth 2016 a gariwyd ymlaen		(5,517)	(46,079)	(3,337)	(54,933)	(2,035)	(1,093)	(58,061)	(71,668)	(129,729)
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2016/17</u>										
	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	9,253	0	0	9,253	0	0	9,253	44,199	53,452
9	Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	(7,699)	0	0	(7,699)	(862)	61	(8,500)	8,500	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2016/17		1,554	0	0	1,554	(862)	61	753	52,699	53,452
10	<i>Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd</i>	(2,947)	2,489	458	0	0	0	0	0	0
<i>(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2016/17 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)</i>		(1,393)	2,489	458	1,554	(862)	61	753	52,699	53,452
Balans 31 Mawrth 2017 a gariwyd ymlaen		(6,910)	(43,590)	(2,879)	(53,379)	(2,897)	(1,032)	(57,308)	(18,969)	(76,277)

Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan yr Awdurdod. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbriso), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifeg a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

31 Mawrth 2016	Nodyn	31 Mawrth 2017
£'000		£'000
424,305	Eiddo, Offer a Chyfarpar	433,687
60	Asedau Treftadaeth	60
247	Eiddo Buddsoddi	197
2,517	Asedau Gweddilliol	2,039
2,341	Buddsoddiadau Tymor Hir	2,171
4,301	Dyledwyr Tymor Hir	4,094
433,771	Asedau Tymor Hir	442,248
50,055	Buddsoddiadau Tymor Byr	26,044
459	Asedau ar gael i'w Gwerthu	148
1,321	Stoc	1,286
32,539	Dyledwyr Tymor Byr	54,889
14,191	Arian a Chyfwertthoedd Arian	1,384
98,565	Asedau Cyfredol	83,751
(39,430)	Gorddrafft Banc	(30,035)
(2,757)	Benthyciadau Tymor Byr	(3,335)
(54,687)	Credydwyr Tymor Byr	(56,972)
(465)	Darpariaethau Tymor Byr	(357)
(2,364)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw	(2,196)
(99,703)	Ymrwymiadau Cyfredol	(92,895)
0	Credydwyr Tymor Hir	0
(8,221)	Darpariaethau Tymor Hir	(7,776)
(110,676)	Benthyciadau Tymor Hir	(108,143)
(178,332)	Ymrwymiad Pensiwn Net	(235,413)
(2,127)	Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol	(1,993)
(3,548)	Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o flaen llaw	(3,502)
(302,904)	Ymrwymiadau Tymor Hir	(356,827)
129,729	Asedau Net	76,277
(58,061)	Reserfau Defnyddiadwy	(57,308)
(71,668)	Reserfau na ellir eu defnyddio	(18,969)
(129,729)	Cyfanswm Reserfau	(76,277)

DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian a chyferthoedd arian yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Awdurdod yn cynhyrchu a defnyddio arian a chyferthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Awdurdod a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Awdurdod yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o weithgareddau ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian yr Awdurdod yn y dyfodol.

2015/16 £'000		Nodyn	2016/17 £'000
8,984	(Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau		9,253
(32,570)	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol	24a	(13,099)
942	Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu	24b	1,603
(22,644)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		(2,243)
46,268	Gweithgareddau Buddsoddi	25	3,574
(1,302)	Gweithgareddau Ariannu	26	2,081
22,322	(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyferthoedd arian		3,412
2,917	Arian a chyferthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd	19	25,239
25,239	Arian a chyferthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd	19	28,651

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I - POLISIÂU CYFRIFO

I.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol 2016/17 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2017. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016/17* a'r *Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2016/17*, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2014.

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud a chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

I.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y referniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a phan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd referniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd yr Awdurdod yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Awdurdod.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pryd fydd taliadau'n cael eu gwneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau yn ogystal â llog fydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol i'r erfyn cyllidol perthnasol yn hytrach nac i'r llif arian sydd wedi ei sefydlogi neu wedi'i bennu gan y cytundeb.
- Ble mae referniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif referniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

I.3 Arian a Chyferthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categoreiddio fel cyferthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chyferthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

I.4 Ymrwymadau Dibynnol

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Awdurdod. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw ymrwymadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon.

I.5 Corfforaethol

Mae'r pennawd Corfforaethol yn cynnwys eitemau sydd yn berthnasol i'r Gynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheolaeth a Rheolaeth Gorfforaethol. Mae'r Gynrychiolaeth Ddemocrataidd a Rheolaeth yn cynnwys ffurfio polisiau

NODYN I - POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

corfforaethol a gweithgareddau aelodau tra mae Rheolaeth Gorfforaethol yn cynnwys costau sydd yn gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdod.

1.6 Buddiannau Gweithwyr

1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Awdurdod. Gwneir cronriad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y cronriad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad Symudiadau mewn Reserfau fel bod cost y gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronriad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, i'r llinell gwasanaethau Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all yr Awdurdod dynnu'n ôl y cynnig o'r buddion hynny neu pan fo'r Awdurdod yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi yn eu lle y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr yr awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-p-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Awdurdod. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r llinell Gwasanaethau Plant ac Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn Y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafuniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 2.6% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn Y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio.
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.
- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.
- Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Adrodd Ryngwladol (SCC) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCC19.

1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan yr Awdurdod hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau i Bolisiau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.9 Offerynnau Ariannol

Offeryn ariannol yw unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Felly, mae'r term offeryn ariannol yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymadau ariannol.

Mewn cydymffurfiad gyda'r gofynion adolygwyd asedau ac ymrwymadau ariannol y Cyngor er mwyn eu categoreiddio a phenderfynu ar y driniaeth gywir. Adnabuwyd yr offerynnau canlynol wrth wneud yr adolygiad hwn:

Ymrwymadau ariannol

- Credydwy'r masnachol a chredydwy'r eraill.
- Benthyciadau tymor hir gan gynnwys premiymau a disgowntiau ar setliad cynnar benthyciadau sydd wedi eu gohirio.

Mae'r Cyngor yn prasio ei ymrwymadau ariannol ar gost wedi ei amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Cyfrifir llog i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Gan fod benthyciadau tymor hir y Cyngor i gyd ar gyfraddau sefydlog, telir y llog sydd wedi ei gronni yn y flwyddyn.

Mae enillion neu golledion sydd yn codi ar ad-daliad cynnar yn cael eu trin fel eu bod yn diddymu'r ymrwymiad ariannol oni bai eu bod yn cwrdd ag amodau caeth lle bo modd trin y trafodyn fel addasiad o amodau'r benthyciad presennol ac addasu gwerth y benthyciad newydd gydag unrhyw enillion neu golledion.

Asedau ariannol

- arian parod
- cyfrifon banc
- adneuo'n cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu i ddau gategori:

- Benthyciadau a derbyniadau - asedau sydd gyda thaliadau sefydlog neu benodol nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

- Asedau ar gael i'w gwerthu - asedau sydd gyda phris marchnad wedi ei ddyfynnu a/neu dim taliadau penodol neu benderfynedig gan gynnwys Bondiau wedi eu Gwarantu

Catgoreiddir mwyafrif asedau ariannol y Cyngor fel benthyciadau a derbyniadau ac felly fe'i prisir ar sail cost wedi ei amortio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol.

Y swm a gyflwynir ar y Fantolen yw'r prifswm sy'n ddyledus (gan gynnwys cronid llog) ac mae llog yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysedig yn unol â'r swm sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn o dan y cytundeb benthg.

Mae buddsoddiadau'r Cyngor mewn Bondiau wedi eu Gwarantu yn cael eu priso gan ddefnyddio'r dull disgowntio llif arian er rhoi y gwerth teg ar gyfer y Fantolen

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan yr Awdurdod y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu catgoreiddio fel cywerthyddion arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthydd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y Fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

Mesurir Dyledion a Derbyniadau tymor byr sydd heb gyfradd llog datganedig ar sail swm yr anfoneb wreiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr holl ddyledion a derbyniadau masnachol.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Ariannu a Chyfrifo am Gyfalaf) (Cymru) (Diwygiedig) 2007 yn caniatáu i effaith ailddatgan offerynnau ariannol gael ei addasu trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau. Caiff yr addasiadau canlyniadol eu dangos yn y Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol a'r Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w gwerthu ar y Fantolen. Mae'r addasiad a ganiateir o dan statud yn golygu bod yr effaith net ar falansau'r Cyngor yn gyfatebol i'r trosglwyddiad o dan y polisi yma.

1.10 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail gronidol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r awdurdod wedi ei fodloni.

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Awdurdod yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf ymlaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

1.11 Asedau Treftadaeth

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddeler gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Llundain a Phaentiadau
- Teyrnlysau Dinesig
- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Oriolau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Defnyddiodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrndlysau dinesig a'i luniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy de-minimis i ddibenion prisio Asedau Treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi I.17.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad – gweler polisi I.17.

I.12 Stoc a Chontractau Tymor Hir

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar Y Fantolen ar sail yr isaf o gost a gwir werth, yn unol â darpariaethau'r Côt Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost gyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

I.13 Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu. Caiff yr eiddo yma eu prisio ar sail gwerth teg. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thair lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau yr Awdurdod (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrwydd yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

I.14 Prydlesau

Caiff prydlesau eu hystyried yn brydlesi cyllidol pan fo telerau trosglwyddiad y brydles a'r holl risgiau a buddion sy'n deillio o berchnogaeth o'r eiddo, offer neu gyfarpar yn trosglwyddo i'r prydlesai. Caiff bob prydles arall eu hystyried yn brydlesi gweithredol.

Yr Awdurdod fel Prydlesai:

Caiff symiau a ddelir dan brydlesi cyllidol eu hadnabod yn wreiddiol, ar ddechrau'r brydles, ar werth teg (neu, os yn is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles), gydag ymrwymiad cyfatebol am rwymedigaeth y brydles i'r prydleswr. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng cost ariannol (i'w gynnwys yn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a chost a roir yn erbyn ymrwymiad y brydles i'w leihau. Caiff yr ased perthnasol ei drin yn unol â'r polisiâu arferol, a chaiff ei ddibrisio fel sy'n briodol.

Caiff taliadau prydlesau gweithredol eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaeth perthnasol ar sail dibrisiad llinol dros gyfnod y brydles.

Yr Awdurdod fel Prydleswr:

Ble mae'r Awdurdod yn caniatáu prydles gyllidol ar eiddo, mae'r ased perthnasol yn cael ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad, sydd i'w gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw gwerth y gwarediad a ysgrifennir allan yn gost a roir yn erbyn treth y cyngor, gan fod cost asedau tymor hir yn cael eu darparu o dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae'r symiau felly yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o'r Balans Cronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles weithredol ei gydnabod ar sail linol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a chaiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

I.15 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol yr Awdurdod eu dangos ar wahân ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar werth y farchnad. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Awdurdod (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrwydd yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

I.16 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae rhai costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu dosrannu i'r gwasanaethau priodol yn unol â threfniadau'r Cyngor, gyda rheolaeth cyllidol y penawdau hyn o dan reolaeth corfforaethol. Er hynny, mae rhai costau

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

na ellir eu dosrannu o gwbl ac felly adroddir arnynt yn gorfforaethol. Mae angen y wybodaeth at ddiben costio cyflawn ond nid ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiadau oherwydd nad dyna'r Strwythur Rheoli.

1.17 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fas data'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob pum mlynedd. Ers y flwyddyn ariannol 2015/16, mae'r Awdurdod wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrizio gwahanol gategoriâu o'r asedau yma yn flynyddol. Mae hyn yn unol â'r Côd a'r Datganiadau Egwyddorion Prasio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig.

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (DRC) ar gyfer eiddo arbenigol.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd.

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisiau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion prasio o £20,000 ar gyfer Tir ac Adeiladau Gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer asedau megis Tir ac Adeiladau, ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Rheolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

Amhariad a Dibrisiant

Amhariad

Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Adrodd Ryngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu eu hasedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu hadnabod, maent yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd positif ar gyfer pris ased o fewn y Reserf Ailbrisio, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu fwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronodig)
- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbrisio neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu fwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Prif elfen SCC 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prasio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o eiddo, offer a chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrpas cydrannu. (£2.04m yw'r trothwy ar gyfer 2016/17, sef 1% o werth yr holl adeiladau). Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de-minimus ydi:

- a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianeg, ac
- b) adeiledd

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (DRC), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol byr e.e. boeleri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianeg sydd angen eu cydrannu ar wahân.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y Fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:

- (i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifedig (3–15 mlynedd)
- (ii) Dibrisir Is adeiladwaith dros 40 mlynedd
- (iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
- (iv) Ni ddibrisir Tir
- (v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd defnyddiol gweddilliol amcangyfrifedig (5–80 mlynedd)
- (vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

Lleiafswm Darpariaeth Refeniw

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) (fel y'i diwygiwyd) 2008 [OS 2008/588 (W.59)] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (MRP) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn MRP sydd ar gael:

- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull CFR
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.

MRP yn 2016/17: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Non-HRA) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Non-HRA wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynwyd y Datganiad MRP i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2016/17. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Defnyddiodd y Cyngor Opsiwn 1 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Roedd yr MRP yng nghyswllt lesau a chynlluniau Menter Cyllid Preifat (PFI) a brynwyd ar y Fantolen dan y Côt Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar yr SAARH yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Côt Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddsbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.18 Costau heb eu Dosrannu

Mae'r eitemau sydd yn cael eu heithrio o gostau cyflawn yr eitemau gwasanaeth yn cael eu diffinio fel Costau heb eu Dosrannu ac yn cynnwys cost buddiannau dewisol a ddyfarnwyd i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar a cholledion amhariad ar asedau ar gael i'w gwerthu. Fe'u dangosir ar y rhes Corfforaethol yo'r DIGC.

1.19 Darpariaethau

Mae'r Cyngor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Gwneir darpariaethau hefyd ar gyfer dyledion sydd yn annhebyg o gael eu talu. Ysgrifennir dyledion drwg i ffwrdd yn erbyn y gwasanaeth perthnasol. Mae'r Cyngor yn dosbarthu'r darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.20 Reserfau (a Balansau)

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1992, mae'r Cyngor yn cynnal –

- Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn ("balansau") yr Awdurdod, sef balans gweithredol i helpu lliniaru effaith llif arian anwastad ag i'w gadw wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.
- Nifer o Reserfau Penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau arbennig, sef arian wedi'i adeiladu i gwrdd ag ymrwymadau a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o ddigonolrwydd a defnydd o reserfau penodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd agwedd asesu'r risg tuag at gynnal lefelau digonol o falansau a reserfau er mwyn cwrdd ag anghenion gwario'r dyfodol. Wrth ystyried y gyllideb flynyddol a'r Strategaeth Ariannol tymor canol, bydd y Cyngor yn gosod allan ei fwrdd ynghylch lefel y balansau cyffredinol a chronfeydd, yng nghyd-destun yr holl risgiau perthnasol. Gweler cymeradwyaeth o'r polisi llawn ar gyfer cronfeydd gan Gabinet y Cyngor ar 23 Mehefin 2015.

- Cedwir rhai reserfau eraill, sef 'Reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy yr Awdurdod.

1.21 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud

Mae Deddfwriaeth yn caniatáu peth gwariant i gael ei gategoreiddio fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw yn creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

1.22 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

1.23 Dyledwyr a Chredydwy

Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côt Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, a hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

1.24 Dyrannu Llog Derbyniadwy

Mae'r Awdurdod yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at 13 mis (ac eithrio Bondiau Gorchuddiedig) a thelir y llog i Gronfa Gyffredinol y Sir, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir.

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.25 Costau Benthycia

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthycia sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Côd.

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

1.26 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill

Yng nghyfrifon yr Awdurdod, caiff buddiannau mewn cwmnïau ac endidau eraill eu hadrodd fel asedau ariannol ar gost gwreiddiol, llai unrhyw ddarpariaeth am golledion.

1.27 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth aiddosbarthu. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categorio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Awdurdod (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

1.28 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi ei gronni ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbriso yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

1.29 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir Asedau gan yr Awdurdod mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

1.30 Cyfrifo am Gostau'r Cynllun Ymrwymiad i Ostwng Carbon

Mae'r Awdurdod yn rhan o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad i Ostwng Carbon (CRC). Mae'n ofynnol i awdurdodau sy'n rhan o'r cynllun bwrcasu ac ildio lwfansau, wedi'r digwyddiad ar hyn o bryd, ar sail allyriadau h.y. cynhyrchiad carbon deuocsid wrth ddefnyddio ynni.

1.31 Costau'n ymwneud â Hawliadau Cyflogau Cyfartal

Mae cronfa wedi ei gynnwys yng Nghyfrifon yr Awdurdod yn ymwneud â chostau Hawliadau Tâl Cyfartal ac yn adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gost debygol ar 31 Mawrth 2017.

1.32 Cynllun Lwfansau Tirlenwi

Mae'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi yn gweithredu o dan Reoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Clustnodir lwfans blynyddol i awdurdodau Lleol o'r uchafswm o wastraff prydadwy bwrdeistrefol y gellir ei anfon i'w dirlenwi. Am bob tunnell o wastraff prydadwy bwrdeistrefol a anfonir i'w dirlenwi sy'n uwch na'r lwfans, gall yr Awdurdod Lleol fod yn agored i ddirwy o £200 y dunnell. Nid yw'n gynllun "cap and trade" gan nad yw'r lwfansau tirlenwi yn fasnachadwy yng Nghymru. Am y rheswm yma, nid yw lwfansau tirlenwi yn cael eu cydnabod fel ased ar y Fantolen. Roedd Cyngor Gwynedd o fewn ei lwfans tirlenwi yn 2016/17.

1.33 Trefniant Consesiwn Gwasanaeth

Mae Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel Menter Cyllid Preifat (PFI) yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar i ddarparu'r gwasanaeth i'r Awdurdod dan gyfrifoldeb y contractwr PFI am gyfnod y cytundeb ond yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd y cyfnod heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r Awdurdod yn rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ac yn medru rheoli pwy arall sy'n medru

NODYN I – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

ddarpariaeth. Mae'r gost am ddefnydd o'r ddarpariaeth yn cael ei gyuno gyda'r Contractwr cyn gosod y cytundeb drwy broses o ddeialog cystadleuol.

1.34 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae'r partion gyda chydreolaeth efo'r hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Awdurdod fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymadau, refeniw a gwariant.

1.35 Ysgolion

Mae *Cod Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* yn cadarnhau bod cydbwysedd rheolaeth ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (h.y. yr ysgolion hynny sy'n cael eu hadnabod yn y Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998, fel a'i diwygiwyd), yn gorwedd efo'r awdurdod lleol. Mae'r Cod hefyd yn datgan bod asedau, rhwymedigaethau, reserfau a llif arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yn natganiadau ariannol yr awdurdod lleol (ac nid mewn Cyfrifon Grŵp). O ganlyniad, mae trafodion, llif arian a balansau yr ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod fel petaent yn drafodion, llif arian a balansau yr Awdurdod.

1.36 Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol

Mae incwm Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol yn cael eu trin fel incwm cronodig, ac yn cael eu cynnwys ar linell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae Cyngor Gwynedd yn awdurdod bilio Treth y Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol. Mae'n casglu Treth y Cyngor ar gyfer ei hun ac ar ran awdurdodau eraill, ac yn casglu Trethi Annomestig fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru.

1.37 Gwerth Teg

Rhoddir mesuriad gwerth teg ar rai o asedau an-ariannol yr Awdurdod megis asedau gweddilliol, eiddo buddsoddi a rhai o offerynnau ariannol ar bob cyfnod adrodd. Gwerth teg yw'r pris gwerthu a dderbynnir ar gyfer yr ased neu'r pris a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn modd trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad y mesuriad. Mae'r mesuriad gwerth teg yn tybio bod y trefniant o werthu'r ased neu drosglwyddo'r ymrwymiad yn cymeryd lle unai:

- a. yn y brif farchnad i'r ased neu'r ymrwymiad, neu
- b. yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad sydd fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased neu'r ymrwymiad.

Wrth fesur gwerth teg ased neu ymrwymiad, defnyddia'r Awdurdod ragdybiaethau y byddai cyfranogwyr y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu ymrwymiad, gan gymeryd bod cyfranogwyr y farchnad yn gweithredu er eu budd economaidd mwyaf.

Wrth fesur gwerth teg ased an-ariannol, mae'r Awdurdod yn ystyried gallu cyfranogwyr y farchnad i gynhyrchu buddiannau economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn y modd gorau bosib, neu drwy ei werthu i gyfranogwyr y farchnad arall fyddai'n defnyddio'r ased yn y modd gorau bosib.

Defnyddia'r Awdurdod dechnegau prisio sydd yn addas i'r amgylchiadau ac sydd â data digonol ar eu cyfer, gan uchafu'r defnydd o fewnbwn gweladwy perthnasol ac isafu'r defnydd o fewnbwn anweladwy.

Mae'r mewnbwn i'r technegau prisio sy'n berthnasol i'r asedau ac ymrwymadau hynny ble mesurir neu ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer yn natganiadau ariannol yr Awdurdod yn cael eu categorio yn hierarchaeth gwerth teg fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ymrwymadau unfath y gall yr Awdurdod eu cyrchu ar ddyddiad y mesuriad
- Lefel 2 – mewnbwn ar wahân i'r prisiau a ddyfynnir yn Lefel 1, sydd yn weladwy ar gyfer yr ased neu'r ymrwymiad, unai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Lefel 3 – mewnbwn anweladwy ar gyfer ased neu'r ymrwymiad.

NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

1.38 Polisiâu Eraill

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisiau ar gyfer y canlynol, ond nid ydynt yn cael eu hystyried i fod yn faterol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17:

- Asedau Anniriaethol
- Asedau Dibynnol
- Trosi Arian Tramor.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Nid oedd newidiadau i bolisiau cyfrifeg yn ystod 2016/17.

NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol yn ystod 2016/17.

NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwylidig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eto eu mabwysiadu gael ei ddatgan.

Mae'r safonau cyfrifeg cysylltiedig sydd yn y Côt Ymarfer 2017/18 yn effeithio ar ddatganiadau o fewn y cyfrifon Pensiwn.

Mae'n ofynnol fod y Côt yn weithredol o 1 Ebrill 2017 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2016/17, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Côt Ymarfer 2017/18 gael effaith sylweddol ar y wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, mae CIPFA wedi penderfynu y bydd newid yng nghyflwyniad yr Adroddiad Naratif fel bo'r cynnwys yn glynu at egwyddorion penodol.

NODYN 5 – BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Awdurdod wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymadau i'w cario nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys thybiaethau a thafluniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyngor sy'n cael ei ddiweddarau yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis ailbriso, dibrisiant ac amhariad asedau, prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2017 yn rhai a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Eiddo, Offer a Chyfarpar** - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifeg a chysylltiedig. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn creu ansicrwydd ymysg cynghorau am eu gallu i gynnal y gwariant angenrheidiol ar gynnal a chadw. Bydd goblygiadau o hyn ar fywyd ased. Mae Tir ac Adeiladau yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd, ac ers 2015/16 cyflwynwyd rhaglen dreigl ailbrisio. Mae angen dod i farn yn aml fel rhan o'r broses asesiad ailbrisio ac amhariad. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd, a'r angen am dybiaethau ac ymateb yn briodol iddynt. Lle bo angen, bydd unrhyw oblygiadau tymor hir yn cael eu hymgorffori yn ein strategaeth ariannol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15.
- **Darpariaethau** - Mae nifer o ddarpariaethau gwahanol, ble mae'r sail unigol wedi cael eu hasesu yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, yn gynnwysedig yn y cyfrifon. Gweler Nodyn 22 am y manylion, gan gynnwys darpariaeth am eitemau megis Safleoedd Gwastraff a rhai agweddau o ymrwymadau yswiriant. Nid oes modd cadarnhau cywirdeb y ddarpariaeth hyd nes bod y materion wedi diweddu.
- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asediadau a dyfarniadau cymhleth a phroffiliau amrywiol gan gynnwys y gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, rhagolygon lefelau cyflog, newidiadau mewn oedran ymddeol, cyfradd marwolaethau a'r gyfradd adenillion disgwylidig ar asedau'r gronfa pensiwn, yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actiwari'r Gronfa Pensiwn. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 37 a 38.
- **Amhariad Dyledion Drwg** – Mae lefel o amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y cyfrifon sydd yn seiliedig ar bolisi penodol. Mae lefel yr amhariad yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn gallu ymateb i unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd, ac unrhyw addasiad i ymateb i'r sefyllfa yn cael ei weithredu'n briodol yn y cyfrifon. Mae'r ffigwr amhariad dyledion drwg wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 18.

NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau materol o incwm a gwariant yn cynnwys y canlynol:-

- £51m yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r asedau buddion diffiniedig net yn y maes pensiwnau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Pensiwn Gwynedd (Nodyn 23).
- Yn dilyn ailbrisio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net o £7m ar ailbrisio asedau eiddo, offer a chyfarpar sefydlog (Nodyn 15 a 23).

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

2016/17	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i) £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii) £'000	Gwahaniaethau Eraill (iii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addysg	0	0	0	0
Cefnogaeth Gorfforaethol	0	0	0	0
Cyllid	0	0	0	0
Economi a Chymuned	0	0	0	0
Oedolion, Iechyd a Llesiant	0	0	0	0
Plant a Chefnogi Teuluoedd	0	0	0	0
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	1,681	0	0	1,681
Amgylchedd	0	0	0	0
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	0	0	0	0
Ymgynghoriaeth Gwynedd	0	0	0	0
Corfforaethol	21,842	(484)	507	21,865
Cost Gwasanaethau	23,523	(484)	507	23,546
Gwariant Gweithredol Arall	694	0	0	694
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(13,428)	6,243	(68)	(7,253)
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(9,288)	0	0	(9,288)
(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	1,501	5,759	439	7,699

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

2015/16	ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU			
	Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i) £'000	Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii) £'000	Gwahaniaethau Eraill (iii) £'000	Cyfanswm Addasiadau £'000
Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Addysg	0	0	0	0
Cefnogaeth Gorfforaethol	0	0	0	0
Cyllid	0	0	0	0
Economi a Chymuned	0	0	0	0
Oedolion, Iechyd a Llesiant	0	0	0	0
Plant a Chefnogi Teuluoedd	0	0	0	0
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*)	1,754	0	0	1,754
Amgylchedd	0	0	0	0
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	0	0	0	0
Ymgynghoriaeth Gwynedd	0	0	0	0
Corfforaethol	16,688	2,163	(395)	18,456
Cost Gwasanaethau	18,442	2,163	(395)	20,210
Gwariant Gweithredol Arall	8,944	0	0	8,944
Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	(17,622)	8,016	(83)	(9,689)
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(13,970)	0	0	(13,970)
(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	(4,206)	10,179	(478)	5,495

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

(i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu dibrisiant, amhariad ac elw a cholledion ailbrisiad.
- **Gwariant gweithredol arall** – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad o incwm ar waredu asedau a'r symiau â ddileuwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** – mae'r costau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf h.y. darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a chyfraniadau refeniw arall yn cael eu tynnu allan o incwm a gwariant arall gan na ellir codi amdanynt o dan ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig.
- **Treth ac incwm grant amhenodol** - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano dan ymarferion cyfrifo. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i rai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu lle mae amodau wedi eu bodloni trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn cael ei chredydu gyda grantiau cyfalaf derbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu lle mae'r amodau wedi eu bodloni yn y flwyddyn.

NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

(ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr SCC 19* sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan yr awdurdod fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi** – y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

(iii) Gwahaniaethau Eraill

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am Groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi**, mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am breimiymau a disgownt.

NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Awdurdod i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

2016-17 ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserfau Defnyddiadwy			
	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Reserf Derbyniadau Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio £'000
Addasiadau i Adnoddau Refeniw				
<i>Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol</i>				
Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau)	(5,759)	0	0	5,759
Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol)	75	0	0	(75)
Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig)	(543)	0	0	543
Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	(14,929)	0	0	14,929
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(21,156)	0	0	21,156
Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf				
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	29	(1,632)	0	1,603
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,593	0	0	(5,593)
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	1,863	0	0	(1,863)
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	5,972	0	0	(5,972)
Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf	13,457	(1,632)	0	(11,825)
Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf				
Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	770	0	(770)
Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	0	61	(61)
Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig	0	0	0	0
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	770	61	(831)
CYFANSWM ADDASIADAU	(7,699)	(862)	61	8,500

2015-16

Reserfau Defnyddiadwy

ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL
ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Addasiadau i Adnoddau Refeniw

Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynnwysedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol

	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Reserf Derbyniadau Cyfalaf £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio £'000
Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau)	(10,179)	0	0	10,179
Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol)	49	0	0	(49)
Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig)	428	0	0	(428)
Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	(13,402)	0	0	13,402
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw	(23,104)	0	0	23,104

Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf

Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu creydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(14)	(927)	0	941
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,641	0	0	(5,641)
Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	1,734	0	0	(1,734)
Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf)	10,248	0	0	(10,248)
Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf	17,609	(927)	0	(16,682)

Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf

Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	1,622	0	(1,622)
Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf	0	0	1,484	(1,484)
Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig	0	(2)	0	2
Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf	0	1,620	1,484	(3,104)

CYFANSWM ADDASIADAU

(5,495)	693	1,484	3,318
----------------	------------	--------------	--------------

NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD

Balansau Ysgolion

Cynrychiolai'r swm yma'r elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac sydd yn ostyngiad net o £458k o'i gymharu â'r balans ar 31 Mawrth 2016:

2016/17	Balans	Trosglwyddiadau			Balans
	31 Mawrth 2016 £'000	rhng cronfeydd £'000	mewn £'000	allan £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Balansau Ysgolion	3,337	0	735	(1,193)	2,879
Cyfanswm	3,337	0	735	(1,193)	2,879

NODYN 10 – TROGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

Reserfau a Glustnodwyd

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2016/17, gyda gostyngiad net o £2.5m ers sefyllfa 31 Mawrth 2016.

2016-17		Balans	Trosglwyddiadau			Balans
		31 Mawrth 2016	rhwng cronfeydd	mewn	allan	31 Mawrth 2017
Nodyn		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
10.1	Reserfau Adnewyddu	2,477	0	2,395	(2,079)	2,793
10.2	Reserf Cyfalaf	9,458	0	1,120	(757)	9,821
10.3	Reserf Yswiriant	2,035	0	800	(1,026)	1,809
10.4	Cronfa Gwasanaethau	4,750	(572)	762	(563)	4,377
10.5	Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant	211	0	0	(78)	133
10.6	Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion	3,870	0	300	(369)	3,801
10.7	Hyfforddiant Canolog	255	10	35	0	300
10.8	Reserfau Gwasanaeth Addysg	994	0	255	(324)	925
10.9	Reserfau Economi a Chymuned	67	134	246	(29)	418
10.10	Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol	1,275	0	22	(295)	1,002
10.11	Reserfau Datblygiadau Gwastraff	278	0	0	(84)	194
10.12	Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd	361	(176)	0	0	185
10.13	Reserfau Amgylchedd	810	35	11	(336)	520
10.14	Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol	420	0	0	(420)	0
10.15	Reserfau Gofal	167	(18)	1,355	(43)	1,461
10.16	Cronfa Ffordd Gwynedd	334	0	42	0	376
10.17	Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon	484	(28)	62	(209)	309
10.18	Cronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed	9,768	14	749	(1,988)	8,543
10.19	Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo	303	41	187	(45)	486
10.20	Reserf Tendro Contractau	367	(150)	0	0	217
10.21	Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai	606	0	0	(114)	492
10.22	Gwarant Amgylcheddol Tai	480	0	0	0	480
10.23	Reserfau Technoleg Gwybodaeth	365	0	173	(162)	376
10.24	Cronfa Rhagbaratoi Cynlluniau Grantiau Ewrop	150	0	0	(75)	75
10.25	Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol	2,780	998	760	(2,778)	1,760
10.26	Cronfa Maes Lles	742	(200)	0	(320)	222
10.27	Cronfa System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electroneg	76	0	0	(75)	1
10.28	Trefniadau Partneriaethu	338	0	230	(46)	522
10.29	Ymrwymadau yn Berthnasol i'r Gronfa Bensiwn	240	0	394	0	634
10.30	Cronfa Ad-daliad Treth y Cyngor	490	0	0	0	490
10.31	Cronfa Arolygu ac Asesu Pontydd	150	(35)	0	(115)	0
10.32	Amrywiol Reserfau Eraill	978	(53)	218	(275)	868
Cyfanswm		46,079	0	10,116	(12,605)	43,590

Nid yw balans terfynol y reserfau a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2017 yn adlewyrchu'r lefel o ymrwymadau a wnaethpwyd yn eu herbyn. Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

NODYN 10 – TROSLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

- 10.1 Mae'r Reserfau Adnewyddu yn cael eu defnyddio gan amrywiol adrannau o'r Cyngor i adnewyddu cerbydau ac offer.
- 10.2 Mae'r Reserf Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes i ariannu rhan o Raglen Gyfalaf y Cyngor.
- 10.3 Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserf Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant sy'n berthnasol i'r cyn Cyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996) ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.
- 10.4 Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i adrannau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.
- 10.5 Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.
- 10.6 Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.
- 10.7 Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi gweithwyr y Cyngor.
- 10.8 Reserfau Gwasanaethau Addysg – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol perthnasol efo gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.
- 10.9 Mae Reserfau Economi a Chymuned yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth, yn bennaf ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân.
- 10.10 Mae Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn bennaf yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant ac incwm anwastad (equalisation accounts) a gofynion tebygol contractau.
- 10.11 Reserfau Datblygiadau Gwastraff – yn cynnwys symiau ar gyfer datblygiadau ac ymrwymadau perthnasol i'r maes gwastraff gan gynnwys ein hymrwymiad i Bartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.
- 10.12 Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd – cynhwysir symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant anwastad efo rhai meysydd gwaith ynghyd â gofynion cyflogaeth ychwanegol posib yn dilyn newidiadau i raglen waith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.
- 10.13 Reserfau Amgylchedd - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth, gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol, a symiau ar gyfer sefyllfaoedd gwariant anwastad.
- 10.14 Cronfa Gweithiau Cynnal Mawr ar Ffyrdd Sirol – i gyfrannu tuag at gost gweithiau cynnal mawr ar ffyrdd sirol.
- 10.15 Reserfau Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib o ganlyniad i ofynion contractau.
- 10.16 Cronfa Ffordd Gwynedd - i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes, gwireddu arbedion a chynorthwyo cyflawni nod ac amcanion "Ffordd Gwynedd".

NODYN 10 – TROSLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

- 10.17 Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – rhannol ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd â chynhyrchu arbedion refeniw ariannol i'r Cyngor.
- 10.18 Cronfa Trawsffurfio / Buddsoddi i Arbed – ar gyfer newid trefniadau mewnol y Cyngor i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ac ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol.
- 10.19 Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo - cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.
- 10.20 Reserf Tendro Contractau – ar gyfer ymateb i sefyllfaoedd gwariant anwastad o ganlyniad i'r broses tendro am gontractau.
- 10.21 Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai - swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dŵr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn tai cyngor, na fabwysiadwyd gan Dŵr Cymru.
- 10.22 Gwarant Amgylcheddol Tai - neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Gartrefi Cymunedol Gwynedd, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud â chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn tai cyngor.
- 10.23 Reserfau Technoleg Gwybodaeth - ar gyfer ymateb i ofynion yn y maes technoleg gwybodaeth gan gynnwys cronfa adnewyddu berthnasol, ac i allu ymateb i batrymau gwariant anwastad.
- 10.24 Cronfa Rhagbaratoi Cynlluniau Grantiau Ewrop – darpariaeth tuag at gost rhagbaratoi achosion busnes i ddenu ffynonellau ariannu a grantiau Ewrop.
- 10.25 Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol - cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo a chefnogi'r strategaeth ariannol y Cyngor.
- 10.26 Cronfa Maes Lles - Darpariaeth ar gyfer ymdrin â phatrymau anwastad mewn gofynion perthnasol.
- 10.27 Cronfa System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electroneg (EDRMS) - Darpariaeth ar gyfer y rhaglen waith perthnasol i'r system rheoli dogfennau a chofnodion electroneg.
- 10.28 Trefniadau Partneriaethu - yn cynnwys symiau a neilltuwyd mewn perthynas â gofynion gwahanol drefniadau partneriaethu a chydweithio.
- 10.29 Ymrwymadau yn berthnasol i'r Gronfa Bensiwn - ar gyfer gofynion ac ymrwymadau perthnasol i'r dyfodol.
- 10.30 Cronfa Ad-daliad Treth y Cyngor - darpariaeth cysylltiedig â'r colledion yn deillio o drosglwyddiadau eiddo o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig Cenedlaethol.
- 10.31 Cronfa Arolygu ac Asesu Pontydd – ar gyfer datblygu trefn archwilio ac asesu cyflwr pontydd, cwlferei a rhai waliau cynnal.
- 10.32 Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymadau eraill.

NODYN 11 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

2015/16		2016/17
£'000		£'000
1,677	Praeseptau Cyngorau Cymuned	1,829
	Lefiau	
11,733	Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	11,990
5,603	Awdurdod Tân Gogledd Cymru	5,598
1,016	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	962
68	Byrddau Draenio Lleol	87
18,420		18,637
8,945	(Enillion)/colledion ar waredu a dad-gydnabod asedau anghyfredol	694
29,042	Cyfanswm	21,160

NODYN 12 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2015/16		2016/17
£'000		£'000
6,400	Llog taladwy a thaliadau tebyg	6,380
8,013	Llog net ar yr ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	6,243
(370)	Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(313)
14,043	Cyfanswm	12,310

NODYN 13 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

2015/16		Nodyn	2016/17
£'000			£'000
(71,880)	Incwm Y Dreth Cyngor	13a	(74,640)
(35,646)	Trethi Annomestig	13b	(37,158)
(133,950)	Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi	32	(129,800)
(13,970)	Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf	32	(9,288)
(255,446)	Cyfanswm		(250,886)

NODYN 13a - Y DRETH CYNGOR

Mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2016/17 fel a ganlyn:-

CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2016/17			
Band Priso	Nifer Eiddo Cyfatebol yn dilyn gostyngiadau	Lluosydd Statudol	Nifer Cyfatebol Eiddo Band D
A*	8	5/9	4.17
A	7,347	6/9	4,898.05
B	13,287	7/9	10,334.08
C	10,587	8/9	9,410.92
D	9,188	1	9,187.82
E	7,340	11/9	8,970.63
F	3,622	13/9	5,231.06
G	1,163	15/9	1,938.33
H	164	18/9	328.00
I	56	21/9	130.08
Cyfanswm			50,433.14
Sylfaen y Dreth Gyngor ar ôl lwfans colledion casglu			49,928.81

Rhoddir dadansoddiad o'r incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:-

2015/16		2016/17
£'000		£'000
(72,323)	Treth Cyngor a godwyd	(74,750)
443	Llai Cynnydd yn y ddarpariaeth dyledion drwg	110
(71,880)		(74,640)

NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol ("Treth Busnes") gan y Llywodraeth ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ei gasglu a'i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o'r gronfa yma i Awdurdodau Lleol ar sail poblogaeth.

NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (parhad)

Mae'r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth Annomestig Genedlaethol am y flwyddyn (48.6c yn 2016/17) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2016/17 roedd yna 7,593 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £101,816,158.

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r incwm net cronedig i'r Cyngor o'r Trethi Annomestig:-

2015/16		2016/17
£'000		£'000
(37,136)	Trethi Annomestig a godwyd	(37,789)
375	Lwfans Costau Casglu	381
289	Darpariaeth Dyledion Drwg	331
36,472	Swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol	37,077
0		0
(35,646)	Derbyniadau o'r Gronfa Genedlaethol	(37,158)
(35,646)	Incwm net o'r Trethi Annomestig	(37,158)

NODYN 14 – CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU

Mae'r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i'r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwylio, ac yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwylir i'r cyfrif adennill y costau dros raglen dreigl tair blynedd, ac mae'r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Bu elw yn 2016/17 a gweler fod elw cronedig dros gyfnod o dair blynedd.

2016/17	£'000
Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ac eithrio TAW)	(450)
Cyfanswm gwariant	430
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2016/17	(20)
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2015/16	(2)
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2014/15	(2)
(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y tair blynedd diwethaf	(24)

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Symudiadau ar Falansau Eiddo, Offer a Chyfarpar

Symudiadau yn 2016/17:

	Tir ac Adeiladau £'000	is adeiladwaith £'000	Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000	Asedau Cymunedol £'000	Asedau Gweddilliol £'000	Asedau heb eu cwbllhau £'000	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar £'000
Gwerth							
Balans ar 01.04.16	272,021	193,750	38,395	1,073	2,581	10,351	518,171
Ychwanegiadau	5,487	4,422	3,006	17	3	11,414	24,349
Gwerthiannau	(1,798)	0	(800)	0	(407)	0	(3,005)
Trosglwyddiadau	16,336	0	0	0	(69)	(16,258)	9
Ailbriso - i'r Reserf Ailbriso	1,855	0	0	0	0	0	1,855
Ailbriso - i'r Gwasanaethau	(2,461)	0	0	0	0	0	(2,461)
Balans ar 31.03.17	291,440	198,172	40,601	1,090	2,108	5,507	538,918
Dibrisiant							
Balans ar 01.04.16	4,055	33,992	20,736	9	1	0	58,793
Dibrisiant yn y flwyddyn	4,685	5,223	3,555	1	2	0	13,466
Gwerthiannau	(102)	0	(780)	0	0	0	(882)
Trosglwyddiadau	0	0	0	0	(1)	0	(1)
Ailbriso	(3,848)	0	0	0	0	0	(3,848)
Balans ar 31.03.17	4,790	39,215	23,511	10	2	0	67,528
Amhariad							
Balans ar 01.04.16	32,132	63	68	230	63	0	32,556
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbriso	2,374	0	0	0	0	0	2,374
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau	4,859	0	0	0	5	0	4,864
Gwerthiannau	(175)	0	0	0	0	0	(175)
Trosglwyddiadau	0	0	0	0	(1)	0	(1)
Ailbriso	(3,954)	0	0	0	0	0	(3,954)
Balans ar 31.03.17	35,236	63	68	230	67	0	35,664
Gwerth Net 31 Mawrth 2017	251,414	158,894	17,022	850	2,039	5,507	435,726
Gwerth Net 31 Mawrth 2016	235,834	159,695	17,591	834	2,517	10,351	426,822

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Symudiadau Cymharol yn 2015/16:

	Tir ac Adeiladau £'000	is adeiladwaith £'000	Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000	Asedau Cymunedol £'000	Asedau Gweddilliol £'000	Asedau heb eu cwbilhau £'000	Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar £'000
Gwerth							
Balans ar 01.04.15	265,717	182,294	34,926	1,036	2,731	17,161	503,865
Ychwanegiadau	9,844	2,830	4,658	37	17	13,408	30,794
Gwerthiannau	(9,636)	0	(1,189)	0	(48)	0	(10,873)
Trosglwyddiadau	11,244	8,626	0	0	0	(20,218)	(348)
Ailbriso - i'r Reserf Ailbriso	(5,344)	0	0	0	(89)	0	(5,433)
Ailbriso - i'r Gwasanaethau	196	0	0	0	(30)	0	166
Balans ar 31.03.16	272,021	193,750	38,395	1,073	2,581	10,351	518,171
Dibrisiant							
Balans ar 01.04.15	5,409	29,456	18,565	8	21	0	53,459
Dibrisiant yn y flwyddyn	4,340	4,536	3,331	1	0	0	12,208
Gwerthiannau	(51)	0	(1,160)	0	0	0	(1,211)
Trosglwyddiadau	(13)	0	0	0	0	0	(13)
Ailbriso	(5,630)	0	0	0	(20)	0	(5,650)
Balans ar 31.03.16	4,055	33,992	20,736	9	1	0	58,793
Amhariad							
Balans ar 01.04.15	34,862	63	68	230	66	20	35,309
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbriso	3,274	0	0	0	9	0	3,283
Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau	3,442	0	0	0	8	0	3,450
Gwerthiannau	(257)	0	0	0	(18)	0	(275)
Trosglwyddiadau	19	0	0	0	0	(20)	(1)
Ailbriso	(9,208)	0	0	0	(2)	0	(9,210)
Balans ar 31.03.16	32,132	63	68	230	63	0	32,556
Gwerth Net 31 Mawrth 2016	235,834	159,695	17,591	834	2,517	10,351	426,822
Gwerth Net 31 Mawrth 2015	225,446	152,775	16,293	798	2,644	17,141	415,097

NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Reolwr Eiddo Corfforaethol (M.R.I.C.S) Cyngor Gwynedd yn unol â'r polisiau a nodwyd yn rhan 1.17 o Nodyn 1 o'r Polisiau Cyfrifo. Nodir fod yr Awdurdod wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrizio gwahanol gategoriâu o'r asedau yma yn flynyddol. Gweler y nodyn hwn hefyd ar gyfer sail dibrisio'r gwahanol gategoriâu o asedau.

Defnyddir 14 Ysgol Eglwysig gan y gwasanaeth addysg sydd heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol. Er gwybodaeth, mae Ysgol Cae Top ym Mangor yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel ased y Cyngor yn ein cyfrifon, ac nid fel ysgol eglwysig. Mae statws cyfreithiol yr ased yn destun adolygiad cyfreithiol a all effeithio'r driniaeth yn y cyfrifon yn y dyfodol.

Dangosir y ffyrdd o gyllido'r asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn yr adroddiad naratif.

Ymrwymadau Cyfalaf

Roedd yr ymrwymadau o sylwedd ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2017 fel a ganlyn:

	Swm	Taliadau	Balans
	£'000	hyd yma	£'000
		£'000	
Ysgol Y Berwyn - estyniad ac ailwampio	8,897	2,857	6,040
Ysgol newydd Glan Cegin	4,439	2,333	2,106
Ysgol Gynradd Dolgellau - estyniad ac ailwampio	2,194	936	1,258

NODYN 16 – EIDDO BUDDSODDI

Mae'r eitemau canlynol o incwm a chostau wedi eu cymryd i ystyriaeth yn y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	2015/16	2016/17
	£'000	£'000
Incwm rhent o eiddo buddsoddi	26	3
Enillion/(colledion) net	26	3

Nid oes cyfyngiadau ar allu'r Awdurdod i adnabod gwerth ei eiddo buddsoddi, nac ychwaith ar hawl yr Awdurdod i'r incwm a'r elw sy'n deillio o'r gwerthiant. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw ymrwymiad cytundebol i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi na'i atgyweirio, cynnal na'i wella.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

	2015/16	2016/17
	£'000	£'000
Balans 1 Ebrill	247	247
Elw/(colled) net o addasiadau gwerth teg	0	0
<u>Trosglwyddiadau:</u>		
i/(o) Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	(50)
Balans 31 Mawrth	247	197

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL

(a) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn gyfystyr ag offerynnau ariannol.

Ymrwymadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn ddyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a all gynrychioli dyletswydd gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn affafriol i'r Cyngor.

Mae ymrwymadau ariannol y Cyngor nad ydynt yn ddeilliadol yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- Trefniant Consesiwn Gwasanaeth (cytundebau Menter Cyllid Preifat (PFI)) a fanylir yn Nodyn 41
- gorddrafft gyda Banc Barclays ccc
- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod neu offerynnau eraill neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu rhannu i'r tri dosbarth a ganlyn:

Benthyciadau a derbyniadau (asedau ariannol â thaliadau sefydlog neu benodedig, sydd heb eu rhestru mewn marchnad weithredol) yn cynnwys:

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

- arian parod
- cyfrifon banc
- adneuon cyfnod penodol gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu (sydd wedi'u rhestru ar farchnad weithredol), sy'n cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd ariannol a chynlluniau buddsoddi cyfunol eraill
- tystysgrifau adneuon a ddyroddi'r gan fanciau a chymdeithasau adeiladu
- bondiau a ddyroddir gan fanciau amlochrog a chwmnïau yn y DU

Asedau a ddelir ar werth teg drwy elw a cholled, yn cynnwys:

- buddsoddiad ecwiti mewn cwmni gwastraff lleol

(b) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymïadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Ymrwymïadau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2016	2017	2016	2017
	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:				
Prifswm a fenthycwyd	110,676	108,143	2,060	2,702
Llog cronedig	0	0	697	633
Cyfanswm Benthyciadau	110,676	108,143	2,757	3,335
Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:				
Gorddrafft banc	0	0	39,430	30,035
Cyfanswm Arian a Ordynnwyd	0	0	39,430	30,035
Ymrwymïadau ar gost wedi'i amorteiddio:				
Dyledion Masnachol	0	0	0	0
Prydlesau Cyllidol	2,127	1,993	0	0
Cyfanswm Ymrwymïadau Tymor Hir	2,127	1,993	0	0
Ymrwymïadau ar gost wedi'i amorteiddio:				
Dyledion Masnachol	0	0	53,722	54,912
Prydlesau Cyllidol	0	0	126	134
Cynhwyswyd o fewn Credydwyr*	0	0	53,848	55,046
Cyfanswm yr Ymrwymïadau Ariannol	112,803	110,136	96,035	88,416

* Mae llinell credydwyr tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £1,927,000 (£838,000 ar 31 Mawrth 2016) o gredydwyr (Nodyn 21) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymïad ariannol.

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

Asedau Ariannol	Tymor Hir		Tymor Byr	
	31 March	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2016	2017	2016	2017
	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyciadau a Derbyniadau:				
Prifswm ar gost wedi'i amorteiddio	17	17	50,000	26,000
Llog cronedig	0	0	55	44
Buddsoddiadau ar gael i'w gwerthu:				
Prifswm ar gost wedi'i amorteiddio	2,324	2,154	0	0
Cyfanswm Buddsoddiadau	2,341	2,171	50,055	26,044
Benthyciadau a Derbyniadau:				
Arian	0	0	59	59
Cyferwerthoedd arian ar gost wedi'i amorteiddio	0	0	14,132	1,325
Cyfanswm Arian a Chyferwerthoedd Arian	0	0	14,191	1,384
Benthyciadau a Derbyniadau:				
Derbyniadau Masnachol	4,301	4,094	17,960	32,341
Cynhwyswyd o fewn Dyledwyr*	4,301	4,094	17,960	32,341
Cyfanswm Asedau Ariannol	6,642	6,265	82,206	59,769

* Mae llinell tymor byr dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £22,547,000 (£14,565,000 ar 31 Mawrth 2016) o ddyledwyr (Nodyn 18) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol.

Benthyciadau Meddal Materol

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfraddau is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel "Benthyciadau Meddal".

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthycwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol holl dderbyniadau arian y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd llog y farchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Mae Côt Ymarfer 2016/17 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2016/17 fe adnabu Cyngor Gwynedd y "benthyciadau meddal" canlynol:

- Taliadau Gohiriedig am daliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.17 £2,027,329)
- Benthyciadau Ceir a Beiciau i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.17 £951,760)

Daethpwyd i benderfyniad nad yw'r ychydig o "fenthyciadau meddal" sydd gan y Cyngor yn ymofyn datgeliad ar wahân gan eu bod yn de-minimis.

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gwrthbwysio Asedau ac Ymrwymiadau Ariannol

Mae asedau ac ymrwymiadau ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ble mae gan y Cyngor hawl gorfodol cyfreithiol i wrthbwysio ac yn bwriadu setlo ar sail net, neu i wireddu'r asedau a setlo'r ymrwymiad yn gydamserol. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ar Y Fantolen. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol eraill oedd yn destun i drefniant gorfodol neu drefniant tebyg.

	2015/16			2016/17		
	Asedau gros (ymrwymia- dau)	(Ymrwymia- dau) asedau wedi eu gwrthbwysio	Sefyllfa net ar Y Fantolen	Asedau gros (ymrwymia- dau)	(Ymrwymia- dau) asedau wedi eu gwrthbwysio	Sefyllfa net ar Y Fantolen
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyfrifon banc mewn credyd	0	0	0	13,065	(13,065)	0
Cyfanswm Asedau Ariannol	0	0	0	13,065	(13,065)	0
Gorddrafft banc	(39,430)	0	(39,430)	(43,100)	13,065	(30,035)
Cyfanswm Ymrwymiadau Ariannol	(39,430)	0	(39,430)	(43,100)	13,065	(30,035)

(c) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

	Ymrwymiadau Ariannol	Asedau Ariannol	
	Costau'r ymrwymiadau wedi'u hamorteiddio	Benthyciadau a Derbyniadau	Cyfanswm 2016/17
	£'000	£'000	£'000
Costau Llog	6,380	0	6,380
Llog taladwy a ffioedd tebyg	6,380	0	6,380
Incwm y llog	0	(311)	(311)
Incwm y llog a'r buddsoddiad	0	(311)	(311)
(Enillion)/colledion net y flwyddyn	6,380	(311)	6,069

(d) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Mae asedau ariannol a ddynodir fel benthyciadau a derbyniadau a'r holl ymrwymiadau ariannol nad ydynt yn ddeilliadol yn cael eu prisiau yn y Fantolen ar sail cost wedi'i hamorteiddio. Amcangyfrifwyd eu gwerthoedd teg drwy gyfrifo gwerth net presennol y llif arian oedd yn weddill o dan y cytundeb ar 31 Mawrth 2017, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

- Mae benthyciadau'r PWLB wedi'u disgowntio ar y cyfraddau llog a gyhoeddwyd ar gyfer benthyciadau newydd gyda'r un cyfnod ad-dalu a drefnwyd ar 31 Mawrth.
- Mae benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi'u disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb sydd â chyfnod ad-dalu cyffelyb ar 31 Mawrth.
- Ni chydabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau.
- Rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion a derbyniadau masnachol, yn cyfateb yn agos i'r swm cario.
- Yn achos ymrwymadau a ohiriwyd (megis prydlesau ariannol) mae'r Awdurdod yn tybio bod y swm cario yn amcangyfrif rhesymol o'r gwerth teg.

	Gwerth i'w gario	Gwerth teg	Gwerth i'w gario	Gwerth teg
	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth	31 Mawrth
	2016	2016	2017	2017
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ymrwymadau Ariannol:				
Benthyciadau	(113,434)	(170,173)	(111,478)	(181,814)
Prydlesau cyllidol	(2,127)	(2,127)	(2,127)	(2,127)
Dyledion Masnachol	(53,722)	(53,722)	(54,912)	(54,912)
Cyfanswm Ymrwymadau Ariannol	(169,283)	(226,022)	(168,517)	(238,853)
Asedau Ariannol:				
Buddsoddiadau tymor hir	2,341	2,341	2,171	2,171
Buddsoddiadau tymor byr	50,000	50,055	26,000	26,044
Derbyniadau Masnachol	17,960	17,960	32,341	32,341
Cyfanswm Asedau Ariannol	70,301	70,356	60,512	60,556

Mae gwerth teg yr ymrwymadau tymor hir yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r Awdurdod yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen.

Roedd mwyafrif o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar ddyddiad y Fantolen yn adneuo cyfnod penodol gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, ac adneuo cyfrifon ar alw/ar rybudd. Roedd dyddiad aeddfedu'r buddsoddiadau hyn oll o fewn cyfnod o 12 mis i ddyddiad y Fantolen. Mae gan y Cyngor ddau fuddsoddiad wedi ei warantu efo dyddiad hirach sy'n aeddfedu yn 2018.

(e) Offerynnau Ariannol - Risgiau

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Côt Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys (ac addasiadau dilynol) CIPFA ac yn cydymffurfio â'r *Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* (diwygwyd y ddau yn Nhachwedd 2011).

Fel rhan o fabwysiadu'r Côt Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys, sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y gyfradd adennill uchaf posib sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd*: Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ei ymrwymadau cytundebol, gan beri colled i'r Cyngor.

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd o golled ariannol oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

Risg Credyd: Buddsoddiadau

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Yn ystod 2016/17 mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd hirdymor o A-, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd y mae'r Cyngor wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol arnynt. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffygdlu, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffygdlu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Yn ystod 2016/17 gosodwyd uchafswm o 5% o swm yr holl bortffolio y gellid ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol (wedi ei ostwng i £1m ar gyfer rhai cymdeithasau adeiladau a 2.5% ar gyfer Grŵp RBS). Mae'r Cyngor hefyd wedi gosod uchafswm cyfanswm buddsoddiad grŵp o 5% ar gyfer sefydliadau sy'n rhan o'r un grŵp bancio (wedi ei ostwng i 2.5% ar gyfer Grŵp RBS). Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £40m am gyfnod hwy na blwyddyn.

Ni ellir cynnig asesiad cyffredinol o ba mor agored yw'r Cyngor i risg credyd mewn perthynas â'i fuddsoddiadau o £26m gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, gan fod y risg o unrhyw sefydliad yn methu talu'r llog neu ad-dalu'r prif swm yn benodol i bob sefydliad unigol. Dengys profiad diweddar mai prin iawn yw'r achosion pan fo endidau o'r fath yn methu cyflawni'u hymrwymadau. Mae'r risg o fethu adfer arian yn perthyn i holl adneuo'n y Cyngor, ond ar 31 Mawrth 2017 nid oedd unrhyw dystiolaeth y byddai'r risg yn debygol o gael ei wireddu.

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o £3,938,407, sef 98% gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2017. Mae'r weinyddiaeth yn parhau, ond disgwylir i'r holl swm gael ei adennill maes o law.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

Mae ansawdd credyd uwch i £2.103m o fuddsoddiadau'r Cyngor gan mai bondiau wedi eu gwarantu ydynt sydd gyda phwl o asedau yn diogelu'r bond petai'r dyroddwr yn methu. Mae'r warant gyfatebol yma yn lleihau'r debygoliaeth i'r Cyngor dioddef colled credyd ar y buddsoddiadau hyn.

Ceir crynodeb yn y tablau isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

Cyfradd Credyd	Tymor Byr	
	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
AAA	0	0
AA+	0	0
AA	0	0
AA-	11,000	10,000
A+	4,000	0
A	18,000	8,000
A-	1,000	1,000
Unrated	16,000	7,000
Cyfanswm Buddsoddiadau	50,000	26,000

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Cyfradd Credyd	Tymor Hir	
	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
AAA	2,272	2,103
AA+	0	0
AA	0	0
AA-	0	0
A+	0	0
A	0	0
A-	0	0
Unrated	0	0
Cyfanswm Buddsoddiadau	2,272	2,103

Derbyniadau Masnachol

Mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hir gan gynnwys benthyciadau ceir i weithwyr a morgeisi i aelodau'r cyhoedd. Ystyrir y benthyciadau ceir fel risg isel oherwydd y gallu i ddiwyddu'r ad-daliadau o gyflogau'r gweithwyr, trefniadau trosglwyddo cytbwys gydag awdurdodau lleol eraill parthed unrhyw weithwyr sy'n trosglwyddo gyda benthyciad ceir yn ddyledus, trefniadau penodol ar gyfer methdalwyr a threfniadau adennill dyled arferol ar gyfer unrhyw weithwyr sydd yn gadael cyflogaeth llywodraeth leol. Mae'r morgeisi yn risg isel oherwydd bod y Cyngor yn dal arwystl cyntaf dros yr eiddo a forgeisiwyd.

Mae'r Cyngor wedi lansio Cronfa Benthyciadau Busnes i fusnesau bychan a chanolig o ran maint yng Ngwynedd. Mae'r cyfraddau llog a gyfyd ar fenthyciadau o'r fath yn gyfesur â'r risg credyd uwch sy'n ymglymedig â'r math yma o fenthyciadau.

Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd y prif fenthyciadau fel â ganlyn:

Amser tan aeddfedrwydd (blynyddoedd)	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Llai na blwyddyn	2,018	2,702
Dros 1 ond dim dros 2	2,550	333
Dros 2 ond dim dros 5	3,600	5,322
Dros 5 ond dim dros 10	13,829	17,613
Dros 10 ond dim dros 20	30,313	27,626
Dros 20 ond dim dros 30	15,464	13,697
Dros 30 ond dim dros 40	1,768	17,986
Dros 40	25,585	9,367
Dyddiad ansicr*	16,200	16,200
Cyfanswm	111,327	110,846

* Mae gan y Cyngor £16.2m o fenthyciadau "Lender's option, borrower's option" (LOBO) lle bo'r opsiwn gan y benthyciwr i gynnig codiad yn y gyfradd a delir; bydd gan y Cyngor hawl wedyn i dderbyn y gyfradd newydd neu ad-dalu'r benthyciad heb gosb. Oherwydd y cyfraddau llog isel cyfredol, er nad yw'n debygol y bydd y benthyciwr yn ymarfer ei opsiwn, os yw hyn yn digwydd, mae'n debygol y byddai'r Cyngor yn adalu'r benthyciadau hyn. Mae'r dyddiad aeddfedrwydd felly yn ansicr.

NODYN 17 – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar yr Awdurdod. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- Benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog yn cynyddu.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymadau benthycia yn disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu yn cynyddu.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau a nodir fel “benthyciadau a derbyniadau” a benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i'w gwerth teg yn effeithio ar yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog a ddynodir fel “ar gael i'w gwerthu” eu hadlewyrchu yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau'r risgiau hyn drwy osod uchafswm ar y symiau net sy'n agored i gyfraddau llog sefydlog a chyfnewidiol. Ar 31 Mawrth 2017 roedd 100% o'r prif symiau net a fenthycwyd (h.y. dyled net o fuddsoddiad) yn agored i gyfraddau sefydlog a 0% i gyfraddau cyfnewidiol.

Petai'r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch neu is (gyda'r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

	1% yn uwch £'000	1% yn llai £'000
Newid yn y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfradd newidiol	0	0
Newid yn y llog sy'n daladwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol	76	16
Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	76	16
Newid yng ngwerth teg yr asedau buddsoddiad cyfradd sefydlog	0	0
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	0	0
Newid yng ngwerth teg benthyciadau / ymrwymadau cyfradd sefydlog*	(26,046)	26,046

*Dim effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Risg y Farchnad : Risg Pris

Mae prisiau marchnad buddsoddiadau'r Cyngor mewn bondiau cyfradd sefydlog a'i unedau mewn cynlluniau buddsoddi cyfunol yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol, a rheolir y risg marchnad sy'n gysylltiedig â'r offerynnau hyn ar y cyd â'r risg cyfraddau llog.

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti ac felly nid yw'n agored i risg pris. Mae'r Cyngor yn berchen ar gyfranddaliadau yng Nghwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (LAWDC). Mae'r gweithgareddau perthnasol wedi eu mewnoli, a'r cwmni yn cael ei ddirwyn i ben ac felly wedi cael ei ddynodi fel “ased sydd ar gael i'w werthu” a'r gwerth teg wedi ei ddatgan ar y Fantolen. Derbyniwyd setliad rhannol am werth teg y cyfranddaliadau yn ystod 2008/09 a 2009/10 ac mae'r balans yn parhau'n ddyledus. Ni ellir cwblhau'r broses yma yn derfynol nes bod materion treth benodol a pherthnasol wedi eu datrys gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymadau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw'n agored i gollodion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

NODYN 18 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	Dyledwyr NET o amhariad	
	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Llywodraeth Cymru	6,491	28,921
Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill	4,258	7,187
Awdurdodau Lleol Eraill	2,065	2,608
Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol	486	2,594
Corfforaethau a Chronfeydd Masnachu Cyhoeddus	262	18
Treth Cyngor	1,902	1,846
Endidau Eraill ac Unigolion	17,075	11,715
Cyfanswm	32,539	54,889

NODYN 19 – ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Arian mewn llaw	13	13
Cyfrif Banc Cyfredol	46	46
Cyfrif Galw	14,132	1,325
Arian a Chyfwertioedd Arian	14,191	1,384
Gorddrafft Banc	(39,430)	(30,035)
Cyfanswm	(25,239)	(28,651)

Er mwyn uchafu'r adenillion o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuron Banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn ei gyfrifon banc yn y tymor byr ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc Cronfa Bensiwn Gwynedd. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion ar fuddsoddiadau gyda'r Gronfa Bensiwn yn yr un modd. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw'r arian sydd dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor ac felly mae rhan o'r Buddsoddiadau Tymor Byr (Nodyn 17) a'r Cyfrif Galw a Chronfeydd Marchnad Arian a ddangosir uchod yn cynrychioli arian sydd wedi ei fuddsoddi ar ran y Gronfa Bensiwn ar ddyddiad Y Fantolen. Oherwydd y ffaith fod y Buddsoddiadau Tymor Byr yn enw Cyngor Gwynedd, maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen. £15.7m (£25m ar 31 Mawrth 2016) oedd elfen Buddsoddiadau Tymor Byr ac Adneuron Banc y Gronfa Bensiwn.

NODYN 20 – ASEDAU AR GAEL I'W GWERTHU

	2015/16	2016/17
	£'000	£'000
Balans 1 Ebrill	1,040	459
<u>Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu:</u>		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	334	74
Gwariant yn y flwyddyn	2	2
Colledion Ailbrisio	(416)	0
Colledion Amharu	(2)	(2)
<u>Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu:</u>		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	0	(35)
Asedau wedi eu gwerthu	(499)	(350)
Balans 31 Mawrth	459	148

NODYN 21 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Llywodraeth Cymru	2,285	2,774
Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill	4,708	3,622
Awdurdodau Lleol Eraill	14,376	7,333
Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol	499	358
Corfforaethau a Chronfeydd Masnachu Cyhoeddus	290	250
Treth Cyngor	1,203	1,310
Endidau Eraill ac Unigolion	31,326	41,325
Cyfanswm	54,687	56,972

NODYN 22 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

	Balans ar 31 Mawrth 2016 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2017 £'000
<u>Darpariaethau Tymor Byr</u>				
Darpariaeth Safleoedd Gwastraff	(294)	(254)	291	(257)
Eraill	(1)	1	0	0
Adolygiad Tâl	(170)	170	0	0
Darpariaeth Achosion Trydydd Parti	0	(100)	0	(100)
	(465)	(183)	291	(357)
<u>Darpariaethau Tymor Hir</u>				
Darpariaeth Safleoedd Gwastraff	(7,817)	225	0	(7,592)
Darpariaeth Achosion Trydydd Parti	(93)	0	0	(93)
Darpariaeth Yswiriant MMI	(198)	0	107	(91)
Eraill	(113)	113	0	0
	(8,221)	338	107	(7,776)
Cyfanswm	(8,686)	155	398	(8,133)

Darpariaeth Safleoedd Gwastraff – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofal holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

Darpariaeth Adolygiad Tâl – darpariaeth mewn perthynas ag achosion a hawliadau cyflog cyfartal yn erbyn y Cyngor.

Darpariaeth Achosion Trydydd Parti – mewn perthynas ag achosion a hawliadau trydydd parti yn erbyn y Cyngor yn y meysydd Oedolion ac Ymgynghoriaeth.

Darpariaeth M.M.I. (Yswiriant Municipal Mutual) – darpariaeth gan fod yr Awdurdod yn agored i ymrwymadau yswiriant a etifeddwyd ac yn ymwneud â threfniadau yswiriant ei Awdurdodau blaenorol ac Yswiriant Municipal Mutual.

Darpariaethau Eraill – Mân faterion yw'r darpariaethau unigol eraill.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2016 £'000		31 Mawrth 2017 £'000
67,131	Reserf Ailbrisiao	71,974
142	Reserf Offerynnau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu	(17)
186,954	Cyfrif Addasu Cyfalaf	187,120
(835)	Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(760)
(178,332)	Reserf Pensiynau	(235,413)
(3,392)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(3,935)
71,668	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	18,969

23.1 Reserf Ailbrisiao

Mae'r Reserf Ailbrisiao yn cynnwys enillion a wnaed gan yr Awdurdod yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- Ailbrisiao i lawr neu eu hamharu a bod yr enillion yn cael eu colli.
- Defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant, neu
- Gwaredu a'r enillion yn cael eu cyflawni.

Dim ond enillion ailbrisiao sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

2015/16 £'000		2016/17 £'000
62,580	Balans 1 Ebrill	67,131
17,470	Ailbrisiao asedau i fyny	9,916
(11,375)	Ailbrisiao asedau i lawr a cholledion amharu	(2,634)
6,095	Gwarged/(diffyg) wrth ailbrisiao asedau	7,282
(971)	Gwahaniaeth rhwng dibrisiant werth teg a dibrisiant hanesyddol	(1,219)
(573)	Elw cronedig ar asedau a werthwyd	(1,220)
(1,544)	Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(2,439)
67,131	Balans 31 Mawrth	71,974

23.2 Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w Gwerthu

Mae'r Reserf Offerynnau Ariannol ar gael i'w Gwerthu yn cynnwys yr enillion wnaed gan yr Awdurdod o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau sydd unai â phris marchnad a ddyfynnwyd, neu sydd heb daliadau penodol neu sefydlog. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronedig yn cael eu:

- Ailbrisiao i lawr neu eu hamharu a'r elw'n cael ei gollu.
- Gwerthu a'r elw'n cael ei gyflawni.

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

2015/16 £000		2016/17 £'000
85	Balans 1 Ebrill	142
57	Ailbriso buddsoddiadau i fyny	0
0	Ailbriso buddsoddiadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gwarged/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau i lawr	(159)
0	Enillion cronedig ar asedau wedi eu gwerthu ac asedau aeddfed sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel Incwm Buddsoddi Arall	0
142	Balans 31 Mawrth	(17)

23.3 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbriso i drawsnewid y ffigurau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan yr Awdurdod fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhoddi sydd heb eu treulio eto gan yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbriso wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y creuwyd y Reserf Ailbriso i gofnodi enillion o'r fath.

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ail-brisio.

2015/16 £'000		2016/17 £'000
179,024	Balans 1 Ebrill	186,954
	<u>Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:</u>	
(15,910)	Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol	(20,793)
(4,844)	Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud	(4,987)
(9,313)	Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu	(1,077)
971	Trosglwyddo o'r Reserf Ailbriso Cyfalaf	1,219
	<u>Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn:</u>	
1,622	Derbyniadau Cyfalaf	770
17,781	Grantiau a chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf	11,606
5,641	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	5,593
10,248	Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol	5,972
1,734	Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	1,863
186,954	Balans 31 Mawrth	187,120

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

23.4 Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli'r swm y dylai fod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Côt Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu'n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae'n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiwedd benthyciadau ymlaen gael eu codi'n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo'r trafodion yn cwrdd â'r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw breimiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario'r benthyciad, ac yn cael ei amorteiddio i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau'r ddyled newydd yn "sylweddol wahanol" i rai'r hen ddyled.

Gall premiymau sydd wedi'u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, p'run bynnag yw'r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, p'run bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae'r trafodion a adlewyrchir yn yr Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol fel a ganlyn:

2015/16 £'000		2016/17 £'000
(885)	Balans 1 Ebrill	(835)
46	Cyfran o breimiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gynwysedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol	46
4	Credyd gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal	29
(835)	Balans 31 Mawrth	(760)

23.5 Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig

Mae'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn dal yr enillion cydnabyddedig sy'n deillio o werthu asedau anghyfredol, nad oes taliad ariannol wedi ei wneud amdanynt eto. Yn unol â threfniadau statudol, nid yw'r Awdurdod yn trin yr enillion hyn fel rhai y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf newydd hyd nes y derbynnir yr arian amdanynt. Unwaith mae'r setliad ariannol yn digwydd, mae'r symiau yn cael eu trosglwyddo i'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf.

2015/16 £'000		2016/17 £'000
2	Balans 1 Ebrill	0
(2)	Ad-dalu Prifswm Morgeisi Hawl i Brynu	0
0	Balans 31 Mawrth	0

NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

23.6 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Awdurdod yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd cael eu hariannu fel y mae'r Awdurdod yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn-weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Awdurdod wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2015/16 £'000		2016/17 £'000
(248,721)	Balans 1 Ebrill	(178,332)
80,568	Ailfesuriad o'r (ymrwymadau) / asedau buddion diffiniedig net	(51,322)
(30,226)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(26,259)
20,047	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	20,500
(178,332)	Balans 31 Mawrth	(235,413)

23.7 Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2015/16 £'000		2016/17 £'000
(3,819)	Balans 1 Ebrill	(3,392)
427	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(543)
(3,392)	Balans 31 Mawrth	(3,935)

NODYN 24a – DATGANIAD LLIF ARIAN : ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2015/16		2016/17
£'000		£'000
(12,208)	Dibrisiant	(13,466)
(3,702)	Amhariad ac ailbriso i lawr	(7,327)
14,228	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr	(1,636)
(9,997)	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr	22,340
(146)	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc	(35)
(10,179)	Ymrwymiad Pensiwn	(5,759)
(9,887)	Gwerth i'w gwario ar asedau anghyfredol a werthwyd neu sydd wedi eu dad-gydnabod	(2,297)
(679)	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau	(4,919)
(32,570)		(13,099)

NODYN 24b – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASU AM EITEMAU CYNWYSEDIG YN Y GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU SYDD YN WEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU

2015/16		2016/17
£'000		£'000
942	Elw o werthiant eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	1,603
942		1,603

NODYN 24c – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

2015/16		2016/17
£'000		£'000
(552)	Llog a dderbyniwyd	(323)
5,698	Llog a dalwyd	5,616

NODYN 25 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

2015/16		2016/17
£'000		£'000
28,821	Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	24,438
362,420	Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir	332,978
4,284	Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi	4,780
(929)	Derbyniadau o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(1,633)
(348,328)	Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir	(356,989)
46,268	Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	3,574

NODYN 26 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

2015/16		2016/17
£'000		£'000
119	Taliadau ariannol i leihau'r ymrwymiad sy'n ddyledus yn ymwneud â Phrydlesau Cyllidol	126
(1,421)	Ad-daliadau benthyciadau tymor byr a thymor hir	1,955
(1,302)	Llif arian net o weithgareddau ariannu	2,081

NODYN 27 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm yr Awdurdod wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

2015/16 £'000	<u>Gwariant / Incwm</u>	2016/17 £'000
	Gwariant	
163,870	Gwariant buddion gweithwyr	167,044
135,477	Gwariant arall Gwasanaethau	135,913
23,178	Ad-daliadau cefnogaeth ganolog	21,725
18,727	Dibrisiant, amorteiddiad, amhariad	23,503
14,551	Taliadau llog	12,623
20,097	Praeseptau a Lefiau	20,466
9,189	Colledion ar waredu asedau	734
385,089	Cyfanswm Gwariant	382,008
	Incwm	
(47,153)	Ffioedd ac incwm arall gwasanaethau	(55,838)
(508)	Incwm llog a buddsoddi	(313)
(107,526)	Incwm o'r dreth cyngor a trethi annomestig	(111,806)
(220,674)	Grantiau a chyfraniadau llywodraeth	(204,758)
(244)	(Enillion) ar waredu asedau	(40)
(376,105)	Cyfanswm Incwm	(372,755)
8,984	(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	9,253

NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu ar sail asiant i ddarparu rhai gwasanaethau, a hefyd yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

O ran yr Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, y prif weithgaredd yw cynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ardal Partneriaeth Cyngorau Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n ymestyn i 1,174 cilomedr. Cyfanswm y trafodion incwm a gafodd eu hadennill yn ystod 2016/17 oedd £62.9m (£47.1m yn 2015/16).

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel asiant i gynllun gwreiddiol Llywodraeth Cymru 'Troi Tai'n Gartrefi', sef rhoi benthyciadau di-log i berchnogion eiddo gwag er mwyn defnyddio'r adeiladau eto, i'w gwerthu neu eu rhoi ar rent. Yn ystod 2016/17, dyrannwyd benthyciadau gwerth £139k ac ad-dalwyd £368k, symudiad net o (£229k) (£166k yn 2015/16).

Yn ystod 2015/16, sefydlodd Llywodraeth Cymru bedwar cynllun newydd gyda Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel asiant ar eu rhan:

- Troi Tai'n Gartrefi 2 – balans cau £396k (£431k yn 2015/16)
- Benthyciadau i Wireddu Gwelliannau – balans cau £315k (£300k yn 2015/16)
- Gweithredu System Reoli Ranedig Llyfrgelloedd – balans cau £0 (£75k yn 2015/16)
- Cronfa Cefnogi Canol Tref Caernarfon – balans cau £431k (£700k yn 2015/16).

Yn ystod 2016/17, sefydlodd Llywodraeth Cymru gynllun pellach:

- Cronfa Canol Tref Caernarfon a Bangor – balans cau yn £850k, sydd eto i'w ddyrannu.

NODYN 29 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd y lwfansau a threuliau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

2015/16		2016/17
£'000		£'000
1,256	Lwfansau	1,259
71	Treuliau	61
1,327		1,320

NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION

30a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.

2015/16			Uwch Swyddogion	2016/17		
Cyflogau	Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflogau	Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr	Cyfanswm
£	£	£		£	£	£
103,805	23,252	127,057	Prif Weithredwr ¹	106,787	23,920	130,707
90,222	20,210	110,432	Cyfarwyddwr Corfforaethol	91,125	20,412	111,537
87,967	19,705	107,672	Cyfarwyddwr Corfforaethol	91,125	20,412	111,537
87,419	19,582	107,001	Pennaeth Addysg ²	91,589	20,516	112,105
76,582	17,154	93,736	Pennaeth Cyllid	77,349	17,326	94,675
76,581	17,151	93,732	Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant ³	77,009	17,350	94,359
22,465	16,054	38,519	Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant (deilydd blaenorol) ⁴	37,301	3,616	40,917
73,832	16,990	90,822	Pennaeth Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	75,395	16,888	92,283
71,259	15,962	87,221	Pennaeth Economi a Chymuned	71,972	16,122	88,094
67,697	15,164	82,861	Pennaeth Plant a Theuluoedd	70,174	15,719	85,893
64,134	14,360	78,494	Pennaeth Amgylchedd ⁵	65,338	14,836	80,174
64,134	14,366	78,500	Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol	66,575	14,913	81,488
60,195	13,484	73,679	Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd	60,798	13,619	74,417
42,756	9,577	52,333	Arweinydd Rhaglenni Arbennig ⁶	42,979	9,627	52,606
42,756	9,577	52,333	Arweinydd Rhaglenni Arbennig ⁶	42,979	9,627	52,606

- 1) Nid yw'r ffigurau yn cynnwys unrhyw daliad i'r Prif Weithredwr yn ei rôl fel Swyddog Canlyniadau. Taliwyd £7,085 yn 2016/17, ar sail y raddfa a ddiffinir gan y cyrff etholiadol perthnasol.
- 2) Ers 1 Tachwedd 2016, mae'r Pennaeth Addysg yn gweithredu fel Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro i GwE ar sail rhan amser. Mae wedi ei benodi'n ffurfiol gan Cyngor Gwynedd, ac mae GwE yn ad-dalu 80% o'i gostau cyflog a thâl eraill.
- 3) Deilydd wedi ei gadarnhau yn barhaol yn y swydd o 19 Medi 2016
- 4) Deilydd yn y swydd hyd at 8 Gorffennaf 2016
- 5) Deilydd yn y swydd yn barhaol o 6 Rhagfyr 2016
- 6) Swydd rhan amser

30b. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gofyn i'r Awdurdod gyfrifo cymhareb tâl. Cymhareb tâl y Prif Weithredwr i'r tâl canolrif o holl weithwyr yr Awdurdod ar gyfer 2016/17 yw 5.39 : 1 (5.29 : 1 yn 2015/16).

NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

30c. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn 8 achos yn 2016/17 a 10 achos yn 2015/16. Ni fyddai'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo a dalwyd yn y flwyddyn unigol.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:						
Nifer yn 2015/16			Nifer yn 2016/17			
Ysgolion	Eraill	Cyfanswm		Ysgolion	Eraill	Cyfanswm
3	3	6	£60,000 - 64,999	6	6	12
6	2	8	£65,000 - 69,999	4	1	5
3	0	3	£70,000 - 74,999	6	1	7
2	0	2	£75,000 - 79,999	2	0	2
1	0	1	£80,000 - 84,999	1	0	1
0	1	1	£85,000 - 89,999	0	1	1
0	0	0	£90,000 - 94,999	0	1	1
2	0	2	£95,000 - 99,999	1	0	1
0	0	0	£100,000 - 104,999	0	0	0
1	1	2	£105,000 - 109,999	0	0	0
0	0	0	£110,000 - 114,999	0	0	0
0	0	0	£115,000 - 119,999	0	0	0
0	0	0	£120,000 - 124,999	0	0	0
0	0	0	£125,000 - 129,999	0	0	0
0	0	0	£130,000 - 134,999	0	1	1

NODYN 31 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Awdurdod wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol:

2015/16		2016/17
£'000		£'000
183	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol	183
99	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwiliadau statudol	99
96	Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn	126
378		408
(2)	Llai: Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â Chyfrifon y Cyd-bwyllgorau a'r Harbyrau	(2)
376	Ffioedd Net Cyngor Gwynedd	406

Yn 2015/16, apwyntiwyd Cwmni Deloitte yn archwilwyr allanol i Gyngor Gwynedd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

NODYN 32 – INCWM GRANT

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

	Nodyn	2015/16 £'000	2016/17 £'000
Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Grant Amhenodol			
Grant Cytundebau Canlyniadau (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi)	13	1,284	0
Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi)	13	132,666	129,792
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw gan y Llywodraeth - Eraill		1,428	8
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gan y Llywodraeth -			
Ysgolion 21ain Ganrif		5,197	3,199
Grant Cyfalaf Cyffredinol		2,511	2,516
Arall		5,047	3,449
	13	12,755	9,164
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf arall	13	1,215	124
Cyfanswm		149,348	139,088
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau			
Llywodraeth Cymru -			
Grant Cefnogi Pobl (SPG & SPRG)		5,056	5,044
Grantiau Gwella ac Amddifadedd (Addysg)		7,350	7,477
Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy		3,606	3,516
Grant Ôl-16 (Addysg)		3,148	3,257
Arall		15,037	13,420
		34,197	32,714
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall			
Adran Gwaith a Phensiynau		30,059	30,237
Arall		9,714	12,015
		39,773	42,252
Grantiau a Chyfraniadau eraill		3,586	3,736
Cyfanswm		77,556	78,702

NODYN 32 – INCWM GRANT (parhad)

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Derbyniadau Grant Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Hir</u>		
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw		
Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	662	752
Grantiau Oedolion, Iechyd a Llesiant	4	0
	<hr/>	<hr/>
	666	752
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf		
Cyfraniadau Cyfalaf Priffyrdd a Bwrdeistrefol	1,665	1,519
Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	1,217	1,231
	<hr/>	<hr/>
	2,882	2,750
Cyfanswm Tymor Hir	3,548	3,502
<u>Tymor Byr</u>		
Grantiau a Chyfraniadau Refeniw		
Grantiau Economi a Chymuned	343	376
Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)	630	420
Grantiau Oedolion, Iechyd a Llesiant	897	1,036
Grantiau Eraill	220	109
	<hr/>	<hr/>
	2,090	1,941
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf	274	255
Cyfanswm Tymor Byr	2,364	2,196
Cyfanswm	5,912	5,698

NODYN 33 – PARTIÖN CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartiön cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyngor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Awdurdod. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddogion gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghöd ymarfer CIPFA.

Llywodraeth Cymru a Chanolog

Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol yr Awdurdod. Mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol, mae'n darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau ac yn pennu termau nifer o'r trafodaethau sydd gan yr Awdurdod o fewn partiön eraill (e.e. treth y cyngor, budd-daliadau tai). Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth yn Nodyn 27 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 32.

Aelodau

Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisiâu ariannol a gweithredol y Cyngor. Ni ddychwelwyd y datganiad pesonol gan un aelod o'r Cyngor. Ceir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn ystod 2016/17 yn Nodyn 29.

Mae'r Awdurdod yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol neu wirfoddol neu mae'r aelodau wedi datgan cysylltiad â mudiadau, cyrff ac awdurdodau cyhoeddus. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2016/17 a'r balansau ar 31 Mawrth 2017 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000 14,142	£'000 1,749	£'000 (4,041)

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2016/17 a'r balansau ar 31 Mawrth 2017 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000 1,873	£'000 94	£'000 (6)

Swyddogion

Mae Uwch Swyddogion (fel y diffinir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas (fel a ddiffinir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2016/17 a'r balansau ar 31 Mawrth 2017 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000 1,499	£'000 148	£'000 (115)

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Mae'r Awdurdod yn gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Ceir manylion o'r trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 38 ar dudalennau 69 i 73 a Chyfrifon y Gronfa Bensiwn ar dudalennau 77 i 106.

NODYN 33 – PARTIÖN CYSYLLTIEDIG (parhad)

Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
973	0	0

Endidau a Reolir neu Ddylanwadir yn Sylweddol arnynt gan yr Awdurdod

Sefydlwyd Cwmni Cynnal Cyf. yn 1996 i ddarparu gwasanaethau cefnogi addysg dan gytundeb i ysgolion unigol ac i awdurdodau addysg leol yn ogystal â gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Mae'r cwmni yn gyfyngedig dan warant ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Dim ond tuag at hyrwyddo ei amcanion gellid defnyddio incwm y cwmni. Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol gan Gwmni Cynnal, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN. Mae'r taliadau i Gwmni Cynnal ar gyfer gwasanaethau i ysgolion yn ystod 2016/17 a'r balansau ar 31 Mawrth 2017 fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor
£'000	£'000	£'000
1,194	12	(1)

Sefydlwyd Cwmni Gwastraff Môn-Arfon Cyf. fel Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol yn 1994. Penderfynodd y ddau Gyngor ddod â'r trefniant i ben yn ystod 2007/08 a gwneud y gwaith yn fewnol. Trosglwyddwyd yr asedau ac ymrwymadau gweithredol a'r gweithwyr i'r Cyngor ym mis Ionawr 2008. Rhennir yr asedau a'r ymrwymadau eraill rhwng y ddau Gyngor ac fe gwblheir y cyfrifon terfynol pan fydd y cwmni yn cael ei diddymu. Y balans cyfredol sydd yn ddyledus i'r Cyngor yw £52k.

NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gafaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn referniw fel defnyddir asedau gan yr Awdurdod, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol yr Awdurdod sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

31 Mawrth		31 Mawrth
2016		2017
£'000		£'000
427,588	Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu	436,131
(67,131)	Reserf Ailbriso	(71,974)
(186,954)	Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	(187,120)
173,503	Gofyn Cyllido Cyfalaf	177,037

NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF (parhad)

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

2015/16		2016/17
£'000		£'000
174,889	Gofyn Cyllido Cyfalaf I Ebrill	173,503
9,844	Tir ac Adeiladau	5,487
2,830	Is adeiladwaith	4,422
4,658	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	3,006
37	Asedau Cymunedol	17
17	Asedau Gweddilliol	3
13,408	Asedau heb eu cwblhau	11,414
2	Asedau ar gyfer gwerthu	2
4,844	Wedi ei ariannu o gyfalaf drwy statud	4,987
(1,622)	Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd	(770)
(17,781)	Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(11,606)
(10,248)	Gwariant cyfalaf yn erbyn refeniw	(5,972)
(5,641)	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth	(5,593)
	Symiau gwirfoddol ychwanegol a neilltuwyd:	
(1,734)	Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth	(1,863)
173,503	Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth	177,037

NODYN 35 – PRYDLESAU

Yr Awdurdod fel Prydlesai

Prydlesau Cyllidol

Mae gan y Cyngor eiddo drwy brydlesau cyllidol sydd yn cael eu dangos fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen. Cynhwysir yma Drefniant Consesiwn Gwasanaeth GwryAD (Nodyn 41) gyda'r gwerth net canlynol:

31 Mawrth		31 Mawrth
2016		2017
£'000		£'000
4,236	Eiddo, Offer a Chyfarpar	3,987
4,236		3,987

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r ymrwymiad tymor hir am y budd yn yr eiddo gaffaelwyd gan yr Awdurdod a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan yr Awdurdod yn y dyfodol tra mae'r ymrwymiad yn parhau'n ddyledus. Mae'r lleiafswm taliadau prydles fel a ganlyn:

NODYN 35 – PRYDLESAU (parhad)

31 Mawrth 2016 £'000		31 Mawrth 2017 £'000
Ymrwymadau Prydles Gyllidol (gwerth presennol net o'r lleiafswm taliadau prydles):		
126	cyfredol	134
2,127	ddim yn gyfredol	1,993
2,253	Lleiafswm y taliadau prydles	2,127

Mae'r gweddill o'r ased a ddangosir uchod wedi ei gyllido drwy gredyd gohiriedig (gweler Nodyn 41).

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

	Lleiafswm Taliadau Prydles		Ymrwymadau Prydlesau Cyllidol	
	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
	Dim mwy na blwyddyn	126	134	126
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	587	623	587	623
Mwy na pum mlynedd	1,540	1,370	1,540	1,370
	2,253	2,127	2,253	2,127

Yn 2016/17, gwnaethpwyd lleiafswm taliadau prydles o £126,168 (£118,840 yn 2015/16) gan yr Awdurdod mewn perthynas â'r asedau hynny a ddelir fel prydlesau cyllidol.

Prydlesau Gweithredol

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Dim mwy na blwyddyn	485	457
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	817	587
Mwy na pum mlynedd	208	142
	1,510	1,186

Y gwariant a godwyd ar y gwasanaethau o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r prydlesau yma oedd:

	2015/16 £'000	2016/17 £'000
Lleiafswm taliadau prydles	552	564
	552	564

NODYN 35 – PRYDLESAU (parhad)

Yr Awdurdod fel Prydleswr

Prydlesau Cyllidol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu eiddo ar brydles gyllidol, gan gynnwys:

- Yr Academi Hwyllo ym Mhwllheli,
- Canolfan Rhyd Ddu

Mae'r prydlesau yma ar sail rhent enwol ac am gyfnod sydd yn cyfateb i fywyd economaidd yr asedau. Nid oes premiwm wedi ei dderbyn ar gyfer y prydlesau yma.

Prydlesau Gweithredol

Mae'r Awdurdod yn prydlesu eiddo o dan brydlesau gweithredol i'r dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymuned
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Dim mwy na blwyddyn	439	394
Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd	599	629
Mwy na pum mlynedd	2,243	2,732
	3,281	3,755

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar ddigwyddiad gymryd lle ar ôl i'r brydles ddechrau, er enghraifft, addasiadau yn dilyn adolygiad rhent. Yn 2016/17 £908,227 oedd y lleiafswm taliadau prydles dderbyniadwy gan yr Awdurdod (£828,936 yn 2015/16).

NODYN 36 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu cost y pecynnau perthnasol i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion. Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymadau perthnasol i'r Cyngor fel a wybyddir ar 31 o Fawrth 2017. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i'r Cyngor, ble'n briodol.

Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfynu gwaith ym mhob band	
	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16 £'000	2016/17 £'000
£								
0 - 20,000	77	32	11	35	88	67	397	485
20,001 - 40,000	31	2	5	17	36	19	1,018	517
40,001 - 60,000	3	3	1	0	4	3	207	136
60,001 - 80,000	2	0	1	2	3	2	193	123
80,001 - 100,000	0	0	0	1	0	1	0	81
Adlewyrchu addasiad i amcangyfrifon y flwyddyn flaenorol							11	23
Cyfanswm	113	37	18	55	131	92	1,826	1,365

NODYN 37 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Awdurdod yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2016/17 talodd y Cyngor £6.63m (£6.42m yn 2015/16) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 15.74% (15.15% yn 2015/16) o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Yn 2016/17 roedd hyn yn £1.17m (£1.18m yn 2015/16), ac yn cynrychioli 2.79% (2.75% yn 2015/16). Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 38.

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfu o 1 Ebrill 2014. Mae'r Awdurdod a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl-ymddeol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Y pwyllgor sy'n penodi rheolwyr buddsoddi'r gronfa.

Y prif risgiau i'r Awdurdod o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Awdurdod yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn treth y cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2016			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2017		
	Asedau	Ymrwym-iadau	(Ymrwym-iadau) /asedau net	Asedau	Ymrwym-iadau	(Ymrwym-iadau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	530,343	0	530,343	547,025	0	547,025
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu Hariannu	0	(750,818)	(750,818)	0	(699,750)	(699,750)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu Hariannu	0	(28,246)	(28,246)	0	(25,607)	(25,607)
Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill	530,343	(779,064)	(248,721)	547,025	(725,357)	(178,332)
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(21,913)	(21,913)	0	(19,784)	(19,784)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	(297)	(297)	0	(232)	(232)
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(22,210)	(22,210)	0	(20,016)	(20,016)
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	17,023	0	17,023	19,183	0	19,183
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinir Ymrwymiad	0	(25,039)	(25,039)	0	(25,426)	(25,426)
Cyfanswm Llog Net	17,023	(25,039)	(8,016)	19,183	(25,426)	(6,243)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	17,023	(47,249)	(30,226)	19,183	(45,442)	(26,259)
Llif Arian						
Cyfraniadau aelodau'r cynllun	4,683	(4,683)	0	4,992	(4,992)	0
Cyfraniadau'r cyflogwr	16,894	0	16,894	17,962	0	17,962
Cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu	1,709	0	1,709	1,706	0	1,706
Buddion a Dalwyd	(18,303)	18,303	0	(20,072)	20,072	0
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	(1,709)	1,709	0	(1,706)	1,706	0
Sefyllfa Cau a Ddisgwyllir	550,640	(810,984)	(260,344)	569,090	(754,013)	(184,923)
Ail Fesuriadau						
Newid mewn tybiaethau demograffig	0	0	0	0	3,839	3,839
Newid mewn tybiaethau ariannol	0	77,463	77,463	0	(109,365)	(109,365)
Profiadau eraill	0	8,164	8,164	0	(25,588)	(25,588)
Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a gynhwysir yn y llog net	(3,615)	0	(3,615)	80,624	0	80,624
Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	(3,615)	85,627	82,012	80,624	(131,114)	(50,490)
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	547,025	0	547,025	649,714	0	649,714
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(699,750)	(699,750)	0	(856,715)	(856,715)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu**	0	(25,607)	(25,607)	0	(28,412)	(28,412)
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	547,025	(725,357)	(178,332)	649,714	(885,127)	(235,413)

* Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Mae'r ymrwymiad yn cynnwys tua £10,925,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido y CPLIL a £17,487,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido Athrawon. Ar gyfer ymrwymiaid heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2017, tybir bod yr holl bensiynau heb eu hariannu yn daladwy am weddill oes yr aelod. Tybir hefyd bydd 90% o bensiynwyr yn briod (neu'n cyd-fyw) wrth farw ac y bydd eu priod (cydbreswlydd) yn derbyn pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny nad ydynt. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2016. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £1,843m ar 31 Mawrth 2017, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCCI9.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2016				Ar 31 Mawrth 2017			
	Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Cyfanswm £'000	%	Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith-redol £'000	Cyfanswm £'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	17,398	0	17,398	3	22,276	0	22,276	3
Cynhyrchu	0	0	0	0	20,119	0	20,119	3
Ynni a Gwasanaethau	2,997	0	2,997	1	3,618	0	3,618	1
Sefydliadau Ariannol	8,917	0	8,917	2	12,461	0	12,461	2
Iechyd a Gofal	31,539	0	31,539	6	32,068	0	32,068	5
Technoleg Gwybodaeth	18,103	0	18,103	3	26,123	0	26,123	4
Eraill	21,793	0	21,793	4	1,780	0	1,780	0
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	22,227	22,227	4	0	29,349	29,349	5
Ernesau Dyledion								
Eraill	0	73,108	73,108	13	0	81,166	81,166	12
Eiddo Diriaethol								
Eiddo'r DU	10,439	46,057	56,496	10	14,275	35,476	49,751	8
Eiddo Tramor	0	1,033	1,033	0	0	1,319	1,319	0
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol								
Ecwiti	111,036	160,978	272,014	50	138,871	197,659	336,530	52
Bondiau	0	0	0	0	0	0	0	0
Is-adeiladwaith	0	4,552	4,552	1	0	8,711	8,711	1
Arian a Chyferwerthoedd Arian								
Y cyfan	16,848	0	16,848	3	24,443	0	24,443	4
Cyfanswm	239,070	307,955	547,025	100	296,034	353,680	649,714	100

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymadau

Mae'r ymrwymadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymadau fel a ganlyn:-

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Cynnydd Pensiwnau	2.2	2.4
Cyfradd Cynnydd Cyflogau*	4.2	2.4
Cyfradd Chwyddiant	2.2	2.4
Cyfradd Ddisgownt	3.5	2.6
Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau	3.5	2.6
Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Hyd oes ar 65 oed am bensiynewyr cyfredol		
Dynion	22	22
Merched	24	24
Hyd oes ar 65 oed am bensiynewyr y dyfodol		
Dynion	24.4	24.0
Merched	26.6	26.4

*Ar gyfer ymrwymiadau heb eu hariannu ar 31 Mawrth 2017, tybir bod yr holl bensiynewau heb eu hariannu yn daladwy am weddill oes yr aelod. Tybir hefyd y bydd 90% o bensiynewyr yn briod (neu'n cyd-fyw) wrth farw ac y bydd eu priod (cydbreswlydd) yn derbyn pensiwn o 50% o pensiwn yr aelod ar ddyddiad marwolaeth yr aelod.

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2017 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCC19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyngor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyngor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun

Newid tybiaeth	Brasamcan cynnydd i'r Cyflogwr	Brasamcan swm ariannol
	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2017
	%	£'000
lleihad 0.5% i'r gwir gyfradd ddisgownt	11	93,116
cynnydd 0.5% i'r gyfradd codiad cyflog	2	18,421
cynnydd 0.5% i'r gyfradd codiad pensiwn	8	73,112

NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Y prif ragdybiaeth demograffig yw'r dybiaeth hirhoedledd (h.y. disgwyliad oes yr aelod). At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%. Yn ymarferol, bydd y gost wirioneddol o flwyddyn o gynnydd yn nisgwyliad oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau i'r cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

Effaith ar Lif Arian y Cyngor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel gyllido o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyngor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad bob tair blynedd (y diweddaraaf oedd 31 Mawrth 2016), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddol. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2020 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod y cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyngor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraid 2016, dyddiedig 31 Mawrth 2017.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir

	Rhaniad Ymrwymiad		Cyfnod Cyfartaledd Cymhwysol
	£'000	%	
Aelodau Gweithredol	445,625	52.0	24.7
Aelodau Gohiriedig	135,913	15.9	25.3
Aelodau Pensiynwyr	275,177	32.1	12.0
Cyfanswm	856,715	100.0	19.6

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2016.

Effaith ym Mlynnydoedd y Dyfodol

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor fod yn £23.2m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2018.

O ganlyniad i faterion amseriad a'r ffaith fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, mae gwahaniaeth o £831,890 yn 2016/17 (£1,443,736 yn 2015/16) rhwng ffigyrau diffyg yn y Gronfa yn ôl yr Actiwari o'i gymharu gyda'r ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau sydd wedi eu diffinio ar y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraid ar Asedau ac Ymrwymadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad perthnasol i gynllun pensiwn buddiannau a diffinir ar y Fantolen.

NODYN 39 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rywmedigaeth posib ar ran yr Awdurdod ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod.

Mae'r sefyllfa isod yn berthnasol i amgylchiadau'n ymwneud â dau ymrwymiad dibynnol penodol:

- Gofynion capio ac ôl-ofalaeth safleoedd tirlenwi yr Awdurdod - mae'r ddarpariaeth sydd yn gynwysedig yn y cyfrifon yn seiliedig ar amgylchiadau presennol a gwybyddus, yn ychwanegol i ragolygon perthnasol. Er hynny, mae'n bosib y bydd y gwir gost derfynol yn wahanol i'r costau cyfredol a amcangyfrifir at y dyfodol.

NODYN 39 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL(parhad)

- Mae'r Awdurdod yn agored i ymrwymiad yswiriant posib sy'n berthnasol i drefniadau yswiriant ei gyn-awdurdodau, sef Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Cyngor Dosbarth Meirionnydd, a therfyniad Cronfa Municipal Mutual Insurance (M.M.I.) ar 30 Medi 1992.

Gwnaeth M.M.I. gynllun o drefniant gyda'i gredydwy, ble, os oedd cyllid M.M.I. yn annigonol i gyfarfod hawliadau yn y dyfodol, yna byddai cymal adfachu'n cael ei sbarduno (sef Cynllun o Drefniant) a allai effeithio hawliadau a dalwyd ers 1992-93. Ar 13 Tachwedd 2012, daeth cyfarwyddwyr y Cwmni i'r casgliad y dylid gweithredu amodau'r Cynllun o Drefniant a rhoddwyd rhybudd i'r perwyl hwn i Weinyddwr y Cynllun a'r Cwmni. Mae'r penderfyniad yn derfynol. Talwyd lefi cychwynnol o 15% o'r taliadau a wnaethpwyd ers 30 Medi 1992 yn ystod 2013/14, a talwyd 10% pellach yn 2016/17.

Fodd bynnag, yn unol â'r cynllun, bydd modd codi lefi pellach os na fydd y lefi gwreiddiol yma yn ddigonol ar gyfer ymrwymadau M.M.I. yn y tymor hirach. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y byddai'n ddarbodus parhau i gynnal darpariaeth yn y disgwyliad y bydd y lefi cychwynnol yn annigonol. Uchafswm amcangyfrif cyfredol yr ymrwymiad sy'n berthnasol i'r awdurdod hwn yw hyd at £850,000.

NODYN 40 – YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 172 o gymynroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion, a chronfeydd cysuron a gwelliannau i nifer o Sefydliadau'r Cyngor. Mae gan y Gronfa Fwyaf, y Gronfa Degwm, gyfriflyfr cyfrifo sy'n hollol ar wahân, tra bo'r Cyngor yn dal eiddo 171 o'r cymynroddion hyn ond nid yw'n gwneud penderfyniadau ar ddefnydd y cronfeydd. Ymhob achos, nid yw'r cronfeydd yn cynrychioli asedion y Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

Cyfanswm balans y 171 o gymynroddion nad ydynt yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2017 oedd £679,691 (£646,045 ar 31 Mawrth 16). Buddsoddir y cronfeydd yn llawn er mwyn creu incwm.

Manylir ar y cymynroddion mwyaf, Y Gronfa Degwm ac Ymddiriedolaeth FMG Morgan, yn Atodiadau A a B i'r cyfrifon hyn.

NODYN 41 – TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH

Mae Prosiect GwyrAD yn gynllun Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel cynllun Menter Cyllid Preifat (PFI). Dechreuwyd ar y dasg o'i adeiladau yn 2012/13 a'r gwaith yn dod yn weithredol ym Medi 2013. Gwaith yw gogyfer â thrin gwastraff bwyd a ddiolir yn y tarddle gan breswylwyr a busnesau Gwynedd (yn bennaf) trwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Mae hyn yn gymorth i'r Awdurdod gyrraedd ei dargedau ailgylchu, a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Biogddiraddadwy am gyfnod o 15 mlynedd.

Mae'r asedau sy'n cael eu darparu i gyflenwi'r gwasanaeth yn cael eu cydnabod ar Fantolen yr Awdurdod. Gwerth yr asedau perthnasol ar 31 Mawrth 2017 oedd £4.0m (£4.2m ar 31 Mawrth 2016). Mae'r Awdurdod yn gwneud taliad cytunedig (ffi giât) bob blwyddyn yn seiliedig ar isafswm o dunelli sy'n cael ei gynyddu yn flynyddol gan chwyddiant ac sy'n gallu cael ei ostwng os nad yw'r contractwr yn cyfarfod ag argaeledd a safon perfformiad mewn unrhyw flwyddyn. Mae gan yr Awdurdod yr hawl i gynyddu swm y tunelli dros y 7,500 tunnell gytunedig hyd at 11,000 tunnell, a bydd yn talu ffi giât ostyngol am unrhyw beth dros 7,500 tunnell.

	Taliad am Wasanaethau	Ad-daliad Gwariant Cyfalaf	Llog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Talwyd yn 2016/17	498	126	139	763
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	261,910	2,499	(2,499)

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

Minimol fyddai'r effaith wedi bod o newid 1% mewn cyfraddau llog ar y llog a dderbyniwyd gan mai 0.53% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £132,567 am y flwyddyn.

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar warantau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nad yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

Risg arian tramor

Mae risg arian yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£UK). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £UK.

NODYN 18 – NATUR A GRADDFFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae gan y Gronfa ymrwymiadau ecwiti preifat ac is adeiladwaith mewn arian tramor, (€214 miliwn a \$88.6 miliwn). Mae'r ymrwymiadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymiadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 25. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymiadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn.

Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymiadau ers 2005 felly mae'r ymrwymiadau wedi'i gydbwysu dros gyfnod maith o amser.

Mae cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi pa mor agored yw'r Gronfa i newidiadau mewn arian fel ar 31 Mawrth 2017 ac fel ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol:

Agored i newidiadau mewn arian – math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2016 £'000	Fel ar 31 Mawrth 2017 £'000
Ecwiti tramor a byd-eang	749,931	970,060
Incwm Sefydlog byd-eang	198,845	236,625
Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac isadeiladedd)	81,540	110,076
Eiddo tramor	3,116	3,636
Arian dramor	0	0
Cyfanswm yr asedau tramor	1,033,432	1,320,397

Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddi data hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi y Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael eu cyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Ystyrir bod newid o 10% yn yr arian tramor yn rhesymol yn seiliedig ar ddadansoddiad ymgynghorwyr buddsoddi analytig y Gronfa o newidiadau hanesyddol hirdymor yn y cyfraddau cyfnewid ar ddiwedd y mis dros gyfnod treigl o 36 mis hyd at 31 Mawrth 2017. Y canran cyfatebol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2016 oedd 6%. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau llog, yn parhau'n gyson.

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2017 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2017 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti tramor a byd-eang	970,060	1,067,066	873,054
Incwm Sefydlog byd-eang	236,625	260,288	212,963
Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac is adeiladwaith)	110,076	121,084	99,068
Eiddo tramor	3,636	4,000	3,273
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	1,320,397	1,452,438	1,188,358

NODYN 18 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2016 £'000	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd £'000	Gwerth ar leihad £'000
Ecwiti tramor a byd-eang	749,931	794,521	705,341
Incwm Sefydlog byd-eang	198,845	210,668	187,022
Buddsoddiadau amgen (ecwiti preifat ac is adeiladwaith)	81,540	86,388	76,692
Eiddo tramor	3,116	3,301	2,931
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	1,033,432	1,094,878	971,986

b) Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i beth risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartion, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

Gweler isod meincnod ar gyfer y ganran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

Rheolwr Buddsoddi	Canran o'r Portffolio
BlackRock	29.5%
Fidelity	19.0%
Veritas	19.0%
Insight	15.0%
Eiddo (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock)	10.0%
Partners Group	7.5%

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil yr amrywiol bolisiau yswiriant a ddelir i ymdrin â gwrth bartion sy'n diffyg dalu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o Fuddsoddiadau Tymor Byr ac Adnau Arian, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor. Am fod y buddsoddiadau tymor byr yn cael eu gwneud mewn enw Cyngor Gwynedd maent yn dangos yn llawn ar fantolen y Cyngor. Elfen y Gronfa Bensiwn o'r buddsoddiadau tymor byr a'r adnau arian ar 31 Mawrth 2017 oedd £15.7m (£25.0m ar 31 Mawrth 2016).

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuron y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddsbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o gronfeydd yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw. Cred y Cyngor ei fod wedi rheoli pa mor agored ydyw i risg credyd a dim ond un profiad o ddiffyg dalu neu adneuron nad oes modd eu hadennill sydd ganddo, sef pan roddwyd Banc Heritable yn nwylo'r gweinyddwyr yn 2008. Gweler manylion llawn yn Nodyn 27.

NODYN 18 – NATUR A GRADDFFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiaadau pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 26 mae tri chyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiaadau eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraidd yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif Addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 Rheoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008, rhwng y prisiad a gynhelir bob tair blynedd.

c) Risg hylifedd

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Gronfa Bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiaadau i dalu pensiynwyr; ac i fodloni ymrwymiaadau buddsoddi.

Mae gan yr Awdurdod Gweinyddol system llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dros dro yn cael ei fuddsoddi gan yr Awdurdod Gweinyddol yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp yr Awdurdod Gweinyddol. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddbwys.

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod hwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2017, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £158m, sy'n cynrychioli 8.5% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2016: £143m, a oedd yn cynrychioli 9.4% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl rwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2017 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2016.

Risg ail ariannu

Y risg allweddol yw y bydd y Cyngor wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o offerynnau ariannol ei Gronfa Bensiwn pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Cyngor unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

NODYN 19 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrisiad bob tair blynedd er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2016.

Disgrifiad o'r Polisi Cyllido

Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido (FSS), yr Awdurdod Gweinyddu, gafodd ei adolygu fel rhan o Brisiad 2016.

Mae elfennau allweddol y polisi cyllido fel a ganlyn:

- sicrhau hydaledd hirdymor y Gronfa dros y tymor hir. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o arian ar gael i gwrdd a buddion holl aelodau/dibynyddion wrth iddynt ddod daladwy.
- sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn weddol sefydlog os yw'n rhesmol i wneud hynny.
- lleihau'r cyfraniadau ariannol tymor hir mae'r cyflogwyr yn dalu i'r Cynllun drwy adnabod y cysylltiad rhwng asedau a rhwymedigaethau a mabwysiadu strategaeth fuddsoddi sy'n cydbwysu risg ac elw.
- i adlewyrchu nodweddion gwahanol y gwahanol gyflogwyr i bennu cyfraddau cyfraniadau drwy gael strategaeth cyllido clir a thryloyw sy'n dangos sut y gall pob cyflogwr gyfarfod a'u rhwymedigaethau dros y blynyddoedd i ddod.
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg i gyflogwyr eraill ac yn benodol i'r rhai sy'n talu'r Dreth Cyngor yn sgil cyflogwyr yn diffyg dalu ei rwymedigaethau pensiwn.

Amlinella'r FSS sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwysu'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

O ran cyflogwyr oedd â chymod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi yn is na'r gyfradd ddamcaniaethol sydd ei hangen i sicrhau bod eu cyfran nhw o'r Gronfa yn dychwelyd i gael ei ariannu'n llawn dros 20 mlynedd os yw'r rhagdybiaethau prisio yn cael eu cadarnhau. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y FSS, fod yna siawns gwell na 66% o hyd y bydd y Gronfa yn dychwelyd i ariannu'n llawn dros y 20 mlynedd.

Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf

Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2016. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u prisio'n £1,525 miliwn ar 31 Mawrth 2016, yn ddigon i dalu 91% o'r ymrwymadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y diffyg ym mhrisiad 2016 oedd £145 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prisiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol a'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2020 eupennu yn unol a pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

Prif Ragdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymadau

Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad prisio, dyddiedig 31 Mawrth 2017.

Dull

Aseswyd yr ymrwymadau drwy ddefnyddio dull buddion croniedig sy'n ystyried aelodaeth bensiynadwy hyd at y dyddiad prisio, ac yn ystyried cynnydd disgwylidig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwylidig cynharach o adael aelodaeth bensiynadwy.

Rhagdybiaethau

Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa o'u gwerth ar y farchnad.

NODYN 19 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2016 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau Ariannol	31 Mawrth 2016
Cyfradd disgownt	3.9%
Cynnydd mewn cyflog	2.1%
Chwyddiant prisiau / Cynnydd mewn pensiwn	2.1%

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwyliad oes yn seiliedig ar *VitaCurves* y *Gronfa* gyda gwelliannau yn unol a model CMI 2013, sy'n tybio bod y gyfradd bresennol o welliannau wedi cyrraedd y brig a bydd yn cydgyfeirio at gyfradd hirdymor o 1.25% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwyliad oes cyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau marwolaeth yn 65 mlwydd oed	Gwryw Blynyddoedd	Benyw Blynyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	22.0	24.2
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2016)	24.0	26.4

Mae copiâu o adroddiad Prisiad 2016 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwnngwynedd.org.uk

Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2016

Ers y prisiad ffurfiol diwethaf, mae'r gwir ddychweliadau ar fondiau wedi disgyn gan gynyddu gwerth y rhwymedigaethau. Mae'r effaith hyn wedi cael ei wrthbwysu i raddau gan enillion cryf yr asedau. Yn fras, mae'r ddau ddigwyddiad wedi canslo'i gilydd allan, o ran yr effaith ar y sefyllfa cyllido ar 31 Mawrth 2017.

Cynhelir y prisiad actiwaraid nesaf fel ar 31 Mawrth 2019. Adolygir y Datganiad Strategaeth Cyllido ar yr un adeg.

NODYN 20 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido bob tair blynedd, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar SCC19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddarau rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried rhwymedigaethau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddarau'r rhagdybiaethau actiwaraid (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 19) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau SCC19, SAA17 ac SAA102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prasio buddion salwch a marwolaeth yn unol ag SCC19.

Roedd gwerth cyfredol actiwaraid y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo ar 31 Mawrth 2017 ac 2016, fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
Rhagdybiaeth	£'m	£'m
Aelodau Gweithredol	1,285	1,214
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	388	246
Cyfradd ddisgownt	747	514
Cyfanswm	2,420	1,974

Fel y nodir uchod mae'r ymrwymadau uchod wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar SCC19 ac felly maent yn wahanol i ganlyniadau'r prisiad cyllido bob tair blynedd a gynhaliwyd yn 2016 (gweler Nodyn 19) gan fod SCC 19 yn nodi cyfradd ddisgownt yn hytrach na chyfradd sy'n adlewyrchu cyfraddau'r farchnad.

NODYN 20 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI’U HADDO (parhad)

Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadau ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn:

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2017
Rhagdybiaeth	%	%
Chwyddiant/cyfradd cynnydd mewn pensiwn	2.2	2.4
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	4.2	2.4
Cyfradd ddisgownt	3.5	2.6

Defnyddiwyd yr un dybiaeth hirhoedledd fel ar gyfer asesu’r sefyllfa cyllido fel y dangosir yn Nodyn 19 uchod.

Mae’r rhagdybiaeth cymudiad yn caniatáu i bensiynwyr y dyfodol dewis cyfnewid pensiwn am arian parod di-dreth ychwanegol o hyd at 50% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth cyn Ebrill 2008 a 75% o gyfyngiadau Cyllid a Thollau EM am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008.

Mae’r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur rhwymedigaethau wedi’u nodi isod

Sensitifrwydd i’r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy’n gorffen 31 Mawrth 2017	Amcan % y Cynnydd mewn Rhwymedigaethau	Amcan Swm Ariannol
	%	£m
0.5% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant / pensiwn	8	189
0.5% y.f. o gynnydd mewn cyflog	3	73
0.5% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt	11	267

Y prif ragdybiaeth demograffig yw’r tybiaeth hirhoedledd. At ddibenion sensitifrwydd, amcangyfrifir y bydd cynnydd o flwyddyn yn y disgwyliad oes yn cynyddu Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cyflogwr tua 3-5%.

NODYN 21 – ASEDAU CYFREDOL

2015/16		2016/17
£’000		£’000
932	Cyfraniadau sy’n ddyledus – gweithwyr	820
3,221	Cyfraniadau sy’n ddyledus – cyflogwyr	2,845
3,901	Gwerthoedd trosglwyddo a dderbynnir (rhai sy’n ymuno)	0
3,399	Amrywiol ddyledwyr	1,944
11,453	Cyfanswm dyledwyr	5,609
20,434	Arian	15,375
31,887	Cyfanswm	20,984

Dadansoddiad o ddyledwyr

2015/16		2016/17
£’000		£’000
2,073	Cyngor Gwynedd	2,352
732	Cyrff llywodraeth ganolog	560
5,631	Awdurdodau lleol eraill	1,209
3	Cyrff GIG	3
3,014	Endidau ac unigolion eraill	1,485
11,453	Cyfanswm	5,609

NODYN 22 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

2015/16		2016/17
£'000		£'000
1,714	Amrywiol gredydwy	2,591
27	Gwerthoedd trosglwyddo sy'n daladwy (rhai sy'n ymadael)	282
2,538	Buddion sy'n daladwy	1,216
4,279	Cyfanswm	4,089

Dadansoddiad o gredydwy

2015/16		2016/17
£'000		£'000
901	Cyngor Gwynedd	1,051
43	Cyrff llywodraeth ganolog	37
1	Awdurdodau Lleol eraill	138
19	Cyrff GIG	58
3,315	Endidau ac unigolion eraill	2,805
4,279	Cyfanswm	4,089

NODYN 23 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2016	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2017
	£'000	£'000
Clerical Medical	2,936	3,349
Equitable Life	258	229
Standard Life	51	53
Cyfanswm	3,245	3,631

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r tri rheolwr fel a ganlyn:

	2015/2016	2016/2017
	£'000	£'000
Clerical Medical	526	561
Equitable Life	0	0
Standard Life	1	0
Cyfanswm	527	561

NODYN 24 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gref rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,008,589 (£1,075,225 yn 2015/16) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r gronfa bensiwn a chyfrannodd £17.63m tuag at y Gronfa yn 2016/17 (£17.31m yn 2015/16). Ar ddiwedd y flwyddyn £2.35m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa (gweler Nodyn 21) yn bennaf mewn perthynas â chyfraniadau ar gyfer Mawrth 2017 a £1.05m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor (gweler Nodyn 22) yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau gan y Cyngor.

NODYN 24 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd dri chyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2016/17, roedd y Gronfa yn derbyn llog o £132,567 (£147,611 yn 2015/16) gan Gyngor Gwynedd.

Llywodraethu

Roedd dau aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2016/17 (yr aelodau pwyllgor T.O. Edwards a P. Jenkins). Yn ogystal, roedd aelodau'r pwyllgor T.O. Edwards, S. Glyn, P. Jenkins, H.E. Jones, W.T. Owen, a P.Read yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd un aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2016/17 (yr aelod S.Warnes). Yn ogystal, mae'r aelodau Bwrdd A.W. Deakin, V. Halloran, A.L Lloyd Evans, O. Richards and H. Trainor yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Staff Rheoli Allweddol

Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol yn eithrio awdurdodau lleol rhag gofynion datgelu staff rheoli allweddol SCC24, ar y sail bod y gofynion datgelu ar gyfer tal swyddogion a lwfansau aelodau yn y Cod yn bodloni gofynion datgelu staff rheoli allweddol SCC24. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Gweler y dadleniadau gofynnol yng nghyfrifon Cyngor Gwynedd.

NODYN 25 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	Cyfanswm ymrwymadau	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2016	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2017
	€'000	€'000	€'000
P.G. Direct 2006	20,000	776	776
P.G. Global Value 2006	50,000	3,477	3,477
P.G. Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
P.G. Global Value 2011	15,000	5,044	3,372
P.G. Global Infrastructure 2012	40,000	22,005	15,894
P.G. Direct 2012	12,000	1,813	1,181
P.G. Global Value 2014	12,000	7,119	4,638
P.G. Direct 2016	50,000	18,202	34,373
Cyfanswm Ewro	214,000	60,396	65,671
	\$'000	\$'000	\$'000
P.G. Emerging Markets 2011	7,000	2,078	1,623
P.G. Secondary 2015	38,000	34,804	32,723
P.G. Direct Infrastructure 2015	43,600	42,111	35,219
Cyfanswm Doleri	88,600	78,993	69,565

Mae 'PG' uchod yn cyfeirio at y Grŵp Partners, mae'r rheolwr buddsoddi yn buddsoddi mewn meysydd 'amgen' (ecwiti preifat ac is adeiladwaith) ar ran y Gronfa.

Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn rhan ecwiti preifat y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

NODYN 26 - ASEDAU WRTH GEFN

Mae tri o gyflogwyr sy'n gyrrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y gronfa pensiwn ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn diffyg dalu.

NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

a) Amhariadau am ddyledion drwg ac amheus

Fel y esbonnir yn Nodyn 5 nid oes unrhyw amhariad wedi ei gwneud ar gyfer dyledion drwg ac amheus.

b) Amhariad yr adneuo ym Manc Gwlad yr Iâ

Yn ystod 2008/09, roedd y Cyngor wedi adneuo £4m gyda Heritable Bank, banc wedi'i gofrestru yn y DU dan Gyfraith yr Alban. Roedd £565,200 o'r buddsoddiad hwnnw'n perthyn i'r gronfa bensiwn. Rhoddwyd y cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr ar 7 Hydref 2008. Derbyniodd y Cyngor ddychweliad o £3,938,407, sef 98% gan y gweinyddwyr hyd at 31 Mawrth 2017.

NODYN 28 – CYHOEDDIADAU'R GRONFA BENSIWN

Cynhyrchir adroddiad manwl ychwanegol ynghylch y Gronfa Bensiwn. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cyfrifon y Gronfa yn ogystal â gwybodaeth bellach ynglŷn â gweithgareddau gweinyddu a buddsoddi. Mae'n cynnwys y dogfennau canlynol:

Datganiad Egwyddorion Buddsoddi

Datganiad Strategaeth Gyllido

Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiad a'r Drefn Llywodraethu

Datganiad Polisi Cyfathrebu

Gellir cael copïau ar safle we'r Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwngwynedd.org.uk ar dudalen buddsoddiad neu drwy gysylltu â Mrs Caroline Roberts ar 01286 679128.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen, a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon a datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Cronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw, ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

29 Medi 2016

Y GRONFA DEGWM

2015/16		2016/17	
£'000		£'000	£'000
952	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill		952
	Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn:-		
5	Llog ar fuddsoddiadau		5
0	Cynnydd yng ngwerth tir		0
	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn:-		
0	Trosglwyddo llogau blynyddol blaenorol Gwynedd	0	
(16)	Colled ar fuddsoddiadau a werthwyd	(11)	
11	Grantiau a chostau	<u>6</u>	
			(5)
<u>952</u>	Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth		<u>952</u>
	A gynrychiolir gan yr Asedau canlynol:-		
365	Tir ac Adeiladau		365
30	Dyledwyr		23
1,798	Arian mewn llaw		1,803
<u>2,193</u>			<u>2,191</u>
(1,232)	Llai - Eifen yn ddyledus i Gyngorau Môn a Chonwy		(1,232)
961			959
(16)	Llai - Credydwyr		(13)
7	Ychwaneger - Eifen yn ddyledus gan Gyngorau Môn a Chonwy		6
<u>952</u>	Cyfanswm		<u>952</u>

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol - addysgol, cymdeithasol neu adloniadol, yn unol â disgresiwn y Cyngor.
2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN
--

2015/16 £'000		2016/17 £'000
160	Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill	167
	Ychwaneger - Incwm yn ystod y flwyddyn	
11	Llog enillwyd gan yr asedau	10
	Llai - Gwariant yn ystod y flwyddyn	
(4)	Grantiau	(3)
167	Cyfanswm y Gronfa 31 Mawrth	174
	Asedau	
144	Buddsoddiadau	144
23	Arian mewn llaw	30
167		174

NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Sefydlwyd y gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.
2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2017 oedd £351,416 (£313,376 ar 31 Mawrth 2016).
3. Mae'r Gronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i Gyngor Gwynedd sefydlu trefniadau sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o agweddau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côt Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Gyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2017 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A’U HEFFEITHIOLRWYDD

- 3.1 Mae’r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae’r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, dau Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol, yr Uwch Reolwr Refeniw & Risg a’r Rheolwr Risg & Yswiriant.
- 3.2 Yn sgil cyhoeddi fersiwn newydd o Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government* yn 2016, mae’r Grŵp wedi addasu trefniadau’r Cyngor ar gyfer adnabod ac asesu ei drefniadau llywodraethu er mwyn adlewyrchu’r Fframwaith newydd. Canlyniad hynny oedd gosod allan y fframwaith leol ar ffurf Cofrestr Risg Llywodraethu sydd yn rhan o’r Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan adnabod 22 maes o risg llywodraethu.
- 3.3 Rhoddir amlinelliad o’r Meysydd Llywodraethu, y risgiau perthnasol a threfniadau’r Cyngor er mwyn ymdrin â hwy, ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny, yng ngweddill y rhan yma o’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 3.4 Ar gyfer pob un o’r Risgiau Llywodraethu, dangosir sgôr risg cyfredol, sef y sgôr ar ôl asesiad gwrthrychol o’r trefniadau rheoli sydd yn eu lle rŵan. Rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:
- Effaith y risg petai’r digwyddiad yn cael ei wireddu
 - Y Tebygolrwydd iddo ddigwydd.
- 3.5 Mae’r sgoriau Effaith yn amrywio o 1 (effaith gweladwy) i 5 (effaith catastroffig), a’r sgoriau Tebygolrwydd o 1 (Annhebygol iawn) i 5 (digwydd rŵan). Cyfrifir y sgôr risg drwy luosi’r sgôr effaith a’r sgôr tebygolrwydd gyda’u gilydd.
- 3.6 Asesir lefel gymharol y risgiau fel a ganlyn:

Sgôr 20-25	Risg Uchel Iawn
Sgôr 12-16	Risg Uchel
Sgôr 6-10	Risg Ganolig
Sgôr 1-5	Risg Isel

Diwylliant

Risg: Fod diwylliant amhriodol o fewn y Cyngor yn llesteirio ein gallu i wneud y pethau iawn ac i'w gwneud yn y ffordd iawn

Asesiad:

Mae cael diwylliant priodol yn gallu hyrwyddo'r holl agweddau llywodraethu a nodir yn y gofrestr, ac yn yr un modd, mae cael diwylliant amhriodol yn gallu llesteirio'r holl agweddau llywodraethu.

O gael y diwylliant yn iawn, mae modd i hynny oruchafu popeth arall sy'n effeithio ein gallu i gyflawni gan y bydd yr egwyddorion llywodraethu da yn rhan annatod o ymddygiad dydd i ddydd pob unigolyn o fewn y sefydliad. Mae Strategaeth Ffordd Gwynedd bellach yn nodi mai un o brif amcanion y Cyngor yw rhoi Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mewn gwirionedd mae hyn hefyd yn disgrifio gwerthoedd y Cyngor - sef unrhyw beth sy'n gydnaws â'r amcan hwnnw.

Mae gwaith Ffordd Gwynedd eisoes wedi dechrau mewn 8 lleoliad gwaith o fewn y Cyngor gyda gwaith sylweddol pellach yn mynd ymlaen i geisio treiddio newid mewn diwylliant trwy'r Cyngor drwy amlygu beth mae'n olygu iddynt hwy a'u timau. Mae yna arwyddion parhaus bellach fod y diwylliant sydd ynghlwm â Ffordd Gwynedd yn gwreiddio yn y sgysiau sydd yn codi o fewn y Cyngor, ac hyd yn oed fel rhan o'r sgysiau sydd yn digwydd tu allan i'r Cyngor. Y gobaith yw y bydd rhaglen ddatblygu y bwriedir ei roddi i holl reolwyr y Cyngor yn dechrau yn 2017/18 yn dwysau treiddiad y diwylliant o fewn y sefydliad.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	4	16

Ymddygiad

Risg: Diffyg integriti, moeseg a pharch yn ymddygiad aelodau a swyddogion, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y Cyngor

Asesiad:

Mae ymddygiad priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau fod modd i drigolion y Sir gael hyder fod y rhai sydd yn cymryd penderfyniadau drostynt yn gwneud hynny mewn ffordd y gallent gael hyder ynddo.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; Y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau integriti a moeseg. Mae tystiolaeth o weithredu pan mae'n ymddangos fod y codau ymddygiad hyn wedi cael eu torri.

Mae yna rywfaint o dystiolaeth o densiwn wedi bodoli yn y gorffennol rhwng aelodau wrth i'r trefniadau Cabinet newydd gael eu gweithredu o fewn y Cyngor a'r newid rolau oedd yn gysylltiedig â hynny, a nid oes tystiolaeth i awgrymu fod y tensiynau hynny wedi diflannu'n llwyr, gydag adroddiad diweddar yr Archwiliwr Allanol ar Graffu yn atgyfnerthu'r neges honno. Serch hynny mae yna arwyddion fod y tensiynau yn dechrau lleihau. Mae tensiynau yn anorfod pan fydd unrhyw newidiadau arwyddocaol, ac i'w disgwyl.

Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsmon fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Cyfreithlondeb

Risg: Anwybyddu rheol y gyfraith, sy'n golygu fod y Cyngor yn agored i heriau yn y llysoedd.

Asesiad:

Mae'n rhaid i bopeth y mae'r Cyngor yn ei wneud gydymffurfio â'r gyfraith.

Rhaid i swyddogion statudol (y Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid) gynnig sylwadau ar unrhyw benderfyniad ffurfiol, fel rhan o Gyfansoddiad cynhwysfawr sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. Mae protocolau ffurfiol yn eu lle er mwyn gwarchod hawliau'r swyddogion statudol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	1	3

Bod yn agored

Risg: Cyngor sydd ddim yn agored, sy'n golygu nad oes modd ei ddal yn atebol am ei benderfyniadau

Asesiad:

Mae bod yn agored yn hanfodol ar gyfer atebolrwydd a democratiaeth iach.

Tra bod yna gyfraith sy'n caniatáu i adroddiadau gael eu hystyried yn eithriedig ar gyfer eu cyhoeddi, yr isafswm bosib o adroddiadau Pwyllgor sydd yn eithriedig, ac yn ogystal â chyhoeddi cofnodion pwyllgorau llawn, rhoddir cyhoeddusrwydd i daflenni penderfyniad aelodau unigol, gyda gweithdrefnau sy'n sicrhau fod hyn yn digwydd. Cyhoeddir papurau cefndir gydag adroddiadau pwyllgor er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn. Fe we-ddarllidir nifer o gyfarfodydd pwyllgorau sy'n cymryd penderfyniadau.

Bydd y Cabinet yn ystyried adroddiadau perfformiad yn rheolaidd fel rhan o'u cyfarfodydd sy'n agored a bydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol, Adroddiad Perfformiad Blynyddol, a'r Datganiad o'r Cyfrifon i geisio rhoi gymaint o wybodaeth ag y byddai trigolion ei angen i ni fod yn atebol.

Defnyddir dulliau amrywiol eraill hefyd megis y wefan, Newyddion Gwynedd a chyfryngau cymdeithasol i geisio sicrhau fod trigolion Gwynedd yn ymwybodol o beth sydd yn digwydd o fewn y Cyngor.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	1	2

Rhanddeiliad

Risg: Perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol, gan ddiweddu gyda gwasanaethau is-optimaid

Asesiad:

Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, Y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd yn gallu cael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd.

Mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd i ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n hwyluso egwyddor o'r fath. Ymysg y gofynion hyn mae'r angen statudol i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n cynnwys awdurdodau lleol a nifer o gyrff eraill. Mae yna waith wedi digwydd i gynnal asesiad o lesiant, sydd yn rhan o waith cychwynnol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a hwnnw wedi ei gyhoeddi.

Bydd y Cyngor yn ystyried yr asesiad hwnnw wrth lunio ei Gynllun ei hun o 2018 ymlaen.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gyflwynwyd fel canlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel ffordd o gynnal perthynas adeiladol gyda rhanddeiliaid eraill o'r sector gyhoeddus. Mae'r Meini Prawf Partneriaethau wedi cael eu sefydlu ers sawl blwyddyn, fel bod Cyngor Gwynedd dim ond yn mynd i bartneriaethau pan mae hynny er lles pobl Gwynedd.

Mae cydweithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol sydd ddim bob tro mor effeithiol ag y gallai fod oherwydd maint yr ôl troed a'r trafferthion o adeiladu perthynas gyda nifer mor fawr o bobl. Mae yna rai enghreifftiau o lwyddiant (e.e. Bwrdd Uchelgais) ac un o ymatebion y Cyngor i'r Papur Gwyn diweddar oedd fod angen ceisio cydweithio yn ôl y budd fyddai'n deillio yn hytrach na glynu'n ddogmataidd i un model. Nodwyd hefyd fod angen sicrhau nad oes unrhyw gydweithio yn llesteirio atebolrwydd lleol am wasanaethau.

Mae yna gydweithio hefyd yn digwydd ar lefel sirol gyda llwyddiant yn amrywiol.

Mae gwaith adolygiad system yn y maes Gofal, sy'n cynnwys cydweithio agos gyda lechyd ac eraill, yn dangos arwyddion addawol. Mae yna waith wedi digwydd i adnabod cynlluniau y dylid eu comisiynu ar gyfer y dyfodol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	4	12

Ymgysylltu

Risg: Methiant i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a dinasyddion unigol, gan arwain at beidio gwneud pethau yn iawn

Asesiad:

Mae ymgysylltu'n glir gyda Pobl Gwynedd, er mwyn sefydlu cyfathrebu clir a cael wir ddealltwriaeth o'n anghenion, yn un o elfennau pwysicaf o'r trefniadau llywodraethu.

Yn ystod 2015/16, dangosodd Her Gwynedd, sef cynllun i drafod y sefyllfa ariannol gyda trigolion Gwynedd, fel cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn ein trefniadau Ymgysylltu.

Roedd yn ymarferiad Her Gwynedd yn hynod o lwyddiannus gan ddenu ymateb gan dros 2,000 o drigolion Gwynedd a alluogodd y Cyngor i wneud penderfyniadau rhesymegol o ran blaenoriaethau i'r dyfodol yng ngoleuni barn y bobl yr ydym yn ei gwasanaethu. Tra bod angen sicrhau ein bod yn treiddio'r ymarfer da yma ymysg holl adrannau'r Cyngor mae'r sgôr bellach yn adlewyrchu'r gwelliant a welwyd yn y maes yma o gofio Her Gwynedd a'r gwaith a wnaed ym maes Gwastraff yn benodol.

Bwriad Strategaeth Ymgysylltu'r Cyngor yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn barn y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill fel bo'n briodol, gyda'r Uned Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cefnogi gwasanaethau i ymgynghori yn y dull addas, a chefnogi wrth ddadansoddi canlyniadau.

Ymhellach, mae'r Tîm Ymchwil a Gwybodaeth yn cefnogi gwasanaethau i wneud gwell defnydd o'r wybodaeth sydd gennym, er mwyn cynyddu cynwysoldeb. Mae canllawiau er mwyn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi gwneud i ni ystyried unedau llai nag ôl troed y Cyngor, ac fe rannwyd y Sir i mewn i 8 ardal llesiant. Ymgynghorwyd gyda thrigolion yr ardaloedd hynny wrth lunio'r asesiad llesiant.

Llwyddwyd i gyflawni holl elfennau'r Strategaeth Ymgysylltu, ond dengys dadansoddiad diweddar nad ydym eto wedi cyrraedd pen y daith.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cyfeiriad a gweledigaeth

Risg: Cyfeiriad a gweledigaeth sydd ddim wedi ei wreiddio yn y canlyniadau i unigolion, gan ddiweddu gyda rhywbeth ar bapur sydd ddim yn gwireddu anghenion Pobl Gwynedd

Asesiad:

Y Cynllun Strategol yw'r datganiad lefel uchel sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor am anelu i'w gyflawni yn ystod oes y Cyngor a hwn sy'n sicrhau ein bod yn glir ac yn agored am yr hyn y bwriedir ei gyflawni. Mae'r Cynllun cyfredol yn dod i ben yn 2018, a bydd y gwaith o lunio'r cynllun newydd yn cychwyn yn syth ar ôl etholiad Mai 2017.

Mae'r Cynllun cyfredol yn cynnwys nifer o brosiectau er mwyn sicrhau gwelliant i bobl Gwynedd, ac mae trefniadau yn eu lle er mwyn monitro cynnydd ar brosiectau unigol o fewn y Cynllun. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod natur y Cynllun presennol yn golygu nad ydi'n hawdd dehongli ohono beth yw gwaith craidd y Cyngor. Mae'r Cynllun ar ei ffurf bresennol yn gatalog o'r pethau sydd angen eu newid o fewn y Cyngor ac yn ardal Gwynedd, yn hytrach na chynllun cynhwysfawr ar gyfer yr Awdurdod. Mae yna waith wedi digwydd i weld sut y gellir newid hyn gyda golwg ar newid ffurf Cynllun 2018 ymlaen.

Yn ogystal â chynnwys y ddogfen mae yna elfen o aneglurder o hyd yn y Cynllun ynglŷn a beth yn union fydd y budd fydd yn deillio i bobl Gwynedd o fod yn cyflawni rhai prosiectau a beth yn union yr ydym yn sôn am wneud.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cynaliadwyedd

Risg: Risg o greu atebion anghynnaladwy sydd ddim yn cydymffurfio gyda 5 egwyddor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac felly ddim yn edrych ar yr hirdymor

Asesiad:

Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd gweithredu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, ar y cyd â'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi gwneud gwaith cychwynnol i adnabod yr hyn sydd angen ei wneud er mwyn gweithredu yn unol â'r 5 egwyddor - Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Cynnwys.

Mae'r Cyngor eisoes yn cydymffurfio â'r holl egwyddorion ond i raddau gwahanol. 'Rydym wedi cyflwyno eglurhad o egwyddorion y Ddeddf i'r Grŵp Rheoli sydd wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Pryd bynnag y mae adroddiadau yn dod ger bron y Cabinet bydd yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol hefyd yn eu hadolygu er mwyn cadw golwg allan am leoedd lle efallai nad yw'r egwyddorion wedi eu dilyn cystal ag y gallent fod. Drwy hyn y gobaith yw y byddwn yn gwreiddio'r egwyddorion yn naturiol yn hytrach na thicio bocsys ond amser a ddengys a fyddwn yn llwyddiannus. Mae'r egwyddorion yn golygu cynnwys pob carfan o gymdeithas wrth gwrs ac mae gan y Cyngor eisoes drefniadau priodol i sicrhau ein bod yn gwella ein darpariaethau ar gyfer rhai â nodweddion gwarchoddedig.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Penderfyniadau

Risg: Amharodrydd i wneud penderfyniadau ar weithredu, sy'n golygu oedi mewn gwireddu canlyniadau i bobl Gwynedd

Asesiad:

Mae yna berygl i benderfyniadau beidio cael eu gwneud oherwydd eu bod rhy anodd neu amhoblogaidd ond mae yna dystiolaeth dros y blynyddoedd diwethaf nad dyna yw'r achos o fewn Gwynedd gyda phenderfyniadau wedi eu cymryd i edrych ar faes ysgolion, allanoli ei Dai Cyngor a gweithredu ar ganlyniadau anodd Her Gwynedd.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	6

Cynllunio Gweithrediadau

Risg: Ymyrryd heb gynllunio'n ddigonol, fyddai'n gallu golygu unai gweithredu ar fypwy neu gynllunio'n ormodol gan wastraffu amser ac adnoddau

Asesiad:

Mae'r Cyngor yn ymdrechu i gynnal balans addas rhwng cael gweithdrefnau Rheoli Prosiectau a gweithio'n effeithlon. Yn hynny o beth, mae'r Cyngor eisoes yn cynnal trefniadau rheoli prosiect cadarn ar gyfer y prosiectau mwyaf, gan ddefnyddio fersiwn llai cynhwysfawr ond yn seiliedig ar yr un egwyddorion ar gyfer prosiectau eraill. Er mwyn sicrhau fod y pethau cywir yn cael eu mesur mae mesurau cyflawni pob gwasanaeth yn seiliedig ar gyflawni pwrpas gan geisio sicrhau fod unrhyw weithred yn gwella ein gallu i gyflawni hynny.

Ceisir taro cydbwysedd rhwng yr angen am drefn a'r angen i gyflawni cyn gynted ag bod modd drwy wneud cyn lleied o waith papur ag sy'n gyson gyda hynny, gan annog adroddiadau syml a byr yn gosod allan y prif bwytiau allweddol.

Mae gan y Cyngor Strategaeth Ariannol Tymor Canol, gyda cyllidebau blynyddol yn seiliedig ar hwnnw. Mae gwaith y Cyngor ar gynllunio ariannol yn cael ei ganmol yn rheolaidd gan yr archwilwyr allanol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymryd rôl flaenllaw ar graffu ariannol. Wrth adolygu ein trefniadau craffu byddwn yn cynnwys mwy o flaen graffu a'r gobaith yw y bydd hyn yn helpu'r Cabinet i ddewis y camau priodol i'w cymryd mewn amrywiol feysydd.

Fodd bynnag os am wneud hynny rydym wedi cydnabod eisoes nad drwy gael Pwyllgor Craffu i edrych ar rywbeth yn syth cyn ei fabwysiadu yw'r ffordd o wneud hynny ond yn hytrach i aelodau Craffu fod yn rhan o'r asesu ar y cychwyn cyntaf. Golyga hyn fod angen i faterion fod yn hysbys yn gynnar yn y broses a Chraffu yn cael ei ddefnyddio yn ddigon buan. Amser a ddengys a fydd y trefniadau newydd yn gwneud hynny.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Adolygu deilliannau

Risg: Methiant i adolygu deilliannau ein gweithredoedd, sy'n golygu nad ydym yn dysgu gwersi gan barhau i wneud yr un pethau yn anghywir

Asesiad:

Mae trefniadau asesu risg, llunio Cynllun Corfforaethol a rheoli prosiect y Cyngor yn sicrhau fod y deilliannau a fwriedir eu cyflawni ar gychwyn unrhyw brosiect yn glir. Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ceisio canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae'r deilliannau hynny wedi cael eu cyflawni. Mae yna enghreifftiau lle mae hynny wedi digwydd yn dda ond enghreifftiau eraill lle nad yw mor glir ei fod wedi digwydd.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Asedau Eiddo

Risg: Asedau Eiddo'r Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Mae asedau ffisegol boed yn adeiladau, yn gerbydau neu yn strwythurwaith yn hanfodol i gyflawni i bobl Gwynedd ond mae angen sicrhau fod yr asedau hynny yn cwrdd â gofynion ein trigolion tra'n sicrhau nad ydym yn gwario'n ddianghenraid ar asedau lle mae'r gost o'u darparu yn uwch na'r budd sy'n dod ohonynt.

Mae gan y Cyngor Strategaeth Asedau yn ei le ar gyfer y cyfnod 2009 – 2018 sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Canlyniad hyn yw fod nifer o adeiladau nad oedd mo'u hangen mwyach wedi cael eu gwaredu.

O ran y cerbydau mae yna gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd y Cyngor sydd eisoes wedi cyflwyno rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Asedau Technoleg Gwybodaeth

Risg: Asedau TG y Cyngor ddim yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial

Asesiad:

Mae defnyddio technoleg mewn ffordd effeithiol yn arf hanfodol i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion ein trigolion, gan wneud hynny mewn ffordd cost effeithiol.

Mae'r gweithgareddau Technoleg Gwybodaeth dros y blynyddoedd a fu wedi canolbwyntio ar sicrhau isadeiledd priodol er mwyn gwarantu cefnogaeth sylfaenol i wasanaethau. Tra bod yna enghreifftiau lle 'rydym wedi medru defnyddio technoleg gwybodaeth yn ehangach i wella sut yr ydym yn cyflawni gwasanaethau i drigolion Gwynedd, nid oes yna dystiolaeth fod hyn yn gyson ar draws yr awdurdod a'i fod yn digwydd ar y cyflymder yr hoffem iddo ddigwydd.

Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth sydd wedi ei fabwysiadu ar gyfer y cyfnod i ddod yn ceisio ymestyn ar y defnydd a wneir o dechnoleg er mwyn cefnogi'r amcanion gwella yn y Cynllun Strategol, gan hefyd wella gallu gwasanaethau i fanteisio ar y cyfleoedd sydd yna i ddefnyddio technoleg yn effeithiol.

Mae yna elfen o dystiolaeth fod hyn yn dwyn ffrwyth gyda hunan wasanaeth yn dod yn fwy a mwy yn rhan o ddefnyddio technoleg i'w gwneud yn haws i drigolion gwasanaethau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	6

Cynllunio'r Gweithlu

Risg: Gweithlu'r Cyngor ddim yn cael ei ddatblygu, sy'n golygu nad ydym yn gallu darparu gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd

Asesiad:

Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Golyga hynny fod angen i ni hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu eu talent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi.

Mae trafferthion llenwi rhai swyddi uwch o fewn y Cyngor yn awgrymu fod angen gwella ein gallu i greu dilyniant ar gyfer uwch swyddi, o leiaf. Mae hyn wedi ei adnabod fel sail i ddatblygu talent fewnol o fewn y Cynllun Pobl. Ymhellach, mae trafferthion recriwtio ar gyfer rhai swyddi mewn ardaloedd daearyddol penodol o fewn Gwynedd (e.e. gweithwyr gofal ym Meirionnydd).

Mae trefn gwerthuso 360° i benaethiaid, uwch reolwyr a rhai rheolwyr wedi ei sefydlu, ond mae angen parhau ei ddatblygu. O fod yn dymuno lledaenu un diwylliant o fod yn rhoi pobl Gwynedd yn y canol, mae angen dull ar gyfer sicrhau fod hynny yn digwydd yn gyson ar draws y Cyngor a bydd angen gallu rhoi'r arfau priodol i reolwyr a staff i fedru gwneud hynny yn allweddol.

Mabwysiadwyd Cynllun Pobl ar gyfer 2016-18 gan y Cabinet yn Tachwedd 2016, fydd yn ceisio gwella ei trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, gwella ein trefniadau Cynllunio'r Gweithlu, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Arweinyddiaeth

Risg: Diffygion yn arweinyddiaeth y Cyngor yn golygu nad ydym yn gwneud y pethau cywir

Asesiad:

Mae Arweinyddiaeth yn gosod y safon y mae disgwyl i bob aelod a gweithiwr yn y Cyngor yn ei ddilyn. Mae ei impact, felly, yn enfawr - gall Arweinyddiaeth dda oresgyn popeth arall, tra gallai Arweinyddiaeth wael ddistrywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Hwn sy'n hwyluso gwreiddio diwylliant y Cyngor.

Mae rolau y Cyngor, Cabinet, Aelodau Unigol a Prif Swyddogion, ynghyd â chynllun dirprwyo clir, wedi eu gosod allan yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi blaenoriaethu datblygu ei Rhaglen Arweinyddiaeth ac mae hwnnw yn rhan o'r Cynllun Pobl a fabwysiadwyd gan y Cabinet.

Tra bod yna ymrwymiad clir i fod yn ceisio gwella arweinyddiaeth yn barhaus, nid ydym bob tro wedi bod yn glir beth y mae hynny yn ei olygu na sut i'w wella. Mae yna bryder nad ydym yn gwahaniaethu digon rhwng staff ac aelodau wrth feddwl amdano.

Mae yna elfen o dystiolaeth (drwy hunan asesiad) fod arweinyddiaeth o fewn y Cyngor yn gwella gyda nifer o enghreifftiau o arweinyddiaeth trawsffurfiol yn cael ei arddangos yn hytrach nag arweinyddiaeth trafodaethol.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
4	3	12

Rheoli Risg

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli risg, sy'n cynyddu'r bygythiad o rhywbeth yn mynd o'i le neu fethu cymryd cyfle i wella

Asesiad:

Mae ein trefniadau rheoli risg yn rhan annatod o drefniadau rheoli'r Awdurdod. Mae trefniadau rheoli risg cadarn, cywir a chymesur yn cefnogi arloesi, nid ei lesteirio.

Dangosodd hunan asesiad o drefniadau rheoli risg y Cyngor fod y drefn o adnabod prif risgiau yn digwydd yn reddfod ond fod yna fylchau o fod yn systematig wrth gofnodi'r risgiau hynny ac mewn un neu ddau o enghreifftiau bod hynny yn arwain at ddiffyg gweithredu neu weithredu lle nad oes angen.

Mae trefniadau yn eu lle er mwyn i bob adran gynnal cofrestr risg adrannol, ac mae cofrestrau traws-adrannol hefyd yn eu lle, gyda protocolau i'w cefnogi. Er hyn, y perygl yw mai dilyn trefn a wneir ac mae treiddiad rheolaeth risg ymysg unedau busnes unigol yn parhau ychydig yn anghyson.

Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth a risgiau lechyd a Diogelwch a tystiolaeth meintiol fod perfformiad yn y maes yn gwella - er fod yna enghreifftiau o le i wella ymhellach.

Mae arbrofion systemau yn dangos nad yw'r holl weithlu yn ymwybodol o'r risgiau all lesteirio cyflawni i bobl Gwynedd ac yn eu perchnogi - mae rheoli risg yn dueddol o gael ei weld fel bod yn fater i Reolwyr. Mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni yn maes Cynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth, er mwyn paratoi'r awdurdod yn well ar gyfer digwyddiadau anrhwngeladwy.

Mae trefniadau i ymdrin â risgiau o gwmpas Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion yn parhau i dderbyn sylw, er mwyn cynnal y cynnydd a wnaed ers 2013. Gwaith ychwanegol a bennwyd i'r Panel Diogelu yn ystod 2016/16 yw'r agenda "PREVENT", mewn perthynas â radicleiddio.

Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn parhau i ddatblygu, a byddant yn esblygu ymhellach wrth i ddiwylliant a Ffordd Gwynedd dreiddio trwy'r Cyngor, ac wrth baratoi Cynllun Strategol 2018-2022.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
5	2	10

Perfformiad

Risg: Gwendidau yn ein trefniadau rheoli perfformiad sy'n golygu nad ydym yn gallu cymryd camau priodol er mwyn gwireddu ein pwrpas

Asesiad:

Yn y gorffennol, roedd y canfyddiad fod effeithiolrwydd Rheoli Perfformiad yn gymharol isel yn adlewyrchu anghysondeb ar draws y Cyngor. Erbyn hyn, mae swyddogion ac aelodau yn cwestiynu yn barhaus os ydym yn mesur y pethau iawn. Mae yna gyfarfodydd rheolaidd gydag Aelodau Cabinet a rheolwyr i asesu'r perfformiad diweddaraf gydag aelodau o'r Pwyllgor Craffu perthnasol hefyd yn bresennol i roi her. Cyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd gan yr aelodau Cabinet ar eu meysydd hwy o gyfrifoldeb i gyfarfodydd y Cabinet.

Mae cyfundrefn Rheoli Perfformiad y Cyngor wedi esblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn anad dim, rydym bellach yn canolbwyntio ar sicrhau fod unedau busnes yn cyflawni eu pwrpas, a hynny trwy adolygu'n barhaus os ydym yn mesur y pethau cywir. Mae llawlyfr perfformiad wedi cael ei ddatblygu, sydd ddim yn ragnodol, ond yn gosod allan yr egwyddorion cyffredin i'w dilyn.

Fodd bynnag, tra bod gwelliant sylweddol wedi bod mae yna dystiolaeth nad yw eto wedi treiddio i bob twll a chornel yn y Cyngor ac yn cael ei ddeall gan bawb.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn arsylwi ar ein perfformiad mewn gwahanol feysydd drwy gyhoeddi amrywiol adroddiadau ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau fod unrhyw argymhellion yn derbyn sylw. Tra bod adroddiadau yn cynnwys beirniadaeth adeiladol, bydd y Cyngor yn ceisio gweithredu ar y materion a godir, ond weithiau efallai fod yna wrthdaro rhwng ymdeimlad y Cyngor o beth ddylai gael sylw a rhai materion a godir o ran yr ymdrech sydd ei angen ei roddi iddynt, a'r lefel risg y maent yn ei gynrychioli. Fodd bynnag, nid yw'r enghreifftiau yma yn niferus; nid oedd argymhellion yn yr adroddiad diweddaraf, ac mae'r negeseuon yn gyffredinol bositif.

Mae cwynion hefyd yn ffordd allweddol o gael gwybodaeth i wella. Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol newydd yn parhau i ddatblygu'n dda, ac mae'r Swyddog Gwella Gwasanaethau yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn ceisio osgoi ailadrodd camgymeriadau.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	6

Rheolaeth Fewnol

Risg: Trefniadau rheolaeth fewnol anaddas, sy'n golygu unai nad ydym yn gwarchod rhag risgiau, neu yn gwastraffu adnoddau ar or-reoli

Asesiad:

Mae cael lefelau addas o reolaeth fewnol yn greiddiol i'r nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Hynny yw, a yw'r tasgau mae staff yn eu gwneud yn ychwanegu gwerth mewn gwirionedd, neu ydynt yn weithredoedd biwrocraidaidd sy'n cael ei gwneud heb llawer o feddwl am eu gwir bwrpas?

Mae cael gwared o rwystrau yn ran o waith pawb, gan arwain at lefel addas o reolaeth fewnol. Ar y llaw arall, mae egwyddorion stiwardiaeth cyhoeddus yn golygu nad yw'n ddymunol cael gwared â pob rheolaeth fewnol (h.y. mae rhai risgiau nad ydynt yn dderbyniol), ac yn hynny o beth mae cyfuniad o weithdrefnau rheoli risg a gwasanaeth Archwilio Mewnol sy'n cwrdd â safonau proffesiynol yn arf hollbwysig.

Mae effeithiolrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac er fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl, mae angen ystyried ymhellach os yw'n adolygu'r pethau cywir, ac os yw'n gweithredu mewn dull sydd yn gydnaws â Ffordd Gwynedd. Mae capasiti'r gwasanaeth wedi lleihau yn arwyddocaol ers 1 Ebrill 2015, i lawr o 10 i 7 swyddog llawn amser. Disgwylir y bydd mabwysiadu egwyddorion Ffordd Gwynedd yn sicrhau fod effeithiolrwydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal, ond efallai y bydd peth gostyngiad yn y tymor byr.

Mae Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd wedi ei sefydlu ers 1999, ac mae ganddo gylch gorchwyl cytunedig.

Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn effeithiol iawn yn gwireddu rhai o'r swyddogaethau y mae wedi ei arddel ers tro, ond parhau i ddatblygu y mae ei allu i ymdrin â chyfrifoldebau newydd a ddaeth i'w ran gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Gwybodaeth

Risg: Methiant i reoli gwybodaeth gan arwain at fethu gwarchod y gwybodaeth sydd gennym, neu beidio gwneud y defnydd gorau ohono.

Asesiad:

Mae bod â'r wybodaeth gywir yn hanfodol os yw'r Cyngor am ddarparu'r gwasanaethau cywir i'r pobl gywir yn y ffordd gywir. Mae angen i'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu a'i gadw fod yn gyfredol a pherthnasol, nid yn unig er mwyn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data ond hefyd er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn rhai sy'n gwneud y pethau iawn. Llywodraethu Gwybodaeth dda yw sylfaen penderfyniadau da.

Er gwaethaf ymdrechion i wella trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth, mae'r Cyngor yn parhau i gadw llawer iawn o wybodaeth, ac mae angen parhau i weithio i sicrhau nad yw'n cynnal mwy o ddata na'r hyn sydd ei angen.

Disgwylir y bydd y prosiect i gyflwyno system ERDMS yn cyfrannu at welliant arwyddocaol yn hyn, ac mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu hefyd wedi comisiynu gwaith pellach ar y trefniadau o fewn adrannau unigol.

Tra bod enghreifftiau lle mae gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau effeithiol, mae yna le i herio a yw'r ymarfer cystal ag y gallai fod ac mor eang ar draws holl unedau gwasanaeth y Cyngor.

Mae gwaith ymchwil wedi dangos fod angen parhaus i godi ymwybyddiaeth am egwyddorion Diogelu Data, a gwella ymagweddiad yn y maes. Mae'r gwaith yma yn parhau fel rhan o Gynllun Strategol y Cyngor, ac yn dangos cynnydd.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	3	9

Cyllid

Risg: Gwendidau wrth rheoli arian cyhoeddus, sy'n golygu nad yw cyllid y Cyngor yn cael ei ddefnyddio ar ei flaenoriaethau

Asesiad:

Y Strategaeth Ariannol sy'n gosod cyd-destun allweddol ar gyfer popeth y mae'r Cyngor am ei wneud. Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer y Cyngor yn awgrymu y bydd rhaid darganfod arbedion sylweddol yn y blynyddoedd nesaf. Y Strategaeth Ariannol sydd yn gosod allan sut y byddwn yn gwireddu hyn, ac felly mae'r ddatganiad hollbwysig, sydd yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn delio â'r sefyllfa.

Mae tystiolaeth glir yn bodoli fod trefniadau'r Cyngor yn gadarn, ac mae adolygiadau gan archwilwyr allanol - nid yn unig o'r Datganiadau Blynyddol o'r Cyfrifon ond hefyd adolygiadau o gydnerthedd ariannol - yn cynnig barn annibynnol sy'n cadarnhau hyn.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
3	1	3

Atebolrwydd

Risg: Adrodd gwael, heb dryloywder ac anaddas i'r gynulleidfa, sydd ddim yn amlygu i'r cyhoedd yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar eu cyfer gan danseilio'r sefyllfa ddemocrataidd

Asesiad:

Mae'r Cyngor wedi darparu canllawiau ar baratoi adroddiadau ac ar wneud penderfyniadau da, er mwyn sicrhau fod yr adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn eglur. Yn ogystal ag adroddiadau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau, mae'r adroddiadau a gynhyrchir hefyd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol, y Cynllun Strategol (fydd yn cwmpasu cynlluniau busnes adrannol) a'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol a gynhyrchir yn unol â fframwaith CIPFA/Solace. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar ei sefyllfa ariannol.

Fodd bynnag er gwaethaf ymdrechion y Cyngor, ac heblaw am achosion lle mae newid eithaf sylfaenol dan sylw, ymddengys nad oes yna ddyhead mawr ymysg y cyhoedd i fod yn dal y Cyngor yn atebol. Fe all hynny fod oherwydd eu bod yn fodlon gyda'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud neu nad yw'n flaenoriaeth ganddynt.

Hyd yn oed gydag ymgynghoriad Her Gwynedd lle 'roeddem yn blaenoriaethu (ac am gau) rhai gwasanaethau eithaf allweddol dim ond 2,000 o drigolion ymatebodd allan o boblogaeth 18+ o bron i 100,000.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	2	4

Sicrwydd

Risg: Diffyg sicrwydd ac atebolrwydd sy'n codi amheuaeth ymysg y cyhoedd am yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud

Asesiad:

Mae nifer o ffyrdd ar gael o fewn y Cyngor er mwyn darparu sicrwydd annibynnol fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithio fel y dylent. Mae swyddogion statudol yn sicrhau fod materion yn cydymffurfio â'r gyfraith a threfniadau'r Cyfansoddiad tra bod y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr yn herio yn barhaus a yw adrannau yn gwneud y pethau iawn. Mae aelodau'r Cabinet hefyd yn cwrdd yn aml i herio eu gilydd ar ddatblygiadau.

Yn ffurfiol fodd bynnag y drefn craffu sydd i fod i ddal y Cabinet i gyfrif. Mae trefniadau Craffu wedi bod yn destun adolygiad manwl yn 2016/17, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cadw trosolwg ar y trefniadau llywodraethu yn ogystal ag ar weithrediad argymhellion archwilwyr allanol.

Yn cefnogi hyn y mae gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd yn gweithredu yn unol â'r safonau proffesiynol statudol, sef Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus.

Yn ystod 2015/16 cyhoeddwyd adroddiad Archwiliwr Allanol yn nodi yn ei farn ef fod yna broblemau sylweddol gyda'r Drefn Craffu o hyd, ac mae Adolygiad 360° mewnol y Cyngor hefyd wedi cadarnhau bod nifer o elfennau o fewn y drefn sydd angen sylw pellach er mwyn eu gwella.

Mae craffu a herio penderfyniadau a pholisïau yn dryloyw a gwrthrychol ond mae ansicrwydd ynglŷn a pha mor effeithiol y mae hynny. Mae hyn wedi cael sylw yn yr Adolygiad Craffu a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn 2016/17 ond yn ei gyfarfod ar 3 Mai fe benderfynodd y Cyngor fynd yn groes i argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a mabwysiadu trefn wahanol ar gyfer y dyfodol.

Bydd y drefn newydd yn cael ei roi ar waith a'r cynigion sydd yn edrych ar finio ymhellach ar bwrpas craffu a'r gwerth y mae'n ychwanegu a mwy o graffu cyn penderfyniad. Mae rhai o gynigion y cynllun gweithredu hynny eisoes ar waith gydag eraill yn cael sylw gyda golwg ar y drefn craffu ar ôl etholiadau Mai 2017.

Sgôr Risg Cyfredol:

Effaith	Tebygolrwydd	Sgôr risg
2	3	6

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

- 4.1 Dengys y sgoriau uchod na ystyrir fod unrhyw un o'r 22 maes llywodraethu yn cyflwyno risg uchel iawn, ond mae 3 yn risg uchel ac 11 yn risg canolig.
- 4.2 Mae camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â blaenoriaeth uchel neu ganolig wedi eu nodi isod. Lle mae prosiect penodol o fewn y Cynllun Strategol wedi ei nodi fel ymateb, caiff cynnydd ei adrodd yn rheolaidd i'r Cabinet yn Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet perthnasol.

RISGIAU UCHEL

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Diwylliant y Cyngor	<p>Mae Diwylliant y Cyngor yn derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Ffordd Gwynedd o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect Ffg1 – Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith.</p> <p>Erbyn diwedd Mawrth 2018, disgwylir cwblhau 15 adolygiad gwasanaeth ffurfiol a hyfforddi mwyafrif y Rheolwr Gwasanaeth yn egwyddorion Ffordd Gwynedd (gan gynnwys egwyddorion rheoli perfformiad cadarn) fel y gallant gynnal eu hadolygiadau eu hunain.</p>	Cefnogaeth Gorfforaethol

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Rhanddeiliad	<p>Parhau i sicrhau fod unrhyw gydweithio yn digwydd pan mae hynny er lles Pobl Gwynedd. Byddwn yn parhau i geisio sicrhau fod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ychwanegu gwerth i drigolion Gwynedd a cheisio symleiddio perthynas y corff hwnnw gyda'r amrywiol fyrddau eraill rhanbarthol sy'n cael eu sefydlu. Byddwn hefyd angen adolygu ein perthynas gyda'r Trydydd Sector i sicrhau ei fod yn uchafu'r budd sy'n gallu deillio o gael perthynas dda gyda'r sector.</p> <p>Asesu trefniadau gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â Nodau Llesiant ac Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a cynnal yr ymdrech i blethu'r egwyddorion cynaliadwyedd yn y ffyrdd o weithio.</p>	Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Arweinyddiaeth	<p>Parhau i ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen Arweinyddiaeth trwy weithredu Prosiect FfG2 yn y Cynllun Strategol - Rhaglen datblygu arweinwyr. Mae hynny'n golygu canolbwyntio ar ddatblygu'r arweinyddiaeth ymysg Aelodau'r Cabinet yn dilyn yr Etholiad ym Mai 2017.</p>	Cefnogaeth Gorfforaethol

RISGIAU CANOLIG

Maes Llywodraethu	Trefniadau i Ymateb	Adran Gyfrifol
Ymgysylltu	Parhau i gryfhau trefniadau Ymgysylltu trwy weithredu Prosiect FfG3 yn y Cynllun Strategol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu trefniadau mewnol, cryfhau'r adnodd a'r gefnogaeth ymgysylltu ganolog a sicrhau fod brand Cyngor Gwynedd yn ymddangos yn flaenllaw ar wasanaethau a chynlluniau sy'n cael eu cyllido gan y Cyngor.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Cyfeiriad a gweledigaeth	Wrth baratoi Cynllun Corfforaethol newydd bydd y Cyngor yn rhoi sylw i gynnwys y cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn manylu'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud ar hyn o bryd a pha gynlluniau y bydd yn dymuno eu comisiynu er mwyn gwneud pethau gwahanol. Bydd angen i ni sicrhau drwy wneud hynny ein bod yn nodi'n glir ac yn syml beth yn union yr ydym yn bwriadu ei wneud a beth yw'r buddion fydd yn dod i dŷ pobl Gwynedd o gyflawni'r cynlluniau.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Cynaliadwyedd	Parhau i asesu trefniadau gwaith er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â Nodau Llesiant ac Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a chynnal yr ymdrech i blethu'r egwyddorion cynaliadwyedd yn ffyrdd o weithio'r Cyngor.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Penderfyniadau	Derbyn y lefel risg bresennol.	Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Adolygu deilliannau	Derbyn y lefel risg bresennol.	Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol
Asedau Technoleg Gwybodaeth	Gweithredu yn unol â'r rhaglen waith sydd wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth - prosiect FfG5 yn y Cynllun Strategol.	Cyllid
Cynllunio'r Gweithlu	Bydd y Cynllun Pobl newydd yn cael ei gwblhau, a bydd y gwaith o'i weithredu yn cychwyn.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Rheoli Risg	Bydd y camau sylweddol sydd wedi cael eu cymryd yn ystod 2016/17 yn cyflymu eto, er mwyn sicrhau fod trefniadau rheoli risg yn dod yn rhan annatod o waith cynllunio gwasanaeth ac o ddiwylliant y Cyngor. Am y tro cyntaf, yn 2017/18 bydd cynnwys cofrestrau risg yn cael eu hystyried wrth fonitro perfformiad adrannau.	Cyllid
Perfformiad	Bydd y trefniadau sydd wedi cael eu sefydlu dros y blynyddoedd diwethaf yn parhau i gael eu mireinio, fel eu bod yn dod yn gynyddol effeithiol.	Cefnogaeth Gorfforaethol

Gwybodaeth	Prosiect FfG7 yn y Cynllun Strategol - Llywodraethu Gwybodaeth. Erbyn diwedd Mawrth 2018 bydd y Cyngor wedi symud ymlaen i asesu sut mae adrannau yn defnyddio eu gwybodaeth ar gyfer eu gwaith dydd i ddydd a blaen gynllunio, wedi trefnu i roi mwy o wybodaeth y Cyngor ar y wefan fel ei fod ar gael i eraill ei defnyddio ac wedi gosod trefniadau i baratoi ar gyfer deddfwriaeth diogelu data newydd.	Cefnogaeth Gorfforaethol
Sicrwydd	Mabwysiadu'r trefniadau Craffu newydd yn dilyn Etholiad 2017. Parhau i esblygu rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, gan gynnwys ystyried digonolrwydd yr wybodaeth a derbynir am drefniadau llywodraethu partneriaethau, cyd bwyllgor ayb.	Cefnogaeth Gorfforaethol

Rhan 5: BARN

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.



DILWYN O WILLIAMS
PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD 18-7-2017



Cyng. DYFRIG SIENCYN
ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD 18/07/17



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cyngor Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Cyhoeddwyd: Medi 2017

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog. gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd y tîm Deloitte a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Howse – Partner Ymgysylltu, Clare Edge – Rheolwr Ymgysylltu a Rhodri Lewis – Arweinydd Tîm.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi **adroddiad archwilio diamod** ar eich datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw faterion i'ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad cryno

Cyflwyniad	4
Statws yr archwiliad	4
Adroddiad archwilio arfaethedig	4
Canlyniadau'r archwiliad	5
Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17	8
Annibyniaeth a gwrthrychedd	8

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	10
Atodiad 2 - Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd	12
Atodiad 3 – Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft a ddylai gael ei ddwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio	14
Atodiad 4 – Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17	15
Atodiad 5 – Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16	17

Adroddiad cryno

Cyflwyniad

- 1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Mae gan Cronfa Bensiwn Gwynedd adroddiad canlyniadau archwilio ar wahân sy'n rhoi manylion am berthnasedd yr archwiliad a'r canfyddiadau mewn perthynas ag archwiliad 2016-17.
- 2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
- 3 Y swm meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyngor Gwynedd yw £7,640,000. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
- 4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
- 5 Mae'r adroddiad hwn yn nodi, i'w hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2016-17, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

Statws yr archwiliad

- 6 Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ar 30 Mehefin 2017, ac rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth, ac ar y dyddiad y gwnaethom gyflwyno'r adroddiad hwn, roedd y gwaith archwilio canlynol heb ei gwblhau:
 - a. Cwblhau sicrwydd prisiau'r gronfa bensiwn;
 - b. Cwblhau adolygiad sicrwydd ansawdd Partneriaid ac annibynnol; a
 - c. Derbyn y llythyr sylwadau.
- 7 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Swyddog Adran 151 a'r Uwch Reolwr Cyllid.

Adroddiad archwilio arfaethedig

- 8 Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi **adroddiad archwilio diamod** ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 9 Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn **Atodiad 2**.

Adroddiad cryno

Canlyniadau'r archwiliad

Camddatganiadau heb eu cywiro

- 10 Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, nad ydynt wedi cael eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

- 11 Mae un camddatganiad a gywirwyd gan y rheolwyr, ac ystyriwn y dylid tynnu eich sylw ato gan ei fod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'i nodir gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

Risgiau Sylweddol

- 12 Yn ein Cynllun Archwilio Ariannol, gwnaethom nodi gwybodaeth am y risgiau archwilio sylweddol a nodwyd yn ystod ein proses cynllunio. Mae'r tabl isod yn nodi canlyniad ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â'r risgiau hynny. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Cynllun Archwilio Ariannol.

Risgiau potensial a asesir	Profi a gwblhawyd yng Nghyngor Gwynedd
<p>Rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau</p> <p>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Gan nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyriw ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].</p>	<p>Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• profwyd priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol gan ddefnyddio dull gwell o ddadansoddi data i ddadansoddi holl gynnwys y dyddlyfrau ar gyfer nodweddion o ddiddordeb archwilio;• cynhaliwyd profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion dyddlyfrau i'r cyfriflyfr ariannol;• profwyd priodoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a• gwerthuswyd y rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol gan gynnwys rhai â phartïon cysylltiedig. <p>Ni nodwyd unrhyw faterion.</p>
<p>Cyflawnder incwm grant a chydabyddiaeth ohono</p> <p>Rydym wedi nodi bod cyflawnder incwm grant a chydabyddiaeth ohono yn risg sylweddol</p>	<p>Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• profion manwl o incwm grant er mwyn cadarnhau bod y gydnabyddiaeth o incwm

Adroddiad cryno

gan fod angen defnyddio barn rheolwyr i gydnabod incwm grant, gan gynnwys pennu a oes amodau ynghlwm wrth arian grant ac a ydynt wedi'u bodloni i sicrhau bod modd eu cydnabod.

Rydym yn tybio bod dau fath o incwm grant yn berthnasol i'r risg hon, sef grantiau referniw penodol a grantiau a chyfraniadau cyfalaf.

yn adlewyrchu'n briodol reolau'r cynllun grant, bod yr hawliad yn unol â'r drafft neu'r hawliad grant terfynol a bod balans y cyfrif rheoli grant wedi ei gysoni'n briodol;

- adolygu a dilysu gohebiaeth sydd ynghlwm wrth grantiau penodol a chymharu hyn â thriniaeth gyfrifyddu'r Cyngor; a
- phrofi cynllun a gweithrediad rheolaethau ynghylch cydnabod incwm grant.

Ni nodwyd unrhyw faterion.

Rhwymedigaeth pensiwn

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor ymrwymiad net berthnasol o ran ei rhwymedigaethau pensiwn ar y fantolen, ac mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar sawl barn actiwaraid.

Cyflawnodd y tîm archwilio y gweithdrefnau canlynol:

- sicrhau prisiad IAS19 ar 31 Mawrth 2017, a phenodi arbenigwyr i'n helpu i adolygu a phrofi priodoldeb seiliau priso IAS19, tybiaethau a datgeliadau'r datganiadau ariannol; a
- chynnal profion o'r gwaith cynllunio a gweithredu rheolaethau ynghylch cofnodi'r prisiadau pensiwn a'r cofnodion a'r datgeliadau cyfrifyddu cysylltiedig.

Ni nodwyd unrhyw faterion.

Adroddiad cryno

Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

- 13 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:
- **Nid oes gennym unrhyw bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.** Roedd y wybodaeth a roddwyd yn berthnasol, dibynadwy, cymaradwy, ac yn hawdd ei deall. Daethom i'r casgliad bod polisïau cyfrifyddu ac amcangyfrifon yn briodol a bod datgeliadau'r datganiadau ariannol heb duedd, ac yn deg a chllir.
 - **Ni ddaethom ar draws anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.**
 - **Ni wnaethom drafod na gohebu â rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
 - **Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.**
 - **Ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol.**
 - **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17

- 14 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn **Atodiad 4**. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os bydd unrhyw gamau gweithredu heb eu cyflawni, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno i chi yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

- 15 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol yn **Atodiad 5**. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt ac rydym ni wedi gwneud gwaith dilynol arnynt yn ystod archwiliad 2016-17. Os bydd unrhyw gamau gweithredu heb eu cyflawni, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn adrodd arno i chi yn ein hadroddiad y flwyddyn nesaf.

Adroddiad cryno

Annibyniaeth a gwrthrychedd

- 16 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.
- 17 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyngor Gwynedd sydd, yn ein barn ni, yn effeithio ar ein gwrthrychedd na'n hannibyniaeth.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

CAERDYDD

CF11 9LJ

28 Medi 2017

Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2016-17

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.

Atodiad 1

- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohoni ac sy'n effeithio ar Gyngor Gwynedd ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
 - Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymglyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd ar 28 Medi 2017.

Atodiad 1

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Yn gywir,

Llofnodwyd gan:

.....

Dafydd L Edwards
Pennaeth Cyllid
Cyngor Gwynedd

Dyddiad: 28 Medi 2017

Llofnodwyd gan:

.....

Cynghorydd R Medwyn Hughes
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a
Llywodraethu
Cyngor Gwynedd

Dyddiad: 28 Medi 2017

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Gyngor Gwynedd

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn, y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2015-16 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Prïod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Naratif er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Atodiad 2

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2017 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa pensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw, ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2016-17.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â'r canllawiau.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Dros ac ar ran

Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru

30 Medi 2016

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Atodiad 3

Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Aelodau'r Pwyllgor Archwilio atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi'r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

	Natur y cywiriad	CIES Dr	CIES Cr	BS Dr	BS Cr
		£'000	£'000	£'000	£'000
1	Nodyn 33 - Partïon Cysylltiedig Fe adnabuwyd fod dychweliad datganiad o ddiddordeb 2016/17 un unigolyn wedi cam-ddatgan "Grŵp Cynefin" fel "Cynefin". O ganlyniad roedd y nodyn Partïon Cysylltiedig yn tan ddatgan swm o £941,000.	dd/g	dd/g	dd/g	dd/g

Atodiad 4

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy'n weddill yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

Mater yn deillio –Cronfeydd Ymddiriedolaeth	
Canfyddiadau	<p>Nodwyd bod cofnod canolog o gymynroddion yn cael ei gadw, sy'n poblogi Nodyn 40. Didynnir y cymynroddion hyn o falans banc y Cyngor gan nad asedau'r Cyngor ydynt ac felly maent yn amherthnasol iawn gan mai cyfanswm y cymynroddion a gofnodwyd ar gyfer 2016-17 yw £678k. Nodwn fod gan bob cymynrodd unigol ei chod cyfriflyfr ei hun felly gall unrhyw wariant yn erbyn y cod gael ei fonitro fel ei fod yn unol â dymuniadau'r cymynroddwr. Er mwyn pennu cywirdeb y cofnodion hyn gwnaethom ddethol sampl o gymynroddion ac o sampl o ddwy ni lwyddwyd i roi'r ddogfennaeth wreiddiol sy'n ymwneud â chymynroddion i ni ar gyfer un o'r cymynroddion.</p> <p>Noder, nid ydym wedi cynnal profion manwl ar natur y gwariant yn erbyn y gymynrodd gan nad yw hyn yn un o asedau'r Cyngor ac felly mae y tu hwnt i gwmpas ein profion.</p>
Argymhelliad	Argymhellir y dylid cadw'r holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â chymynroddion er mwyn sicrhau bod swm y gymynrodd a'r cyfyngiadau wedi cael eu cofnodi'n gywir.
Blaenoriaeth	Isel
Buddiannau gweithredu'r argymhelliad	Os na chedwir cofnodion cywir mewn perthynas â balansau cymynroddion a ddelir, mae risg y cyfrifir yn anghywir ar gyfer cronfeydd cymynroddion.
Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr	Do
Ymateb y rheolwyr	Yn dilyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996, archifwyd nifer o'r dogfennau cymynroddion gwreiddiol. Cedwir y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar ffeil yn yr Adran Gyllid ac ar hyn o bryd mae'r Adran Gyfreithiol yn rhoi cymorth i ddod o hyd i'r wybodaeth am yr ychydig rai sy'n weddill.
Dyddiad gweithredu	Yn barhaus a chyn dyddiad cwblhau 2017/18.

Atodiad 4

Mater yn deillio 2 –Canfyddiadau TG	
Canfyddiadau	Fel rhan o'n harchwiliad ariannol gwnaethom benodi arbenigwyr TG i helpu'r tîm archwilio wrth brofi priodoldeb systemau TG y Cyngor sy'n cael effaith uniongyrchol ar gynhyrchu'r datganiadau ariannol. Nododd yr arbenigwyr TG nifer o argymhellion sydd wedi cael eu cyfleu i'r rheolwyr.
Argymhelliad	Argymhellir bod y rheolwyr yn gweithio gyda'r Rheolwr TG er mwyn sicrhau y caiff yr argymhellion hyn eu rhoi ar waith yn brydlon.
Blaenoriaeth	Isel
Buddiannau gweithredu'r argymhelliad	Gwella ansawdd a chadernid y systemau TG.
Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr	Do
Ymateb y rheolwyr	Cytuno
Dyddiad gweithredu	Mae dau o'r argymhellion eisoes wedi eu gweithredu, gyda'r trydydd i'w weithredu yn Hydref 2017.

Atodiad 5

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

Gwnaethom amlinellu'r holl argymhellion yn deillio o'n harchwiliad yn 2015-16 ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Rydym wedi gwneud gwaith dilynol ar y rhain yn ystod archwiliad 2016-17 ac wedi cofnodi'r canlyniadau isod.

Mater yn deillio 1 - Ystadau	
Canfyddiadau	Fel rhan o'n harchwiliad ariannol gwnaethom benodi arbenigwr prisio i helpu'r tîm archwilio i brofi priodoldeb datgeliad IAS 19. Mae'r prisiwr arbenigol wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella sy'n ymwneud yn bennaf â gweithdrefnau a phrosesau ynghylch y prisiadau a gyflawnwyd gan y Rheolwr Ystadau yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarparwyd gan yr adran gyllid. Mae'r argymhellion hyn wedi eu cyfleu i'r rheolwyr.
Argymhelliad	Argymhellir bod y rheolwyr yn gweithio gyda'r Rheolwr Ystadau er mwyn sicrhau y caiff yr argymhellion hyn eu rhoi ar waith yn amserol.
Blaenoriaeth	Canolig
Buddiannau gweithredu'r argymhelliad	Gwella ansawdd a chadernid y broses brisio.
Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr	Do
Ymateb y rheolwyr	Cytuno a gweithredwyd ar rai agweddau eisoes
Dyddiad gweithredu	Yn barhaus a chyn dyddiad cwblhau 2016/17
Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedrwydd yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ad-daliad.

Prif Symiau a Fuddsoddir am Gyfnodau sy'n Hwyt na 364 diwrnod: Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o fynd i golledion trwy geisio ad-daliadau buan ar ei fuddsoddiadau. Bydd y terfynau ar gyfanswm y prif swm a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fel a ganlyn:

7. Hyfforddiant Buddsoddi

Yn ystod y cyfnod, mynychodd swyddogion hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA oedd yn berthnasol i'w swyddi.

8. Rhagolygon ar gyfer Gweddill 2017/18

Rhagwelir twf GDP y DU o gwmpas 1.6% ar gyfer 2017 ac 1.4% yn 2018. Bydd gwariant cwsmer darostwng y prif yrrwr i'r cyfnod gyda thyfiant gwan, gyda, efo buddsoddiad busnes llai oherwydd ansicrwydd ynglŷn â Brexit.

Mae achos canolog Arlingclose ar gyfer llwybr y Gyfradd Banc dros y tair blynedd nesaf yn dal ar 0.25%. Mae Arlingclose yn credu bod y chwyddiant uchel yn adlewyrchu'r effaith ar wendid sterling ar fewnforio, ac wrth wynebi olygfa twf gwannach bydd y rhai sydd yn gwneud polisiau yn Fanc Lloegr yn edrych bellach ymlaen. Y llwybr tebygol ar gyfer Cyfradd Banc yw iddo aros yn wastad ar 0.25%. Beth bynnag, mae risg islawr ar gyfer cyfraddau cael eu torri i 0.00% yn y tymor byr a thymor canol, a chwmpas i gyfraddau cael eu codi o 2019 ymlaen, er hynny yn ddiymhongar i 0.50%.

	Sep-17	Dec-17	Mar-18	Jun-18	Sep-18	Dec-18	Mar-19	Jun-19	Sep-19	Dec-19	Mar-20	Jun-20	Sep-20
Official Bank Rate													
Upside risk	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25
Arlingclose Central Case	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25
Downside risk	0.00	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25	0.25

Mae Arlingclose yn gredu bod y Llywodraeth a'r Banc Lloegr gyda'r teclynnau a'r parodrwydd i'w defnyddio er mwyn atal unrhyw broblemau ar draws y farchnad sydd yn arwain at feddiannau banc yn syth. Mae'r dull gofalus ar gyfer cyngor credyd yn golygu bod y banciau sydd ar restr gwrthbartion cyfredol y Cyngor gyda digon o fyffer ecwiti er mwyn delio gydag unrhyw broblemau lleol yn y tymor byr.

Dangosyddion Darbodus 2017/18

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Cynghorau Lleol (y Cod Darbodus) wrth bennu faint o arian a all fforddio ei fenthyg. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, fod cynlluniau buddsoddi cyfalaf a chynghorau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, ac y gwneir penderfyniadau rheolaeth trysorlys yn unol ag arfer broffesiynol dda. Er mwyn dangos bod y Cyngor wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn gosod y dangosyddion a ganlyn, ac mae'n rhaid eu gosod a'u monitro'n flynyddol.

Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf: Gellir crynhoi gwariant cyfalaf a chyllido'r Cyngor fel a gynlluniwyd fel hyn:

Gwariant Cyfalaf a Chyllido	2016/17 Gwir £m	2017/18 Amcangyfrif £m	2018/19 Amcangyfrif £m	2019/20 Amcangyfrif* £m
Cyfanswm Gwariant	29.3	25.5	10.3	6.7
Derbyniadau Cyfalaf	0.8	1.3	0.0	0.0
Grantiau Llywodraeth	11.5	6.7	2.5	2.5
Refeniw	2.9	8.9	3.5	0.0
Benthyca	14.1	8.6	4.3	4.2
Cyfanswm Cyllido	29.3	25.5	10.3	6.7

* Nid yw'r amcangyfrif ar gyfer 2019/20 yn cynnwys cynlluniau newydd gan nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo eto.

Amcangyfrif Gofyn Cyllido Cyfalaf: Mae'r Gofyn Cyllido Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca at ddibenion cyfalaf.

Gofyn Cyllido Cyfalaf	2016/17 Gwir £m	2017/18 Amcangyfrif £m	2018/19 Amcangyfrif £m	2019/20 Amcangyfrif* £m
Cronfa Gyffredinol	177.0	179.6	176.4	173.0

Dyled Gros a'r Gofyn Cyllido Cyfalaf: Er mwyn sicrhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd y ddyled dros y tymor canolig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyn cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r amcangyfrifon ar gyfer unrhyw gynnydd ychwanegol yn y gofyn cyllido cyfalaf ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hwn yn ddangosydd allweddol o ba mor ddarbodus yw rhywbeth.

Dyled	31/03/17 Gwir £m	31/08/17 Gwir £m	31/03/18 Amcangyfrif £m	31/03/19 Amcangyfrif £m	31/03/20 Amcangyfrif* £m
Benthyciadau	113.4	106.8	106.8	106.8	106.1
Lesau Cyllidol	2.3	2.5	2.3	2.2	2.1
Cyfanswm Dyled	115.7	109.3	109.1	109.0	108.2

Disgwylir y bydd cyfanswm y ddyled yn aros islaw'r CFR yn ystod y cyfnod rhagweld.

Mae gwir lefelau'r ddyled yn cael ei fonitro yn erbyn y Ffin Weithredol a'r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol isod.

Ffin Weithredol ar gyfer Dyledion Allanol: Mae'r ffin weithredol yn seiliedig ar amcangyfrif y Cyngor o'r sefyllfa fwyaf tebygol h.y. darbodus, ar gyfer dyledion allanol, yn hytrach na'r sefyllfa waethaf bosib.

Ffin Weithredol	2016/17 Gwir £m	2017/18 Amcangyfrif £m	2018/19 Amcangyfrif £m	2019/20 Amcangyfrif £m
Benthyciadau	175	180	190	190
Ymrwymadau tymor hir eraill	0	0	0	0
Cyfanswm Dyled	175	180	190	190

Y Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyledion Allanol: Y terfyn awdurdodedig yw'r terfyn benthycia fforddiadwy a bennir yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r uchafswm all y Cyngor fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r terfyn awdurdodedig yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

Terfyn Awdurdodedig	2016/17 £m	2017/18 £m	2018/19 £m	2019/20 £m
Benthyciadau	195	190	200	200
Ymrwymadau tymor hir eraill	0	0	0	0
Cyfanswm Dyled	195	190	200	200

Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net: Dangosydd o fforddiadwyedd yw hwn, ac mae'n amlygu'r goblygiadau refeniw ar gyfer gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sydd ei hangen i gwrdd â chostau cyllido net o'r incwm buddsoddi.

Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Refeniw Net	2016/17 Gwir %	2017/18 Amcangyfrif %	2018/19 Amcangyfrif %	2019/20 Amcangyfrif %
Cronfa Gyffredinol	5.02	5.78	5.81	6.07

Effaith Ychwanegol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddi Cyfalaf: Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â fforddiadwyedd ac mae'n dangos effaith penderfyniadau ynghylch buddsoddi cyfalaf ar lefelau'r Dreth Gyngor. Yr effaith gynyddol (*incremental impact*) yw'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm gofyn cyllideb refeniw'r rhaglen gyfalaf cymeradwy presennol a'r gofyn cyllideb refeniw sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

Effaith Gynyddol Penderfyniadau ynghylch Buddsoddiadau Cyfalaf	2017/18 Amcangyfrif £	2018/19 Amcangyfrif £	2019/20 Amcangyfrif £
Cronfa Gyffredinol- Cynnydd ym Mand D y Dreth Gyngor	0	0	0

Mabwysiadu Cod Rheolaeth Trysorlys CIPFA: Ym mis Mawrth 2011, fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu *Cod Ymarfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (Rhifyn 2011)* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth.

Eitem 7

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	28 MEDI 2017
TEITL	ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU
PWRPAS YR ADRODDIAD	ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIUYD AR 11 MEDI 2017
AWDUR	CYNGHORYDD RICHARD MEDWYN HUGHES
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 11 Medi 2017 gyda Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Cyngorydd Richard Medwyn Hughes, Is-gadeirydd y Pwyllgor, y Cyngorydd John Brynmor Hughes a'r Cyngorwyr Angela Russell a Cemlyn Rees Williams, Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio a Bleddyn Rhys, Arweinydd Archwilio yn bresennol.

1.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

TEITL	ADRAN	BARN YR ARCHWILIAD
Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol	Oedolion, Iechyd a Llesiant	B
Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)	Oedolion, Iechyd a Llesiant	C
Gweithwyr Cefnogol (Oedolion)	Oedolion, Iechyd a Llesiant	C

2.3 Mynychodd swyddogion perthnasol i drafod yr adroddiadau unigol.

2.4 Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol

2.4.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Mae'r Adran yn llwyddo i ymchwilio i fewn i gwynion yn effeithiol ac yn osgoi'r angen i fwyafrif helaeth o ymchwiliadau oresgyn i ymchwiliadau 'cam 2'. Er hyn, ymddengys na ddilynir cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru, ac o ganlyniad ddim yn manteisio ar gyfleoedd i wella. Drwy wrando ar bobl Gwynedd, gellir gwneud newid sylfaenol i'r ffordd y mae'r Adran yn gweithredu a gwella gwasanaeth drwy ddysgu gwersi ohonynt.

Ymddengys fod nifer helaeth o ymholiadau yn dod i'r gwasanaeth all wedi eu trafod yn uniongyrchol gyda rheolwr yr Unedau gan roi cyfle iddynt ddelio hefo materion a dysgu ohonynt eu hunain. Nid yw hyn yn golygu troi cwynion i ffwrdd, ond newid arferion a diwylliant rhwng y gwasanaethau a'r defnyddwyr.

Er bod rhywfaint o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor ynglŷn a gwneud cwyn a'r drefn, mae lle yn fan hyn i hybu'r diwylliant newydd o Unedau yn defnyddio cwynion i wella eu gwasanaeth. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hefyd wedi dyddio.

Yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru, ni welir tystiolaeth fod cwynion yn cael eu trafod gyda'r defnyddwyr mewn cyfarfod nac mewn sgwrs ffôn ffurfiol cyn cau y cwyn. Yn dilyn ymchwiliadau, mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu er mwyn trafod y ffordd ymlaen ar ôl cau cwyn. Gwelwyd fod cynnwys sgysiau ffôn yn cael eu cadarnhau yn y llythyr ffurfiol sy'n cau cwynion.

Mae llythyrau ffurfiol yn cael eu defnyddio i esbonio pam nad yw'r Cyngor ar fai yn hytrach na chydabod ac ymddiheuro am gamweithredu neu gamgymeriad. Gyda'r un ystum nid oes datrysiad yn cael ei gynnig i anhapusrwydd defnyddwyr gyda'r gwasanaeth. Pan fydd cwyn yn cael ei wneud am weithrediad sy'n cyd-fynd â pholisïau, ni welwyd ystyriaeth yn cael ei roi i ymchwilio i mewn i addasrwydd polisïau, er pwrpas gwella gwasanaeth i'r defnyddiwr.

Gan mai trosolwg o gwynion gaiff eu trafod yn y tîm rheoli, golyga hyn fod rhai cwynion yn cael eu methu a dim ond materion sy'n codi mwy nac unwaith sy'n cael sylw. Yn dilyn trafod y materion sy'n codi, nid oes dilyniant ar gynnydd yn y cyfarfod nesaf, ac felly nid oes sicrwydd llawn fod yr hyn a gytunwyd yn cael eu gweithredu.

2.4.2 Croesawyd Mannon Trappe, Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl a Geraint Wyn Jones, Swyddog Gofal Cwsmer i'r cyfarfod i drafod archwiliad Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol.

- 2.4.3 Cyflwynwyd crynodeb o ddarganfyddiadau'r archwiliad gan y Rheolwr Archwilio. Eglurodd bod trefniadau penodol yn berthnasol ar gyfer cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol, a bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr i rymuso cynghorau i ymateb i gwynion. Eglurwyd bod yr adroddiad wedi derbyn Barn B ar y cyfan, ond penderfynodd y Pwyllgor y dylid gwahodd y Rheolwyr i'r Gweithgor yn sgil pwysigrwydd y maes yma o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 2.4.4 Trafodwyd natur cwynion o fewn y Gwasanaeth, gan gytuno bod angen gwahaniaethu rhwng cwyn swyddogol a rhywbeth gellir ei ystyried fel cais i weithredu, megis cwyn bod ystafell rhy oer neu gais unwaith ac am byth i godi tymheredd yr ystafell. Hefyd cytunwyd petai cwyn yn codi mewn cartref preswyl, yna gorau fyth petai'r Rheolwr yn gallu gweithredu arno yn syth, ond bod trefniant i adael yr Adran wybod yn ogystal.
- 2.4.5 Mynegodd y Rheolwr Archwilio bod dau gam yn y trefniadau, ble os na ellir datrys y gwyn yng ngham un, yna gellir ei oresgyn i ymchwiliad annibynnol cam 2. Mae'r Adran wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan yn datrys cwynion cyn iddynt gyrraedd cam 2. Yn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd, mynegir mai dim ond un achos yn unig a gyfeiriwyd at yr Ombwdsman yn 2016/17. Ar y llaw arall, mynegodd yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl bod yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi awgrymu nad oes digon o gwynion yn cyrraedd cam 2, sy'n awgrymu bod y Cyngor yn atal cwynion rhag goresgyn i gam 2. Fodd bynnag, cytunodd y Gweithgor ei fod yn galonogol bod cwynion yn cael eu delio â hwy yn y cam cyntaf.
- 2.4.6 Un o'r gwendidau a adnabuwyd oedd y ffaith nad oedd cwynion yn cael eu trafod gyda'r defnyddwyr neu eu cynrychiolwyr, boed mewn cyfarfod neu sgwrs ffôn, sydd yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru. Hefyd, gwelwyd yr anfonir llythyrau ffurfiol yn esbonio pam nad yw'r Cyngor ar fai yn hytrach na chydabod neu ymddiheuro am gamgymeriad neu weithrediad. Mynegodd y Swyddog Gofal Cwsmer ei fod wedi ystyried geiriad y llythyrau yn dilyn yr archwiliad, er nad oedd yn llwyr gytuno â darganfyddiadau'r archwiliad yn yr hyn o beth. Fodd bynnag, mynegodd y Rheolwr Archwilio fod darganfyddiadau'r archwiliad yn seiliedig ar sampl o lythyrau yn unig, ac nad yw hyn o bosib yn adlewyrchu'r drefn yn ei gyfarwydd.
- 2.4.7 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl a'r swyddog Gofal Cwsmer am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r camau gweithredol sydd ar waith i liniaru'r risgiau a adnabuwyd yn ystod yr archwiliad. Mynegodd y Rheolwr Archwilio bod trefniant newydd wrth law o fewn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ble fydd pob cam gweithredu yn destun archwiliad dilyniant, ac felly caiff y cynnydd yma ei archwilio yn ystod 2017/18.**

2.5 Diogelu Rhag Colli Rhyddid

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Gwelwyd bod trefniadau yn bodoli mewn perthnasedd a threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ond bod angen tynhau ar rai agweddau yn bennaf ar adnoddau a hyfforddiant staff. Manylir ar y meysydd sydd angen sylw isod:

Fe ddosbarthwyd canllawiau i staff y cartrefi yn 2014 yn esbonio'r drefn yn ogystal â rhannu ffurflenni sydd eu hangen i gyfeirio a.y.b. Dosbarthwyd ffeil i bob Cartref Preswyl a bu i'r Rheolwyr ar y pryd arwyddo i ddatgan eu bod wedi derbyn y pecyn.

Yn ddiweddar fe ddarparwyd llythyr yn nodi mai cyfrifoldeb y cartrefi ydi ail gyfeirio'r preswylwr pan ddaw'r awdurdodiad DoLS presennol i ben yn ogystal â'u cyfrifoldeb hwy ydi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd os oes unrhyw newid a all effeithio ar awdurdodiad DoLS y preswylwr yn y cyfamser. Caiff y llythyr yma ei anfon allan gyda phob awdurdodiad DoLS bellach er mwyn sicrhau bod y cartrefi preifat yn ymwybodol o'u dyletswyddau hwy.

Gwelwyd bod hyfforddiant wedi ei ddarparu yn y gorffennol ar gyfer Rheolwyr a Rheolwyr Cynorthwyol Cartrefi Gofal y Cyngor a staff Tai a Chefnogaeth, gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi derbyn hyfforddiant yn 2015. Fodd bynnag, nid oedd rhai ohonynt wedi derbyn hyfforddiant ers 2013 ac nid oedd 2 Reolwr Cynorthwyol Cartref Preswyl wedi derbyn hyfforddiant o gwbl.

Yn ystod yr archwiliad roedd adegau lle nad oedd modd cael mynediad i'r basdata cyfredol gyda manylion DoLS oherwydd absenoldeb tymor hir y Cymhorthydd Gweinyddol.

Mae gan y Cyngor niferoedd priodol o Aseswyr Pennaf Les (BIA's - Best Interest Assessors), ond nid ydynt yn gweithio llawn amser ar achosion DoLS, gan eu bod mewn swyddi eraill o ddydd i ddydd sydd yn cael blaenoriaeth. Mae'r Tîm DoLS wedi cyflwyno bid i'r Cyngor am gyllideb ychwanegol tuag at gyflogi Aseswr Pennaf Les llawn amser er mwyn gwella'r gwasanaeth o ddelio gyda cheisiadau.

Mae nifer fawr o unigolion yng Ngwynedd yn disgwyl cael eu hasesu, rhai ers dros flwyddyn sydd ddim yn cydymffurfio â'r Ddeddf gan fod ceisiadau safonol fod i gael eu hasesu o fewn 21 diwrnod a cheisiadau brys o fewn 7 diwrnod. Fel y nodir uchod y broblem fwyaf yw'r diffyg adnoddau. Mae bid y Gwasanaeth wedi cael ei dderbyn ac mae cyllideb ar gyfer cyflogi un swyddog llawn amser am ddwy flynedd neu dau swyddog llawn amser am flwyddyn yn unig. Nid oes unrhyw benodiadau wedi eu gwneud hyd yma.

Yn dilyn y newid mewn cyfraith yn dilyn dyfarniad 'Cheshire West Case', y Crwner dylai ddelio gyda marwolaeth unigolion sydd â DoLS arnynt, "As the Law now stands the death of every person subject to DoLS Order must be reported to the Coroner. I emphasize that there must be an Order in existence on the day of death." Nid oes modd gwybod os yw'r Cartrefi preifat yn hysbysu'r Crwner petai unigolyn a DoLS arnynt yn marw ond efallai y byddai modd ei gynnwys yn yr hyfforddiant neu anfon llythyr yn atgoffa'r cartrefi o'r gofynion gan gynnwys Tai â Chefnogaeth.

Mae'r Cyngor wedi adnabod dros 150 o unigolion sydd yn denantiaid yng Ngwynedd ac sydd efallai angen bod ac awdurdodiad DoLS arnynt. Hyd yma dim ond un achos sydd wedi ei ddarparu ar gyfer y llys. Deellir mai diffyg adnoddau i asesu'r unigolion sydd yn dal y broses yn ôl. Mae Cyfreithwraig wedi ei phenodi yn benodol i ddelio gyda'r achosion yma.

- 2.5.2 Bu i Mannon Trappe, yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl aros ymlaen i'r eitem yma ac ymunodd Kevin Wyn Griffiths, Cydlynnydd DoLS â'r cyfarfod. Croesawyd y Cyd-lynnydd i'r cyfarfod.
- 2.5.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod y maes hwn yn faes cynhennus, cymhleth a sensitif a bod newid mewn deddfwriaeth yn sgil dyfarniad y dyfarniad yn achos "*P v Cyngor Cheshire West and Chester*" wedi arwain at gynnydd aruthrol yn niferoedd yr asesiadau sy'n angenrheidiol mewn perthynas â DoLS. Fodd bynnag mae Comisiwn y Gyfraith (Law Commission) wedi paratoi Mesur Galluedd Meddylion Drafft sydd yn cynnig disodli DoLS gyda chynllun newydd sef y Trefniadau Diogelu Rhyddid (Liberty Protection Safeguards). Ni fydd y trefniadau newydd yn debygol o leihau'r llwyth gwaith ar y Gwasanaeth yn y tymor byr.
- 2.5.4 Ar adeg yr archwiliad, roedd nifer fawr o unigolion yn disgwyl cael asesiad, ac nid oedd y sefyllfa wedi gwella ers hynny. Gall y gosb o beidio gweithredu ar asesiad DoLS fod gymaint â £1,000 fesul unigolyn yr wythnos. Y prif rwystr rhag cyflawni hyn oedd diffyg adnoddau staffio. Mynegodd yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl bod y Gwasanaeth wedi penodi swyddog ychwanegol dros dro yn ddiweddar i ymgymryd â'r gwaith cynnal asesiadau yma, ond nad oedd yn bosib llenwi ail swydd debyg. Yn dilyn ymholiad gan Aelod, mynegodd yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl y bydd yn ail-hysbysebu'r swydd yn y dyfodol agos ond bod y ffaith mai swydd dros dro ydyw wedi effeithio ar nifer o ymgeiswyr.

- 2.5.5 Trafodwyd opsiynau gwahanol megis allgyfeirio cyllideb yr ail swydd tuag at hyfforddi swyddogion presennol i fod yn *Best Interest Assessors*, neu osod targedau perfformiad ffurfiol i'r oddeutu 25 o Weithwyr Cymdeithasol sydd eisoes â'r achrediad *BIA* er mwyn ceisio lleihau'r nifer fawr o unigolion sy'n disgwyl cael asesiad. Fodd bynnag, nid yw'r Gweithwyr Cymdeithasol sydd â'r achrediad *BIA* yn dod o dan reolaeth yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl felly eglurodd ei bod eisoes wedi cynllunio i drafod â'r Uwch Reolwr Galluogi i drafod y targedau hyn. Ar hyn o bryd, un asesiad y mis y mae disgwyliad i Weithiwr Cymdeithasol ei gwblhau ond nad yw llawer yn cyflawni hynny.
- 2.5.6 Ymholodd aelod os oedd y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn. Eglurodd y swyddogion mai wedi gwaethygu mae'r sefyllfa, gyda ôl-groniad o oddeutu 280 ar gyfer cartrefi preswyl, a 150 sydd yn cael eu cyfeirio drwy'r llys.
- 2.5.7 Cytunwyd mai diffyg adnoddau sydd wrth wraidd y broblem yma, a chanmolwyd y Gwasanaeth am eu hymdrechion a'u perfformiad o gymharu ag Awdurdodau eraill, ond atgyfnerthodd Aelodau'r Gweithgor y pwysigrwydd o leihau'r amser aros am asesiad.
- 2.5.8 Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl a'r Cydlynnydd DoLS am ddiweddarau'r Gweithgor am y datblygiadau ers pan ryddhawyd yr adroddiad archwilio ac am amlinellu'r trefniadau sydd ar waith. Cynigiodd yr Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a'r Cydlynnydd DoLS i ddiweddarau'r Gweithgor ar y datblygiadau o fewn 6 mis.**

2.6 Gweithwyr Cefnogol (Oedolion)

2.6.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Gwelwyd nad oes swydd ddisgrifiad cyfredol gan y gwasanaeth ar gyfer swydd Gweithiwr Cefnogol, ac fe gytunwyd felly bod angen cynnal adolygiad ohono.

Gwelwyd achosion ble roedd dyddiad dadleniad DBS gweithwyr newydd yn hwyrach na'r dyddiad a gofnodwyd ar ffurflenni penodiad newydd staff (ffurflenni TR139). Mynegodd y rheolwyr a'r goruchwylwyr perthnasol eu bod yn ymwybodol o'r drefn ddisgwyliedig a'r rheolau gyda dadleniadau DBS, ac fe gafwyd gwybod na fyddai Gweithiwr Cefnogol yn cael ei gynnwys ar amserlen pe na fyddai dadleniad derbynol a chyfredol ganddynt. Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer delio â dadleniadau yn gorfforaethol drwy'r porth hunanwasanaeth.

Mae amheuaeth gan y rheolwyr perthnasol fod rhai Gweithwyr Cefnogol yn darparu gofal personol i'r defnyddwyr gwasanaeth serch y ffaith nad yw hyn yn syrthio i gwmpas eu dyletswyddau.

Deallir bod cynnal goruchwyliaeth ffurfiol gyda'r Gweithwyr o bwysigrwydd uchel i'r gwasanaeth, ond bod hynny'n profi i fod yn anodd ar adegau gyda chymaint o staff i'w goruchwylio'n gyfnodol. Mae gan y rhan helaeth o'r Gweithwyr Cefnogol swyddi a chyfrifoldebau eraill yn ogystal, ac ystyrir bod hynny'n ychwanegu rhwystr wrth geisio trefnu amser ar gyfer cynnal yr oruchwyliaeth.

Ystyrir y byddai'n fuddiol i'r goruchwylwyr petaent yn derbyn cymorth ymarferol gyda'r dasg hon.

Darganfuwyd nad oedd cynlluniau gofal nifer helaeth o'r defnyddwyr gwasanaeth yn gyfredol nac yn cwmpasu gwybodaeth angenrheidiol fel y gall y Gweithiwr Cefnogol gefnogi'r unigolyn yn y dull mwyaf priodol. Mae ymrwymiad gan y gwasanaeth i adolygu strwythur y cynlluniau gofal i sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ac i sicrhau bod cymorth adeiladol yn cael ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaeth. Hynny yw, bod y Gweithwyr Cefnogol yn cefnogi mewn ffordd a fyddai'n cynorthwyo gyda datblygiad y defnyddiwr gwasanaeth, ac ystyrir fod angen i'r cynlluniau gofal fod yn canolbwyntio ar ddeilliannau er mwyn medru cyflawni hyn yn effeithiol.

Roedd dau achos o fewn y sampl o staff a archwiliwyd ble nad oedd eu hyfforddiant Diogelu / POVA yn gyfredol. Yn aml, nid oes gan y Gweithwyr Cefnogol gyfeiriad e-bost y Cyngor ac o ganlyniad dim mynediad at y porth e-ddysgu. Disgwylir y bydd y System Integredig Dysgu a Datblygu pan y gaiff ei chyflwyno yn Hâf 2017 yn diwallu'r anghenion hyn.

Gwelwyd fod achosion ble mae Gweithwyr Cefnogol wedi hawlio nifer helaeth o gostau teithio mewn wythnos, e.e. gwelwyd bod gweithiwr yn hawlio 200-300 o

filltiroedd yn wythnosol sydd yn fwrddwn ar y gyllideb. Eglurwyd bod y Goruchwylwyr yn ceisio cysylltu Gweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth mewn modd effeithlon, ond bod materion yn gallu codi sydd tu hwnt i'w rheolaeth megis yr angen i weithiwr penodol weithio gyda'r defnyddiwr gwasanaeth. Bydd cynnal adolygiad o strwythur y cynlluniau gofal – a'u gwneud yn fwy rhagnodol o ran y gweithgareddau sydd i'w cynnal ynghyd â'r lleoliadau gyda'r potensial o arwain at leihad yn y costau teithio a delir

- 2.6.2 Croesawyd Olwen Ellis Jones, Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu ynghyd â Selwyn Lloyd Jones, Rheolwr Sirol Gwasanaeth Anableddau i'r cyfarfod.
- 2.6.3 Mynegodd y Rheolwr Archwilio mai prif ffocws yr archwiliad yma oedd sicrhau bod anghenion defnyddwyr yn cael eu diwallu yn unol â'u Cynlluniau Gofal. Daeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Yn unol â'r Ddeddf, os yw unigolyn yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysra, yna mae'n rhaid i'r Cyngor lleol ysgrifennu cynllun. Bydd pobl ag anghenion gofal a chefnogaeth yn derbyn cynllun gofal a chefnogaeth. Ymhellach, mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015 yn manylu ar beth ddylid ei gynnwys mewn cynllun gofal a chymorth ynghyd â'r trefniadau adolygu. Yn sgil yr archwiliad, darganfuwyd nad oedd nifer helaeth o'r cynlluniau gofal yn gyfredol.
- 2.6.4 Y prif feysydd eraill o risg a ddaeth i'r amlwg oedd methiant i gynnal goruchwyliaeth ffurfiol a methiant i reoli'n briodol y defnydd o amser a lleoliadau a oedd yn golygu bod gweithiwr yn hawlio swm costau teithio uchel ar sail wythnosol.
- 2.6.5 Mynegodd y Swyddogion bod ffocws y cynlluniau gofal bellach wedi symud er mwyn gallu cyflawni canlyniadau mesuradwy, megis sgiliau cymdeithasol. Fel rhan o hyn, mae gweithgareddau grŵp yn cael eu trefnu yn lleol gyda llai o bwyslais ar weithwyr yn teithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i amryw o leoliadau gwahanol. Mae'r cynlluniau erbyn hyn yn cael eu teilwra i wella llesiant yr unigolion gyda thargedau CAMPUS wedi eu sefydlu.
- 2.6.6 Cafwyd trafodaeth am drefniadau recriwtio'r Gwasanaeth yn ogystal, gan drafod y rhwystredigaeth o ddarganfod unigolion brwdfrydig am y maes sy'n fodlon derbyn y cyfrifoldebau sydd ynghlwm â'r swydd am gyflog cymharol isel.
- 2.6.7 Eglurodd y swyddogion eu bod eisoes wedi ail-ymweld â'r swydd ddisgrifiad a'u bod ar hyn o bryd yn disgwyl adborth gan Adnoddau Dynol cyn cynnal trafodaethau gyda'r undebau perthnasol.
- 2.6.8 Diolchwyd i'r Rheolwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu am fynychu'r cyfarfod a diweddarau'r Gweithgor am y trefniadau sydd bellach wedi eu mabwysiadu a'r trefniadau arfaethedig sydd ar y gweill.**
- 2.7 Diolchodd y Cadeirydd i'r Gweithgor a rhoddwyd clod i'r holl wasanaethau am eu gweithrediadau a'u hymdrechion.**

Eitem 8

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	28 MEDI 2017
TEITL	CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL
PWRPAS YR ADRODDIAD	AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 15 MEDI 2017
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2017 hyd at 15 Medi 2017.

2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

- 2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 15 Medi 2017:

Disgrifiad	Nifer
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	10

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 15 Medi 2017, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	BARN	ATODIAD
Hyfforddi Aelodau Newydd	Cefnogaeth Gorfforaethol	Democratiaeth	B	Atodiad 1
Grantiau Marwolaeth	Cyllid	Pensiynau a Chyflogau	A	Atodiad 2
Taliadau Debyd Uniongyrchol Aelodaeth Canolfannau Hamdden	Economi a Chymuned	Hamdden	B	Atodiad 3
Canolfan Tennis Arfon	Economi a Chymuned	Hamdden	B	Atodiad 4
Canolfan Hamdden y Pafiliwn	Economi a Chymuned	Hamdden	B	Atodiad 5
Canolfan Hamdden Glan Wnion	Economi a Chymuned	Hamdden	B	Atodiad 6
Plas Maesincla	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	B	Atodiad 7
Plas Hafan	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	A	Atodiad 8
Plas Ogwen	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	C	Atodiad 9
Tan y Marian	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Preswyl a Dydd	C	Atodiad 10

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

- Barn “B” Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.
- Barn “C” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.
- Barn “CH” Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbynol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

3. GWAITH DILYNIANT

- 3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2016/17, fe ddaethpwyd i gytundeb ar 205 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2018. Erbyn hyn, yn hytrach na chynnal dilyniant at adroddiadau barn “C” yn unig, bydd pob cam a gytunwyd yn derbyn sylw trwy ofyn i'r uned/gwasanaeth /sefydliad anfon tystiolaeth i brofi gweithrediad. Ar 15 Medi 2017, roedd gweithrediad derbynol ar **26.83%** o'r camau cytunedig.

4. GWAITH AR Y GWEILL

- 4.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 16 Medi 2017.
- Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol – Defnydd o Sachau Coch a Llapiwyr (*Corfforaethol*)
 - Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thystiolaeth o Gymwysterau (*Corfforaethol*)
 - Trefniadau Diogelu – Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi (*Corfforaethol*)
 - Trefniadau Diogelu – Sefydliadau (*Corfforaethol*)
 - Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol (*Corfforaethol*)
 - Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau (*Corfforaethol*)
 - Y Fenter Twyll Genedlaethol (*Corfforaethol*)
 - Grant Gwisg Ysgol (*Addysg*)
 - Grant Amddifadedd Disgyblion (*Addysg*)
 - Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion (*Addysg*)
 - Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch – Cynradd ac Uwchradd (*Addysg*)
 - Iechyd a Diogelwch - Ysgolion Cynradd (*Addysg*)
 - Ysgolion – Cyffredinol (*Addysg*)
 - Canolfan Hamdden Bro Ffestiniog (*Economi a Chymuned*)
 - Doc Fictoria (*Economi a Chymuned*)
 - Grant Cefnogi Pobl (Rhan 2) (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
 - Depos (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)
 - Casglu Gwastraff Gardd (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)
 - Manddaliadau (*Rheoleiddio*)
 - Rhestr Aros Tai (*Tai*)

5. ARGYMHELLIAD

- 5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf 2017 hyd at 15 Medi 2017, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

HYFFORDDI AELODAU NEWYDD CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

1. Cefndir

- 1.1 Mae Adran 7 o'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn nodi bod angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd rhesymol i'w haelodau, yn ogystal â rhoi'r cyfle i'w haelodau dderbyn adolygiad blynyddol o'u hanghenion hyfforddi a datblygu.
- 1.2 Mae 'Fframwaith Datblygu Cyngorwyr Cymru' (Mai 2015) yn amlinellu'r medrau a'r wybodaeth angenrheidiol i gyngorwyr awdurdodau lleol Cymru i gyflawni eu dyletswyddau. Fe luniwyd y fframwaith fel rhan o raglen ddatblygu broffesiynol parhaus ar gyfer cyngorwyr, sydd yn cyd-fynd gyda Siarter Cynorthwyo a Datblygu Cyngorwyr Cymru. Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i gyflwyno cais i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) er mwyn ennill y Freinlen, neu'r 'Siarter Aelodau' yma, yn ystod ail hanner 2017.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cyflawni anghenion hyfforddiant aelodau newydd Cyngor Gwynedd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu asesu'r drefn o adnabod a darparu hyfforddiant i aelodau etholwyd ym mis Mai 2017 yn unol â'u anghenion a gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd bod trefniadau'r Cyngor yn unol ag anghenion Mesur Llywodraeth Leol 2011 (Cymru). Mae cofnodion o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd a'r Cyngor Llawn yn dangos fod gwaith paratoi trylwyr wedi ei wneud ar gyfer etholiadau 2017, er mwyn sicrhau fod rhaglen hyfforddi gyflawn a pherthnasol ar gyfer yr Aelodau newydd. Mae Ffordd Gwynedd wedi dylanwadu'r broses o adnabod anghenion yr Aelodau ac mae yna agweddau iddo sydd yn plethu â'r cais am y Siarter Aelodau. Ymhelaethir ar y trefniadau isod.
 - 3.1.1 Mae Disgrifiadau Rôl penodol yn cael eu hawgrymu gan CLLC, ac mae Gwynedd wedi eu mabwysiadu a'u haddasu yn ddiweddar er mwyn cyd fynd ag egwyddorion Ffordd Gwynedd ac i adlewyrchu'r dyletswyddau sydd i'w cyflawni fel Aelodau o Bwyllgorau'r Cyngor.
 - 3.1.2 Mae Rhaglen Hyfforddi am y flwyddyn yn cael ei gynllunio a'i rannu gyda'r Aelodau ar bapur, calendr 'Outlook', drwy e-bost ac mae copi cyfredol ar gael ar y 'Porth E-Ddysgu'. Caiff y rhaglen ei diweddarau os oes hyfforddiant ychwanegol, neu os derbynnir ceisiadau am hyfforddiant penodol unai gan yr aelodau neu Staff y Cyngor. Mae Dysgu a Datblygu a'r Gwasanaeth Democratiaeth yn awyddus i fanteisio ar y dechnoleg sydd ar gael er mwyn hwyluso'r broses i'r Aelodau gan wneud y defnydd gorau o'r tabledi 'MS Surface' a'r System Integredig Dysgu a Datblygu (SIDD). Mae mewnbyn gan Benaethiaid Adran, tîm Dysgu a Datblygu, y Gwasanaeth Democratiaidd ac adborth aelodau yn cael ei ystyried wrth lunio'r Rhaglen ac mae trafodaethau helaeth ynglŷn â'r cynnwys wedi eu cynnal mewn Pwyllgorau megis y Gwasanaethau Democratiaidd.

- 3.1.3 Cynhaliwyd sesiynau a 'stondinau' anwytho penodol ym mis Mai 2017 a ystyrir hyn yn rhan o'r broses anwytho. Mae 6 mis cyntaf yr Aelodau newydd yn cael ei ystyried yn 'Anwythiad' sy'n rhan o'r 'cylch 5 mlynedd' lle mae'r Tîm Dysgu a Datblygu yn adnabod anghenion ar gyfer pob blwyddyn. Roedd y sesiynau anwytho penodol yn cynnwys blas o beth sydd ar gael i'r Aelodau yn ychwanegol i'r hyfforddiant angenrheidiol y bydd angen ei gwblhau ar y cychwyn (e.e. Ymddygiad, Gwybodaeth, Pwyllgorau/Democratiaeth ayb).
- 3.1.4 Yn unol â meddylfryd Ffordd Gwynedd, disgwylir i'r Aelodau gyfrannu at y broses hyfforddiant drwy amlygu eu hanghenion, yn hytrach na glynu at raglen benodol. Yn ogystal â hyfforddiant drwy gyrsiau ac e-ddysgu, cynigir sesiynau 1 i 1 i'r Aelodau gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol er mwyn trafod ac adolygu eu hanghenion. Hysbyswyd yr Aelodau yn y 'stondinau' anwytho bod cyfle iddynt dderbyn Cymhelliant gan Gymhellydd (Coach) Cymwysiedig. Mae hyn yn gam newydd, ac ymddengys bod llawer o ddi-ddordeb ymysg yr Aelodau.
- 3.1.5 Mae gan Aelodau'r hawl i wneud cais i fynychu hyfforddiant ychwanegol, allanol, ac mae meini prawf mewn lle er mwyn ystyried os yw'r ceisiadau yn deilwng ai peidio ag yn rhoi gwerth am arian i'r Cyngor. Nid oes taflen benodol ar gael ar hyn o bryd ond y bwriad yw ei chyhoeddi a'i rhannu ar y Porth E-Ddysgu er mwyn i'r Aelodau gael mynediad atynt.
- 3.1.6 Mae unrhyw hyfforddiant yn cael ei ystyried yn ofalus cyn ei gynnig, gan ystyried gwerth am arian a'r lleoliad. Cysylltir gyda'r Aelodau i fesur diddordeb yn y pwnc a pha mor hwylus yw'r amser a'r lleoliad. Mae'r mwyafrif o'r hyfforddiant yn cael ei gynnal ym Mhenrhyndeudraeth a Chaernarfon yn bennaf oherwydd yr adnoddau sydd ar gael yno, yn ogystal â'r ffaith bod Penrhyndeudraeth eithaf canolog.
- 3.1.7 Mae 20 o'r 24 aelod newydd wedi mynychu pob un o'r 5 'stondin' anwytho a gynhaliwyd ar Mai 9-10, 2017 tra bod 1 aelod wedi mynychu 4 'stondin' ac 1 aelod wedi mynychu 3 'stondin'. Roedd 2 aelod yn unig heb fynychu'r 'stondinau' o gwbl. Nid oedd y stondinau yma wedi eu cyfyngu i aelodau newydd a etholwyd ym mis Mai 2017, roedd 27 aelod a ail-etholwyd wedi mynychu'r stondinau. Mae'r holl ddeunydd a gyflwynwyd yn ystod y stondinau ar gael ar y porth aelodau er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau bori drwyddynt neu atgoffa eu hunain o'r cynnwys.
- 3.1.8 Mae Adroddiad y Gronfa Bensiwn 2015-16 yn egluro fod "*Hyfforddiant penodol (Hyfforddiant Sylfaenol Ymddiriedolwr CPLIL) wedi ei fynychu gan 3 aelod tra bod 2 arall i fynychu yn 2016*". Mae'r 5 bellach wedi cwblhau'r Hyfforddiant. Mae 4 aelod ychwanegol i'r pwyllgor sydd newydd eu hethol wedi derbyn anwythiad gan y Pennaeth Cyllid ac Ymgynghorydd Arbenigol ac yn derbyn yr hyfforddiant (Sylfaenol Ymddiriedolwr CPLIL) rhwng Hydref a Rhagfyr 2017. Mae gan pob Aelod o'r Bwrdd fynediad at y 'Pensions Toolkit' ar lein.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Hyfforddi Aelodau Newydd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaethau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Cwblhau a rhannu taflen benodol er mwyn i'r Aelodau wneud cais am hyfforddiant ychwanegol a llunio a rhannu'r daflen Meini Prawf a fydd yn asesu eu ceisiadau.
- Symud ymlaen gyda'r trefniadau i ennill y Freinlen (Siarter Aelodau)

GRANTIAU MARWOLAETH CYLLID

1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth pensiwn llywodraeth leol ar gyfer ei hun, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, cyflogwyr statudol a Chynghorau Cymuned a threfi dewisol eraill yn ogystal â'r hawl i dderbyn cyrff eraill sy'n cyd-fynd â darpariaethau'r rheoliadau. O ddydd cyntaf aelodaeth gweithiwr â chynllun pensiwn Gwynedd, mae grant marwolaeth sy'n cyfateb i 3 gwaith eu cyflog blynyddol yn daladwy os ydynt yn marw mewn gwasanaeth, ac yn iau na 75 oed.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol digonol mewn lle yn y trefniadau cyfrifo a gweinyddu taliadau grant marwolaethau. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu archwilio sampl o daliadau grant marwolaeth a wnaethpwyd yn ddiweddar, gan sicrhau eu bod yn briodol.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Detholwyd sampl o daliadau 'grantiau marwolaeth' oddi ar y cyfriflyfr, a gwiriwyd y papurau gwaith cefnogol. Roedd y sampl yn cwmpasu taliadau a wnaethpwyd yn ystod 2016/17 ac yn cynnwys gweithwyr o amryw o sefydliadau sydd yn rhan o Gronfa Bensiwn Gwynedd.

3.2 Nid pob gweithiwr sy'n cyflwyno 'ffurflen mynegi dymuniad grant marwolaeth', sef cyfarwyddyd i'r Gwasanaeth Pensiynau o bwy fydd yn derbyn grant marwolaeth os ydynt yn marw mewn gwasanaeth. Os oes ffurflen wedi ei derbyn, mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gorfod dod i gasgliad bod y wybodaeth yn parhau i adlewyrchu dymuniad yr ymadawedig, ac mae ganddynt yr hawl i fynd yn groes i'r ffurflen, os oes ganddynt reswm digonol dros wneud hynny. Ym mhob achos yn y sampl, gwelwyd bod prawf o berthynas rhwng yr ymadawedig a derbynnydd y grant. Roedd rhai achosion o'r sampl yn cynnwys ewyllys/profiant yn hytrach na ffurflen mynegi grant.

3.3 Wrth wirio'r taliadau, gwelwyd bod trywydd archwilio priodol i'r cyfrifiadau a bod gwiriadau annibynnol ynghlwm â'r broses. Gwelwyd yn ogystal bod tystiolaeth megis tystysgrifau ar gael er mwyn cefnogi pob taliad a wnaethpwyd.

3.4 Caiff llog ei gyfrifo'n ddyddiol ar raddfa o 1% yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr o'r dyddiad marwolaeth (nid y dyddiad mae y Gwasanaeth Pensiynau yn derbyn hysbysiad). Mae llog ar daliadau hwyr yn cael eu hychwanegu i unrhyw daliad sydd yn cael ei wneud 1 mis yn ddiweddarach na'r dyddiad marwolaeth. O'r sampl, gwelwyd bod costau llog yn gallu bod yn uchel, megis £1,538 mewn un achos a £480 mewn achos arall. Fodd bynnag, gwelwyd bod oediadau yn deillio yn bennaf o fethiant sefydliadau allanol i ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth sy'n angenrheidiol i ryddhau taliad.

4. Barn yr Archwiliad

(A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau gweinyddu grantiau marwolaeth gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

**TALIADAU DEBYD UNIONGYRCHOL AELODAETH CANOLFANNAU HAMDDEN
ECONOMI A CHYMUNED**

1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau'n Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned, a phob un ohonynt yn cynnig gwasanaeth y gellid talu amdano drwy ddebyd uniongyrchol. Mae pob cais debyd uniongyrchol yn cael ei brosesu yn Canolfan Tennis Arfon yng Nghaernarfon.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu a phrosesu debydau uniongyrchol Canolfannau Hamdden, yn unol â chanllawiau IMS/FIN/02, sef llawlyfr gweithdrefnau Debyd Uniongyrchol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio fod trefniadau digonol mewn lle ar gyfer prosesu a monitro ceisiadau debyd uniongyrchol, ceisiadau i newid neu rewi cyfrif, ceisiadau am ddisgownt corfforaethol, a debydau uniongyrchol sydd wedi eu canslo/methu, gan sicrhau fod proses adennill mewn lle.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer prosesu ceisiadau debyd uniongyrchol, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

3.1.1 Gwelwyd fod rhai o'r prisiau a anfonwyd i'r Swyddog Cefnogi Busnes a Systemau ar gyfer eu mewnbynnu i system Gladstone (system ariannol Hamdden), yn wahanol i'r hyn a gymeradwywyd gan y Cabinet. Fodd bynnag, derbyniwyd cadarnhad fod y prisiau yn cael eu gwirio cyn eu mewnbynnu i'r system, er mwyn sicrhau fod y pris cywir yn cael ei godi ar gwsmeriaid. Hysbyswyd yr Uwch Swyddog Busnes a Pherfformiad o'r camgymeriadau hyn ar ffurf e-bost. Derbyniwyd taenlen brisiau wedi ei diweddarau yn cadarnhau fod y camgymeriadau wedi eu cywiro.

3.1.2 Nid oes trefniadau mewn lle ar gyfer gwirio ceisiadau'r Cynllun Disgownt Corfforaethol. Mae'r cynllun yn cadarnhau fod rhaid derbyn slip cyflog o'r ddau fis diwethaf ar gyfer ymaelodi, ac yn flynyddol ar ôl hynny i gadarnhau eu cyflogaeth gyda'r cwmni sy'n gofrestredig â'r cynllun. Nodir Telerau ac Amodau'r Ffurflen Gais Pecynnau Debyd Uniongyrchol bod "*Angen slip cyflog o fewn y ddau fis diwethaf a bydd angen cael ei ddiweddarau bob blwyddyn*". Er bod tystiolaeth yn cael ei dderbyn ar gyfer ymaelodi, ni welwyd achos ble roedd slip cyflog wedi ei weld flwyddyn ar ôl hynny. Cadarnhawyd fod diffyg adnoddau ac amser yn rwystr i gyflawni hyn. Amlygwyd hyn i'r Rheolwr Canolfannau Byw yn Iach, a chytunodd i ymchwilio i wahanol opsiynau, megis bod aelodau sydd yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd yn talu'r ffi yn uniongyrchol o'u cyflogau.

3.1.3 Mae termau'r Cynllun Disgownt Corfforaethol yn cadarnhau y gellid gofyn i'r cwmni cofrestredig am restr o'r aelodau staff sydd wedi gadael eu cyflogaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn adnabod unrhyw aelodau sydd yn manteisio ar y disgownt heb fod yn deilwng iddo. Yn yr un modd â'r uchod, mae prinder adnoddau ac amser yn golygu ei fod yn amhosib i'w gyflawni. Trafodwyd hyn gyda Rheolwr y Canolfannau Byw yn Iach. Cytunwyd i ymchwilio'r opsiynau ar gyfer gohebu gyda'r cwmnïau i ofyn am gadarnhad o gyflogaeth aelodau.

3.1.4 Nid oes proses mewn lle ar gyfer adennill incwm gan unrhyw un sydd wedi elwa o'r disgownt corfforaethol heb fod yn gymwys iddo. Heb unrhyw fonitro o'r disgownt, mae'n ei wneud yn amhosibl adnabod yr aelodau hyn.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng ngweinyddiaeth ceisiadau debyd uniongyrchol canolfannau hamdden gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Ymchwilio a threialu gwahanol opsiynau ar gyfer lliniaru'r risg.
- Bod proses mewn lle i adennill arian gan unrhyw gwsmeriaid sydd wedi elwa o'r disgownt corfforaethol heb fod yn gymwys iddo.

CANOLFAN TENIS ARFON ECONOMI A CHYMUNED

1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Tennis Arfon yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys cyrtiau tenis, ystafelloedd ffitrwydd/pwysau a dosbarthiadau ffitrwydd.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y Ganolfan Hamdden er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.
- 2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o 4 Canolfan Hamdden ac ymweld yn ddirybudd er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli amrywiol risgiau a allai fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael a storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd bod rheolaethau mewnol cryf yn bodoli yng Nghanolfan Tennis Arfon, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol:
- 3.1.1 Cafodd gwiriad stoc y peiriant gwerthu ei wneud diwethaf ym mis Mai, nid yw'r peiriant gwerthu wedi bod yn gweithio tan yn ddiweddar iawn, ond mae'n weithredol bellach ac felly dylai bod y cofnod/gwiriad stoc yn gyfredol. Mae gwiriadau stoc hefyd yn cael eu cynnal ar yr offer a werthir yn y ganolfan yn fisol, detholwyd sampl o gofnodion i'w gwirio a gwelwyd bod 3 o'r 4 cofnod yma yn gywir.
- 3.1.2 Nid yw asesiadau risg y ganolfan wedi eu hadolygu'n flynyddol.
- 3.1.3 Wrth fynd o amgylch y ganolfan dim ond un poster yn hysbysu i beidio â thynnu lluniau a welwyd ac roedd hwn yn yr ystafell pwysau. Roedd y Rheolwr ar Ddyletswydd wedi dweud bod ganddynt rhai ar ddrysau'r toiledau ond nid oeddynt yno ar ddiwrnod yr ymweliad. Credai efallai bod y rhain wedi cael eu tynnu er mwyn paratoi'r drysau i gael eu peintio.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng Nghanolfan Tennis Arfon gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r ganolfan wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Atgoffa staff o'r angen i gynnal gwiriadau stoc yn gywir a'u bod yn cael eu cwblhau'n fisol.
- Adolygu'r asesiadau risg.
- Sicrhau bod posteri hysbysu i beidio â thynnu lluniau yn cael eu harddangos bob amser.

CANOLFAN HAMDDEN Y PAFILIWN ECONOMI A CHYMUNED

1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Y Pafiliwn, Abermaw yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys neuadd chwaraeon, ystafelloedd ffitrwydd/pwysau a sawna.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y ganolfan hamdden er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.
- 2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o 4 canolfan hamdden ac ymweld yn ddirybudd er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli amrywiol risgiau a allai fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael a storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod rheolaethau mewnol priodol yng Nghanolfan Hamdden Y Pafiliwn, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.
- 3.1.1 Nid yw'r peiriant gwerthu yn cael ei wacau yn unol â'r canllawiau IMS Gweithdrefnau Peiriannau Gwerthu, sef o leiaf unwaith y mis. Cadarnhaodd y Rheolwr ar Ddyletswydd fod hyn eisoes wedi bod yn destun trafodaeth gyda'r Swyddog Cefnogi Busnes a Systemau. Cytunwyd i wacau'r peiriant pob deufis gan nad oedd yn cynhyrchu llawer o incwm. Er hyn, gwelwyd tystiolaeth nad oedd y peiriant wedi ei wacau ers 4 mis. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, cadarnhaodd y Rheolwr Ardal a'r Rheolwr ar Ddyletswydd y byddai'r peiriant yn cael ei wacau yn fisol o hyn ymlaen. Derbyniwyd tystiolaeth yn profi iddo gael ei wacau yn ddiweddar.
- 3.1.2 Nid yw'r adroddiadau disgwylidig yn cael eu cynhyrchu, gwirio a'u hardystio yn fisol. Gwelwyd nad oedd adroddiadau 'Point of Sales Transactions', 'Point of Sales Transactions Cancelled', 'Record Refunded' na 'log in log out', wedi eu cynhyrchu ar gyfer y ddeufis diwethaf. Cadarnhaodd y Rheolwr ar ddyletswydd fod cyfnod hir o salwch wedi ei wneud yn anodd ymdopi gyda'r pwysau gwaith. Cynhyrchwyd adroddiadau mis Mehefin ar ddiwrnod yr ymweliad, gyda chadarnhad y byddai rhai mis Mai yn cael eu gwneud yn fuan. Derbyniwyd tystiolaeth yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft yn profi fod y rhain eisoes wedi eu cwblhau.
- 3.1.3 Ymddengys nad oes prawf llwybrau dianc mewn achos o dân wedi ei gynnal ers 2015. Cadarnhaodd y Rheolwr ar ddyletswydd ei fod yn cynnal y rhain yn ddyddiol, ond heb gadw cofnod ohonynt. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, gwelwyd tystiolaeth fod y rhain yn cael eu cynnal a'u cofnodi yn wythnosol erbyn hyn.

- 3.1.4 Gwelwyd fod sawl asesiad risg ar fas-data lechyd a Diogelwch heb eu hadolygu yn y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, nid yw'r asesiadau yn berthnasol bellach gan nad yw'r gweithgareddau yn cael eu cynnig yn y ganolfan.
- 3.1.5 Nid yw aelod newydd o staff achlysurol wedi derbyn anwythiad. Cadarnhaodd y Rheolwr ar Ddyletswydd ei fod yn anodd cael yr amser i'w anwytho gan ei bod ond yn gweithio nifer fechan o oriau. Bydd yn ymdrechu i wneud hyn yn y dyfodol agos.
- 3.1.6 Mae hyfforddiant Cymorth Cyntaf y Rheolwyr ar Ddyletswydd wedi dod i ben yn ddiweddar, cadarnhaodd y Rheolwr Ardal y byddai'n trefnu hyfforddiant ar eu cyfer yn y dyfodol agos.
- 3.1.7 Nid yw taflenni COSHH yn derbyn adolygiad rheolaidd yn unol â gofynion IMS/HS/09.1.4. Derbyniwyd tystiolaeth yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, fod taflenni newydd wedi eu derbyn erbyn hyn, a bod y Rheolwr ar Ddyletswydd wedi eu gwirio. Mae'r adolygiad nesaf yn ddyledus yn 2018.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Canolfan Hamdden Y Pafiliwn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau fod y peiriant gwerthu yn cael ei wacau o leiaf pob deufis.
- Bod yr adroddiadau disgwylidig yn cael eu cynhyrchu, gwirio a'u hardystio yn fisol.
- Cynnal profion llwybrau dianc yn wythnosol, gan gadw cofnod ohonynt.
- Sicrhau fod taflenni COSHH yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

CANOLFAN HAMDDEN GLAN WNION ECONOMI A CHYMUNED

1. Cefndir

1.1 Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhan o wasanaeth Cymunedau Iach, o fewn yr Adran Economi a Chymuned. Mae 4 Rheolwr Ardal yn gyfrifol am reoli'r Canolfannau sydd dan reolaeth yr Awdurdod. Mae Canolfan Hamdden Glan Wnion, Dolgellau, yn darparu nifer o wasanaethau i'r cyhoedd, gan gynnwys neuadd chwaraeon, ystafelloedd ffitrwydd/pwysau a dosbarthiadau ffitrwydd.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu yn y Ganolfan Hamdden er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a deddfau perthnasol eraill.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o 4 Canolfan Hamdden gan ymweld â hwy yn ddirybudd er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli amrywiol risgiau a allai fodoli yn y meysydd casglu incwm, rheolaeth gyllidebol, caffael a storio nwyddau, ac iechyd a diogelwch.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod rheolaethau mewnol priodol yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion, ond bod angen tynhau ar yr agweddau canlynol er mwyn lliniaru'r risgiau amlygwyd.

3.1.1 Gwelwyd fod camgymeriadau achlysurol yn cael eu gwneud wrth gyfrifo taflenni TR34 yn ystod gwaith 'bancio', sy'n arwain at yr Uned Incwm yn cywiro'r cyfansymiau drwy wneud defnydd o'r cod gwarged/diffyg. Golygai hyn nad yw'r Ganolfan yn ymwybodol o'r holl ddefnydd a wneir o'r cod yma.

3.1.2 Gwelwyd o adroddiadau system Gladstone bod nifer o ddyledion bach yn cael eu dileu oherwydd bod staff wedi mewnbynnu'r aelod anghywir i'r system. Mae hyn yn debygol o ddeillio wrth i aelod wneud cais i logi a pheidio cyflwyno cerdyn aelodaeth, boed dros y ffôn neu yn y dderbynfa a bod y cais yn cael ei brosesu yn erbyn aelod gydag enw tebyg.

3.1.3 Gwelwyd fod rhai cwsmeriaid yn mynychu sesiynau heb dalu ar y diwrnod ond nid oes tystiolaeth fod y dyledion yn cael eu talu yn brydlon. Eglurwyd i'r Archwilwr nad oes posib derbyn arian ar ddydd Sul a bod taliadau drwy gerdyn gydag isafswm o £5. O ganlyniad mae'r Ganolfan yn caniatáu i aelodau dibynadwy/rheolaidd i ddefnyddio'r cyfleuster ar yr amod eu bod yn talu ar eu hymweliad nesaf.

3.1.4 Cedwir Rhestr Eiddo cynhwysfawr o eitemau o fewn y Canolfan er mai eitemau dros £100 yn unig sydd angen eu cofnodi. Ymddengys fod y wybodaeth ar y taflenni IMS yn gamarweiniol ynglŷn â hyn gan ei fod yn nodi mai eitemau hyd at £100 mewn gwerth yn unig a ddylid eu cofnodi.

3.1.5 Gwiriwyd y trefniadau rheoli stoc a darganfuwyd ar un achlysur fod gwall rhifyddeg ar daenlen gwerthiannau peiriant Lucozade. Yn ogystal, gwelwyd o'r cofnodion bod nifer o boteli wedi eu gwaredu o'r storfa oherwydd eu bod wedi dyddio, gyda rhai ohonynt ar werth yn y peiriant ar y pryd.

- 3.1.6 Gwelwyd fod rhai archebion yn cael eu codi ar y system e-gaffael ar ôl i'r Ganolfan dderbyn anfoneb sy'n awgrymu nad oes ardystiad a gwahaniad dyletswyddau wrth archebu nwyddau ar bob achlysur.
- 3.1.7 Mae llechen a'r system 'Legend' yn cael eu defnyddio er mwyn cynnal profion dyddiol/wythnosol/misol ayb yn y Ganolfan. Gwelwyd o'r system nad oedd nifer o'r profion yn cael eu cwblhau neu eu cofnodi bob amser, ac yn achlysurol fod rhai o'r profion yn cael eu cofnodi ar bapur hefyd yn unol â'r drefn flaenorol.
- 3.1.8 Mae'r Ganolfan yn defnyddio 3 taflen i gofnodi'r hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer anwytho staff newydd ar gytundeb tra bod staff achlysurol yn derbyn hyfforddiant fel y mae'r rheolwr yn gweld ei angen.
- 3.1.9 Nid oedd y staff yn ymwybodol o'r Poster/pamffledi/cerdyn Diogelu a'r prosesau i'w dilyn. Eglurwyd y drefn i'r rheolwr gan amlygu'r cyswllt perthnasol ar y pamffled. Nid oedd y staff yn glir o'r hyfforddiant diogelu/amddiffyn sydd angen ei gwblhau. Gwelwyd fod rhai wedi derbyn y polisi Diogelu Plant ac Oedolion yn y Ganolfan Bolisi a bod dau aelod o staff wedi cwblhau'r modiwl Amddiffyn a Diogelu Plant ar y Porth E-Ddysgu. Nid oes neb o'r staff wedi cwblhau'r Modiwl Diogelu Oedolion.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Rheolwr wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau fod y profion angenrheidiol yn cael eu cwblhau a'u cofnodi'n amserol ar y system 'Legend' a lleihau'r achosion lle mae'r gwaith yn cael ei ddyblygu ar bapur yn ddiangen.
- Tynhau trefniadau er mwyn sicrhau bod taflenni TR34 / 'bancio' yn cael eu cyfrifo'n gywir cyn eu hanfon i'r Uned Incwm.
- Sicrhau fod archebion swyddogol yn cael eu codi cyn caffael nwyddau a bod gwahaniad dyletswyddau ynghlwm â'r broses.
- Sicrhau fod aelodau yn ymwybodol o'r drefn talu, mewn perthynas â thalu am bob sesiwn cyn cael mynediad i gyfleusterau'r ganolfan.
- Y Ganolfan i dderbyn ac arddangos poster Diogelu er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o'r drefn a'r prosesau mewn lle.
- Staff y Ganolfan i gwblhau'r Modiwl Amddiffyn a Diogelu Plant a'r Modiwl Diogelu Oedolion ar y Porth E-Ddysgu.

**PLAS MAESINCLA
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

1. Cefndir

- 1.1 Cartref preswyl ar gyfer pobl hŷn sydd wedi cael diagnosis am ddementia ydi Plas Maesincla, Caernarfon. Mae'r cartref wedi ei gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer 23 o breswylwyr.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Plas Maesincla yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Mae naws gartrefol a chyfeillgar i'r cartref ac mae rheolaethau da yn bodoli ond mae angen tynhau ar y meysydd canlynol:
- 3.1.1 Nid yw pob Cynllun Defnyddiwr yn cael ei ddiweddarau'n fisol yn unol â'r Safon Ofynnol Genedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hyn, nodir, *"mae cynllun defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei adolygu gan y staff gofal yn y cartref o leiaf unwaith y mis"*. Roedd y Rheolwr yn ymwybodol o hyn ac yn y broses o'u diweddarau yn dilyn cyfnod prysur yn y cartref.
- 3.1.2 Gwiriwyd cofnodion goruchwyllo sampl o staff a gwelwyd nad oedd pawb wedi cael eu goruchwyllo o fewn y deufis diwethaf yn unol â'r Safon Ofynnol Genedlaethol, *"mae'r staff gofal yn cael goruchwylloeth ffurfiol o leiaf pob deufis"*. Mae'r Rheolwr yn ei chael yn anodd goruchwyllo staff achlysurol sydd ond yn gweithio nifer fechan o ddyddiau'r wythnos.
- 3.1.3 Nid yw archebion yn cael eu llofnodi ar bob achlysur.
- 3.1.4 Nid yw anfonebau yn cael eu dyddio gyda'r stamp derbyn, sy'n ei gwneud yn anodd adnabod y pwynt treth ar gyfer cwblhau'r slip cyfeirebu TR252.
- 3.1.5 Mae hyd at £40 yn cael ei gadw mewn drôr heb glo yn y swyddfa. Mae bysellbad ar ddrws y swyddfa ond mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'r rhif. Trafodwyd hyn yn ystod yr ymweliad, roedd y Rheolwr â'r Clerc yn hapus gyda'r trefniant yma ac yn ymwybodol o ofynion yswiriant.
- 3.1.6 Nid oes ymarferiad gwacau wedi ei gynnal ers Chwefror 2015.
- 3.1.7 Gwiriwyd sampl o asesiadau risg generig y Cartref a gwelwyd nad oeddynt wedi cael eu hadolygu ers Chwefror 2016.
- 3.1.8 Wrth wirio taenlen hyfforddiant y Cartref gwelwyd nad oedd hyfforddiant Codi a Thrin a Diogelu Oedolion Bregus 8 aelod o staff yn gyfredol. Fodd bynnag, eglurwyd bod yr Hyfforddwr Codi a Thrin Pwysau wedi cadarnhau sawl sesiwn hyfforddiant ar gyfer y dyfodol agos. Cadarnhawyd fod llefydd yn brin ar y cyrsiau Diogelu Oedolion Bregus ond bod y cartref wedi hysbysu'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu o'r aelodau

staff sydd angen hyfforddiant yn y maes.

- 3.1.9 Mae bysellbad ar ddrws yr ystafell feddyginiaeth, fodd bynnag, yn ystod yr ymweliad gwelwyd fod drws yr ystafell heb ei gau yn dynn. Hysbyswyd y Rheolwr o hyn a cafodd ei gau yn dynn ar unwaith.

4. Barn yr Archwiliad

(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheoli a chynnal Cartref Plas Maesincla gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Diweddarau Cynlluniau Gofal Defnyddwyr Gwasanaeth yn fisol yn unol â'r Safon Ofynnol Genedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hyn.
- Neilltuo amser ar gyfer goruchwyliaeth staff, o leiaf bob 2 fis yn unol â'r Safon Ofynnol Genedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hyn.
- Sicrhau fod pob archeb yn cael ei hawdurdodi a'i harwyddo gan swyddog priodol.
- Defnyddio stamp derbyn ar bob achlysur o hyn ymlaen.
- Sicrhau bod ymarferion gwacau yn cael eu cynnal yn flynyddol.
- Sicrhau fod asesiadau risg sy'n ymwneud â'r cartref yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

PLAS HAFAN
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

1. Cefndir

1.1 Cartref gofal preswyl i bobl hŷn yw Plas Hafan, Nefyn. Mae'r cartref wedi ei gofrestru ar gyfer 32 o breswylwyr.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Plas Hafan yn briodol ac yn unol a rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwelwyd bod naws cartrefol a chyfeillgar i'r cartref. Yn ogystal, gwelwyd o'r archwiliad fod trefniadau rheoli a chynnal y Cartref yn briodol, a chaiff hyn ei atgyfnerthu gan adroddiadau diweddar gan yr AGGCC yn ogystal â threfniadau monitro mewnol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

3.2 Mae'r 'Datganiad o Bwrpas' wedi ei gynnwys yn nogfen 'Canllaw i'r defnyddiwr Gwasanaeth' y Cartref. Gwiriwyd y datganiad er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cydfynd â Atodiad 1 o Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002. Gwelwyd bod y cynnwys yn briodol, ond bod ambell wybodaeth ddim yn gynnwysedig, megis cofnod o gymwysterau aelodau unigol o'r staff, a manylion ynglyn â maint yr ystafelloedd, er derbyniwyd nad yw hyn yn gwbl ymarferol.

3.3 Yn dilyn trafodaeth gyda'r Rheolwr a'r clerc, darganfuwyd y buasai'n fuddiol petai'r swyddogion yma yn cael mynediad *darllen yn unig* at y cyfriflyfr. Bydd hyn yn golygu bod y cartref gyda mynediad at eu cyllideb a manylion gwariant heb orfod dibynnu ar yr Uned Gyllid.

3.4 Mewn perthynas â archebu a thalu am nwyddau, ymddengys bod rhai archebion swyddogol yn cael eu creu ar ôl dyddiad yr anfoneb.

3.5 Gwelwyd bod gweithwyr yn mynychu hyfforddiant yn briodol. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd y daenlen cofnodi hyfforddiant yn gwbl gyfredol a ddim yn cysoni gyda'r basdata hyfforddiant. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddiweddarau'r daenlen yma.

4. Barn yr Archwiliad

(A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Plas Hafan gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Diweddarau cofnodion hyfforddiant gweithwyr y Cartref er mwyn cadw'r wybodaeth yn gyfredol a hwyluso'r drefn o fonitro bylchau mewn sgiliau.
- Rheolwr a'r Clerc i ymholi'r Uned Gyllid er mwyn derbyn mynediad 'darllen yn unig' a

hyfforddiant ar y cyfriflyfr er mwyn monitro taliadau a'u cyllideb yn rhagweithiol.

- Sicrhau fod archebion yn cael eu codi a'u hardystio yn y llyfr archeb cyn i'r nwyddau neu'r gwasanaeth gael eu cyflenwi.

Atodiad 9

PLAS OGWEN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

1. Cefndir

- 1.1 Cartref gofal ar gyfer oedolion hŷn ydi Plas Ogwen, Bethesda. Mae'r cartref wedi ei gofrestru ar gyfer 27 o breswylwyr.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Preswyl Plas Ogwen yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael ei ddiogelu.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Mae naws gartrefol a chyfeillgar i'r cartref ac mae rheolaethau da yn bodoli ond mae angen tynhau ar y meysydd canlynol:
 - 3.1.1 Nid oedd Datganiad o Ddiben y cartref yn gwbl gyfredol, ond cafwyd gwybod ei fod eisoes yn destun adolygiad pan gynhaliwyd yr archwiliad.
 - 3.1.2 Nid yw staff yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol pob deufis, sydd yn ddisgwyliaid a osodir yn Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Cadarnhawyd ei bod yn anodd cael amser i oruchwylio staff nos ac achlysurol.
 - 3.1.3 Nid yw anfonebau yn cael eu dyddio gyda'r stamp derbyn ar bob achlysur. Golyga hyn ei bod yn anodd adnabod y pwynt treth sydd ei angen i gwblhau'r slip cyfeirebu TR252. Prynwyd stamp ar gyfer y gegin yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, ar gyfer dyddio'r anfonebau a dderbynnir yno.
 - 3.1.4 Nid oedd y ffurflenni TR34 yn cael eu gwirio a'u hardystio gan ail swyddog.
 - 3.1.5 Mae gan bob aelod o staff y cartref fynediad i'r sêff, fe drafodwyd hyn ymhellach gyda'r Rheolwr, ac roedd yn hapus gyda'r drefn.
 - 3.1.6 Y Swyddog Mewn Gofal sydd yn gyfrifol am allweddi'r cartref gan gynnwys allweddi'r ystafell feddyginiaeth. Mae'r allweddi yn cael eu trosglwyddo i'r Swyddog Mewn Gofal nesaf ar ddiwedd pob sifft. Mae disgwyliaid eu bod yn cadw'r allweddi arnynt drwy gydol y sifft. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr ymweliad, gwelwyd bod yr allweddi wedi eu cadw mewn drôr yn y swyddfa gan eu bod yn drwm i'w cario. Derbyniwyd tystiolaeth yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, fod y Rheolwr wedi archebu bratiau a chadwyni er mwyn hwyluso cario'r allweddi.
 - 3.1.7 Yn dilyn ymddiswyddiad, mae angen Gweithiwr Allweddol newydd ar gyfer un o'r preswylwyr, gan nad oedd adolygiad asesiad risg wedi ei wneud ers dros chwe mis, ble dylid eu cwblhau yn fisol. Roedd y Rheolwr eisoes yn ymwybodol o hyn ac yn y broses o drefnu i gynnal asesiad newydd.
 - 3.1.8 Nid yw asesiadau risg wedi bod yn cael eu hanfon gyda'r ffurflenni HS11 (Accidents and Incidents Report) wrth adrodd damweiniau. Cytunwyd y byddai hyn yn digwydd

o hyn ymlaen.

- 3.1.9 Er bod copi cyfredol o Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion ar gael i staff, nid oedd tystiolaeth fod y gweithwyr wedi eu darllen. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, derbyniwyd tystiolaeth gan y Rheolwr yn cadarnhau fod pawb ond un aelod staff wedi darllen y Polisi erbyn hyn.
- 3.1.10 Wrth wirio taenlen hyfforddiant y cartref gwelwyd bod sawl aelod o staff heb dderbyn hyfforddiant 'Diogelu Oedolion Bregus' ers sawl blynedd, gydag un aelod o staff heb gael ers 2001. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Rheolwr bod hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer 9 aelod o staff o fewn y 4 mis nesaf.
- 3.1.11 Nid yw profion cymhwysedd meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n flynyddol, gyda llawer heb eu cwblhau ers 2013. Hefyd, nid yw'r cofnod o bwy sydd yn cael gweinyddu meddyginiaeth yn gyfredol, gan nad ydi un aelod o staff ar y rhestr yn gweithio i'r cartref bellach. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft cadarnhaodd y Rheolwr fod cofnod staff sydd yn cael darparu meddyginiaeth wedi ei ddiweddarau, ond ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny.
- 3.1.12 Er bod copi o'r Polisi Feddyginiaeth ar gael yn yr ystafell Feddyginiaeth ac yn y Swyddfa, mae tystiolaeth yn dangos mai'r Is-reolwr yn unig sydd wedi ei ddarllen ers 2016. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft derbyniwyd tystiolaeth gan y Rheolwr yn cadarnhau fod pob aelod staff erbyn hyn wedi darllen a deall y Polisi.
- 3.1.13 Gwiriwyd sampl o 5 ffurflen MAR (Medication Administration Record) a gwelwyd nad oedd dau aelod o staff wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi derbyn y feddyginiaeth ym mhob achos. Wrth wirio trefniadau dychwelyd/gwaredu meddyginiaeth gwelwyd 2 achos ble mai ond un aelod o staff oedd wedi arwyddo'r daflen 'Destroyed or Returned Medication' ble mae angen dau lofnod. Hysbyswyd yr Is-reolwr o'r diffygion yma yn ystod yr ymweliad, roedd yn ymwybodol o ofynion y Polisi. Cadarnhaodd y Rheolwr ei bod wedi cynnal goruchwyliaeth gyda'r aelodau staff hyn yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad drafft, yn eu hatgoffa o'r pwysigrwydd fod dau aelod o staff gwahanol yn arwyddo wrth dderbyn a gwaredu meddyginiaeth. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi hynny.
- 3.1.14 Mae gwaith wedi cychwyn ar gyfer cwblhau gofynion "The Quality Dashboard" yn dilyn Archwiliad gwael o Reoli Safle'r cartref. Hefyd, fe dderbyniwyd adroddiad negyddol yn ddiweddar yn dilyn archwiliad o fwydlenni'r cartref, cadarnhaodd y Rheolwr y bydd y rhain yn destun adolygiad yn y dyfodol agos.

4. Barn yr Archwiliad

(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Cartref Plas Ogwen gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion/twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae'r Cartref wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Sicrhau fod amser yn cael ei neilltuo ar gyfer goruchwyliaeth un-wrth-un, o leiaf bod 2 fis, a bod cofnodion ffurfiol yn cael eu cadw yn unol â'r Safon Ofynnol Genedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hyn.
- Anfon yr asesiadau risg perthnasol gyda'r ffurflenni HS11 o hyn ymlaen.
- Sicrhau fod profion cymhwysedd meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn flynyddol.
- Diweddarau'r rhestr o staff sy'n gymwys i weinyddu meddyginiaeth.

- Dau aelod o staff i lofnodi'r ffurflenni MAR wrth dderbyn meddyginiaeth pob amser.
- Dau aelod o staff i lofnodi'r ffurflenni "Return of Medication" wrth waredu meddyginiaeth.

Atodiad 10

TAN Y MARIAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

1. Cefndir

- 1.1 Cartref preswyl sy'n darparu gofal i hyd at naw o oedolion iau sydd ag anableddau dysgu yw Cartref Tan y Marian, Pwllheli.

2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli a chynnal Cartref Tan y Marian yn briodol ac yn unol â rheoliadau a safonau perthnasol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod trefniadau'r cartref yn ddigonol o ran gweinyddiaeth a staffio, rheolaeth gyllidebol, caffael nwyddau a derbyn incwm, iechyd a diogelwch, a monitro perfformiad ynghyd â sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth a'u heiddo'n cael eu diogelu.

3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Cyhoeddwyd adroddiad, dyddiedig 30 Ionawr 2017, gan yr AGGCC (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru), yn nodi: "Ar y cyfan, canfuom fod pobl yn derbyn gwasanaeth da yng nghartref Tan y Marian, lle y mae ganddynt berthnasau cadarnhaol â'r staff ac yn cael eu gofalu amdanynt mewn ffordd gyfeillgar, ymlaciedig." Er bod cwmpas yr archwiliad mewnol yn gorgyffwrdd ag arolygiad yr AGGCC, ni chwtogwyd ar y profion archwilio ond manteisiwyd ar y cyfle i wirio'r gweithrediadau yn erbyn yr argymhellion a gynigwyd gan yr AGGCC. Gweler isod y prif ddarganfyddiadau oedd yn deillio o'r archwiliad:
 - 3.1.1 Mae'r 'Datganiad o Bwrpas' wedi ei gynnwys yn nogfen 'Canllaw i'r defnyddiwr Gwasanaeth' y Cartref. Gwiriwyd y datganiad er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cyd-fynd ag Atodiad 1 o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002. Gwelwyd bod y cynnwys yn briodol, ond nad oedd ambell wybodaeth yn gynwysedig, megis manylion ynglŷn â maint yr ystafelloedd - er y derbynnir nad yw hyn yn gwbl ymarferol, a bod y paragraff agoriadol (Nodau ac Amcanion) yn cyfeirio at 'henoed'.
 - 3.1.2 Gwiriwyd Cynlluniau Gofal sampl o breswylwyr a gwelwyd eu bod yn gynhwysfawr iawn. Fodd bynnag, darganfuwyd nad oedd yr arolygiadau cyfnodol (sef y nodiadau dyddiol, misol, 3 misol a 6 misol) yn gyfredol.
 - 3.1.3 Nid oes cytundebau mewn lle rhwng y Cyngor a'r preswylwyr sydd wedi preswyllo yn y Cartref ers amser maith.
 - 3.1.4 Mynegodd adroddiad AGGCC bod amllder sesiynau goruchwyllo yn ymddangos i fod yn anghyson, ac argymhellir y dylai gweithwyr gofal dderbyn goruchwyliaeth ffurfiol o leiaf unwaith bob deufis ac arfarniadau staff bob deuddeg mis. Wrth wirio cofnodion goruchwyliaeth sampl o weithwyr, gwelwyd nad oeddynt yn cael eu cynnal pob deufis, ond bod camau ar y gweill i fynd i'r afael â hyn.
 - 3.1.5 Gwelwyd enghraifft o gamgymeriad ar gerdyn gwyliau un gweithiwr, ble nad oedd y cyfanswm gwyliau wedi ei gyfrifo yn gywir yn dilyn cais am wyliau. Nid oedd y camgymeriad wedi ei gywiro er bod dau achlysur diweddarach o gofnodi ar y cerdyn.

Roedd y camgymeriad yn golygu fod gan y gweithiwr 10 awr yn ormod o wyliau.

- 3.1.6 Yn dilyn trafodaeth gyda'r Rheolwr a'r Clerc, darganfuwyd y buasai'n fuddiol petai'r swyddogion yma yn cael mynediad *darllen yn unig* at y cyfriflyfr. Golyga hyn y bydd gan y cartref mynediad at eu cyllideb a manylion gwariant heb orfod dibynnu ar yr Uned Gyllid.
- 3.1.7 Detholwyd sampl o 13 anfoneb ac ymddengys ar gyfer 5 ohonynt fod yr archeb wedi ei chodi yn dilyn derbyn yr anfoneb.
- 3.1.8 Detholwyd sampl o ffurflenni E11, sef 'Cofnod o Arian Preswilydd' ar gyfer 3 o'r Preswylwyr. Gwelwyd nad oedd yna dyst wedi arwyddo'r E11 ar sawl achlysur ac nad oedd derbynebau ar gael i gefnogi'r holl wariant. Mae trefniant cofnodi arian preswylwyr yn destun archwiliad ar wahân yng Nghynllun Archwilio 2017/18 a bydd Archwilio Mewnol yn ail ymweld â threfniadau Tan y Marian maes o law.
- 3.1.9 Yn ystod yr ymweliad gwelwyd fod drws y fynedfa a drws allanol o'r gegin a'r ystafell staff wedi eu dal ar agor ar fachyn. Trafodwyd y risg o gadw drysau yn agored gyda'r Rheolwr, nid yn unig i atal preswylwyr rhag ymadael, ond i atal unigolion anawdurdodedig rhag cael mynediad. Credai'r Cartref bod angen symud i ffwrdd o systemau gwrth risg a bod hawliau'r unigolion yn goresgyn unrhyw risg dderbyniol. Mynegwyd nad oes achosion wedi bod o fynediad anawdurdodedig, na chwaith unrhyw breswilydd yn mynd ar goll.
- 3.1.10 Mynegir adroddiad AGGCC (30 Ionawr 2017): "gwelsom botel chwistrellu a oedd yn cynnwys diheintydd yn y ddwy ystafell ymolchi a oedd o fewn cyrraedd hawdd y preswylwyr. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn, a dywedodd y byddai'n eu rhoi dan glo." Ar ddiwrnod ymweliad Archwilio Mewnol, gwelwyd bod deunydd cemegol glanhau toiled o fewn cyrraedd hawdd y preswylwyr yn y toiledau.
- 3.1.11 Gwelwyd fod cofnod anghyson yn cael ei gadw o dymheredd yr ystafell meddyginiaeth. Nid oedd y tymheredd wedi ei gofnodi am 5 o'r 22 diwrnod ym mis Mehefin hyd nes ymweliad Archwilio Mewnol. Gwelwyd ar adegau bod tymheredd yr ystafell yn gallu uchafu'r uchafswm ('yn gyffredinol') o 25 gradd sydd wedi ei nodi yn y Polisi.

4. Barn yr Archwiliad

(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Cartref Tan y Marian gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae'r Cartref wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:

- Cynnal arolygon cyfnodol o'r Cynlluniau Gofal.
- Parhau i weithio tuag at sefydlu trefn ble mae gweithwyr gofal yn derbyn goruchwyliaeth ffurfiol o leiaf unwaith bob deufis ac arfarniadau staff bob deuddeg mis.
- Gwirio bod y cyfansymiau ar y cardiau gwyliau yn gywir wrth gymeradwyo gwyliau.
- Rheolwr a'r Clerc i ymholi'r Uned Gyllid er mwyn derbyn mynediad 'darllen yn unig' a hyfforddiant ar y cyfriflyfr er mwyn monitro taliadau a'u cyllideb yn rhagweithiol.
- Sicrhau fod archebion yn cael eu codi a'u hardystio yn y llyfr archeb cyn i'r

nwyddau neu'r gwasanaeth gael eu cyflenwi.

- Symud deunydd cemegol glanhau toiled i fan diogel.
- Cofnodi tymheredd yr ystafell feddyginiaeth yn ddyddiol.

Eitem 9

PWYLLGOR	PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU
DYDDIAD	28 MEDI 2017
TEITL	CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18
PWRPAS YR ADRODDIAD	DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18
AWDUR	LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO
GWEITHREDIAD	ER GWYBODAETH

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18.

2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2017/18 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 15 Medi 2017 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

Statws yr Archwiliad	Nifer
Wedi ei gynllunio	31
Crëwyd Papurau Gwaith	3
Gwaith Maes ar y gweill	11
Cwblhawyd Gwaith Maes	5
Disgwyl Adolygiad	2
Adroddiad Drafft	0
Adroddiad Terfynol	12
Cyfanswm	64

2.2 Targed perfformiad 2017/18 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2018. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

Diwedd chwarter 1	8%
Diwedd chwarter 2	20%
Diwedd chwarter 3	50%
Diwedd chwarter 4	95%

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 15 Medi 2017 oedd **18.75%** - allan o'r **64** archwiliad unigol yng nghynllun 2016/17 roedd **12** wedi eu ryddhau yn derfynol ac mae'n ddisgwyliedig y bydd y ffigwr yma'n cynyddu i **26.5%** erbyn 30 Medi 2017.

3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN

- 3.1 Mae dyraniad dyddiau un o'r archwiliadau yn y cynllun gwreiddiol sef "Canolfannau Hamdden" wedi ei neilltuo i bedair canolfan hamdden unigol. Cynhaliwyd ymweliad dirybudd â'r canolfannau a ddetholwyd.

- 3.2 Roedd 20 diwrnod wedi ei neilltuo ar gyfer archwiliad "Incwm Cinio Ysgol" ond ymddengys nad yw'r trefniadau newydd wedi eu sefydlu'n gadarn ar hyn o bryd, felly penderfynwyd trosglwyddo 12 diwrnod ar gyfer ymgymryd â archwiliadau Grant Gwisg Ysgol ar gyfer blynyddoedd 2014/15, 2015/16 a 2016/17 yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2017/18, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.



Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
CORFFORAETHOL						
1-CORFF-01/2018	Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol - Defnydd o Sachau Coch a Llarpiwyr	10.00	0.00	10.00		Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-09/2018/001	Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-09/2018/002	System Integredig Dysgu a Datblygu	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-11/2018	Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thystiolaeth o Gymwysterau	15.00	0.00	15.00	9.61	Disgwyl Adolygiad
1-CORFF-12/2018	Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch	15.00	0.00	15.00	15.12	Adroddiad Terfynol
1-CORFF-13/2018	Gweinyddu Costau Teithio Hunan-wasanaeth	5.00	0.00	5.00		Wedi ei gynllunio
1-CORFF-19/2018/001	Trefniadau Diogelu - Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi	35.00	0.00	35.00	1.39	Gwaith Maes ar y gweill
1-CORFF-19/2018/002	Trefniadau Diogelu - Sefydliadau	4.00	0.00	4.00	0.31	Gwaith Maes ar y gweill
1-CPGV-01/2018	Diwylliant ac Ymddygiad - Barn y Gweithlu	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
1-CPGV-02/2018	Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol	20.00	0.00	20.00	16.04	Disgwyl Adolygiad
2-ADN-SGC-DPA/2018cy	Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	6.00	0.00	6.00	0.45	Gwaith Maes ar y gweill
AO-ARL-05/2018	Y Fenter Twyll Genedlaethol	40.00	0.00	40.00	14.47	Gwaith Maes ar y gweill
ADDYSG						
Adnoddau						
4-DAT-X-ADD/2018/GY	Grant Gwisg Ysgol	0.00	12.00	12.00	8.97	Cwblhawyd Gwaith Maes
4-DAT-X-ADD/2018GAD	Grant Amddifadedd Disgyblion	10.00	0.00	10.00	7.70	Gwaith Maes ar y gweill
4-DAT-X-ADD/2018GGA	Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion	15.00	0.00	15.00	10.68	Cwblhawyd Gwaith Maes
4-DAT-X-ADD/2018oI16	Grant Addysg Ôl-16	3.00	0.00	3.00		Wedi ei gynllunio
EADDA03/2018	Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Cynradd ac Uwchradd	25.00	0.00	25.00	4.28	Crewyd Papurau Gwaith
EADDA29/2018	Iechyd a Diogelwch - Cynradd	25.00	0.00	25.00	2.35	Gwaith Maes ar y gweill
GwE						
4-GWE/2018	Trefniadau Busnes	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
Ysgolion						
EADDA21/2018	Incwm Cinio Ysgol	20.00	-12.00	8.00		Wedi ei gynllunio
EADDA35/2018	Ysgolion - Cyffredinol	10.00	0.00	10.00	0.22	Gwaith Maes ar y gweill

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
ASiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru						
3-AMG-ACGC/2018	Iechyd a Diogelwch	25.00	0.00	25.00		Wedi ei gynllunio
CEFNOGAETH GORFFORAETHOL						
Democratiaeth						
BB-YSG-18/2018	Hyfforddi Aelodau Newydd	10.00	0.00	10.00	9.18	Adroddiad Terfynol
CYLLID						
Ar draws yr adran						
AW-TG-12/2018tg	Diogelwch Systemau TG	30.00	0.00	30.00		Wedi ei gynllunio
Ariannol						
AD-DY-01/2018	Trefniadau Adennill Dyledion a Gweithrediad Cyfreithiol	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
Cyfrifeg						
AN-ACY-10/2018	Praeseptau	5.00	0.00	5.00	7.42	Adroddiad Terfynol
Pensiynau a Chyflogau						
AP-PEN-01/2018	Cronfa Bensiwn - Cyffredinol	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
AP-PEN-15/2018	Grantiau Marwolaeth	15.00	0.00	15.00	12.50	Adroddiad Terfynol
Reiniw						
AB-BD-01/2018kc	Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol	12.00	0.00	12.00	2.54	Gwaith Maes ar y gweill
AC-TR-01/2018	System Treth Cyngor - Advantage Digital Portal	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
ECONOMI A CHYMUNED						
Adfywio Cymunedol						
EADDZ-01/2018	Cronfa'r Degwm	5.00	0.00	5.00		Wedi ei gynllunio
Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau						
EDIW-MU-03/2018/001	Storiel - Cau i Lawr y Prosiect	5.00	0.00	5.00		Wedi ei gynllunio
EDIW-MU-03/2018/002	Ymweliad Di-Rybudd	1.00	0.00	1.00		Wedi ei gynllunio
Hamdden						
E-DGO-01/2018/002	Taliadau Debyd Uniongyrchol Aelodaeth	10.00	0.00	10.00	10.04	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6402/2018	Canolfan Tennis Arfon	12.00	0.00	12.00	9.47	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6443/2018	Canolfan Hamdden y Pafiliwn	10.00	0.00	10.00	9.96	Adroddiad Terfynol
EHAMAC6444/2018	Pwll Nofio Bro Ffestiniog	8.00	0.00	8.00	8.68	Cwblhawyd Gwaith Maes

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
EHAMAC6446/2018	Canolfan Hamdden Glan Wnion	10.00	0.00	10.00	11.05	Adroddiad Terfynol
Morwrol a Pharciau Gwledig						
EHAMM-03/2018	Doc Fictoria	10.00	0.00	10.00	1.16	Crewyd Papurau Gwaith
Strategaeth a Datblygu						
DDAT-AD-02/2018	Menter Adfywio Glannau a Chanol Tref Caernarfon – Trefniadau Llywodraethu	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT						
Busnes						
GRH-CD01/2018	Trefniadau Comisiynu	30.00	0.00	30.00		Wedi ei gynllunio
Cefnogi Pobl						
GDAPR-SP01/2018	Grant Cefnogi Pobl	15.00	0.00	15.00	8.89	Cwblhawyd Gwaith Maes
Oedolion						
GGWAS-H07/2018tel	Teleofal	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
Priswyl a Dydd						
5-GOF-CART1333/2018	Plas Maesincla, Caernarfon	12.00	0.00	12.00	12.27	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1338/2018	Plas Hafan, Nefyn	12.00	0.00	12.00	11.51	Adroddiad Terfynol
5-GOF-CART1339/2018	Plas Ogwen, Bethesda	12.00	0.00	12.00	12.08	Adroddiad Terfynol
GDARP-D07/2018	Tai Cefnogol	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio
GDARP-D08/2018/tm	Tan y Marian	10.00	0.00	10.00	10.19	Adroddiad Terfynol
GDARP-D08/2018/yf	Y Frondeg	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
GGWAS-D11/2018	Cynllun Lleoli Oedolion	15.00	0.00	15.00	1.03	Wedi ei gynllunio
PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD						
Plant a Theuluoedd						
5-GOF-X-PL/2018	Grantiau	24.00	0.00	24.00		Wedi ei gynllunio
GGWAS-P05/2018	Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
GGWAS-PLANT8/2018	Cynlluniau Gofal a Chymorth (Plant) o dan Rhan 4 DGC 2014	20.00	0.00	20.00		Wedi ei gynllunio
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL						
Fflyd						
PGW-TR-02/2018	Depos	15.00	0.00	15.00	1.72	Crewyd Papurau Gwaith
Rheoli Gwastraff a Strydoedd						

Côd yr Archwiliad	Enw'r Archwiliad	Cynllun Gwreiddiol	Addasiad	Cynllun Addasiedig	Gwir Ddyddiau	Statws yr Archwiliad
PBW-10/2018/001	Targedau Ailgyrchu	10.00	0.00	10.00	0.20	Wedi ei gynllunio
PBW-10/2018/002	Casglu Gwastraff Gardd	15.00	0.00	15.00	10.04	Cwblhawyd Gwaith Maes
RHEOLEIDDIO						
Gwarchod y Cyhoedd						
2ADN-GGYC-GYC/2018bw	Hylendid Bwyd	8.00	0.00	8.00	0.45	Wedi ei gynllunio
BB-YSG-11/2018	Trwyddedu	8.00	0.00	8.00		Wedi ei gynllunio
Tir ac Eiddo'r Cyngor						
BA-EID-04/2018	Maddaliadau	8.00	0.00	8.00	0.74	Gwaith Maes ar y gweill
BA-EID-05/2018	Cynlluniau Adeiladu Ysgolion - Ysgol Glancegin	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
Trafnidiaeth a Gofal Stryd						
DDAT-CC-01/2018	Tocynnau Mantais Bws	8.00	0.00	8.00		Wedi ei gynllunio
TAI						
Rhent a Rheolaeth Tai						
T-TAI-T01/2018	Rhestr Aros Tai	12.00	0.00	12.00	3.89	Gwaith Maes ar y gweill
YMGYNGHORIAETH GWYNEDD						
Adeiladau ac Amgylcheddol						
PYMG01/2018	Statws Cyflogaeth	10.00	0.00	10.00		Wedi ei gynllunio
Ar draws yr adran						
PYMG-CON/2018	Achrediadau	15.00	0.00	15.00		Wedi ei gynllunio

Eitem 10

PWYLLGOR

PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

DYDDIAD

28 MEDI 2017

TEITL

ARDRETHI ANNOMESTIG – RHYDDHAD DEWISOL

PWRPAS YR ADRODDIAD

GOFYN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU SEFYDLU GWEITHGOR I YMCHWILIO I AC ADOLYGU POLISI'R CYNGOR AR GANIATAU RHYDDHAD DEWISOL

AWDUR

DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG

GWEITHREDIAD

YSTYRIED A PHENDERFYNU OS DYLLID SEFYDLU GWEITHGOR I YMCHWILIO I'R MATER CYN I'R CABINET YSTYRIED FFRAMWAITH NEWYDD

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Un o gyfrifoldebau statudol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod, yn unol ag Adran 81(1)(b) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymgymryd â swyddogaeth craffu ar faterion corfforaethol.
- 1.2 Mae Polisi'r Cyngor ar gyfer caniatáu Rhyddhad Dewisol i Dalwyr Ardrethi Annomestig wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn, ac wedi derbyn mân addasiadau. Mae felly'n amserol i'r Cyngor i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi Rhyddhad Dewisol nid yn unig er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas yn sgil newidiadau deddfwriaethol, ond hefyd i ystyried os yw'r rhyddhad y mae'r Cyngor yn ei ganiatáu wedi ei anelu i'r manau cywir ac yn fforddiadwy yng ngŵydd yr angen parhaus i ddarganfod arbedion.
- 1.3 Mae'r Polisi cyfredol yn ymddangos yn yr Atodiad.

2. CEFNIDIR

- 2.1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a gyflwynodd Ardrethi Annomestig ar eu ffurf bresennol; hwn yw'r prif ddeddfwriaeth sy'n parhau osod y cyd-destun cyfreithiol.
- 2.2 Mae Ardrethi Annomestig (neu Trethi Busnes, neu NNDR) yn dreth ar eiddo. Mae'n berthnasol i pob eiddo sydd ddim yn eiddo domestig neu sydd ddim wedi ei eithrio o drethiant (e.e. eiddo amaethyddol).
- 2.3 Er mai "Trethi Busnes" yw'r enw a ddefnyddir amlaf, nid yw nifer o'r eiddo sydd yn destun y dreth yma yn "fusnesau" yng ngwir ystyr y gair, gan eu bod yn cynnwys amrywiaeth o adeiladau megis adeiladau'r Cyngor, neuaddau pentref, cytiau traeth ac adeiladau a ddefnyddir gan elusennau.
- 2.4 Mae oddeutu 7,500 eiddo ("hereditament") o fewn Gwynedd sy'n ddarostyngedig i Ardrethi Annomestig.
- 2.5 Defnyddir dau ffactor i gyfrifo bil treth busnes unrhyw eiddo:
 - **gwerth trethiannol** yr eiddo fel a bennwyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). Aseiad proffesiynol o'r rhent blynyddol y byddai eiddo yn ei gael ar ddyddiad penodol ydi'r gwerth trethiannol.
 - **lluosydd** a osodir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r lluosydd yn gyson ar gyfer pob busnes ac ar gyfer pob awdurdod lleol – dyma a olygir gyda'r ymadroddiad "Uniform Business Rate".

2.6 Felly:

Bil Treth Busnes = Gwerth ardrethol x Y Lluosydd Cenedlaethol

2.7 Adran 43 o Ddeddf 1988 sydd yn amlinellu'r uchod; mae'r rhan hon o'r Ddeddf hefyd yn datgan mai 20% o'r uchod sydd yn daladwy ar eiddo a ddefnyddir gan elusen at bwrpasau elusennol neu gan Glwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC).

2.8 Hynny yw, ar gyfer Elusen neu CASG:

Bil Treth Busnes = 0.2 x Gwerth ardrethol x Y Lluosydd Cenedlaethol

2.9 Mae Adran 43 hefyd yn creu darpariaeth i Weinidogion Cymru ganiatáu rhyddhad i garfannau o eiddo, megis "busnesau bach" sydd ag eiddo â gwerth ardrethol llai na swm penodol.

2.10 Rôl casglwr trethi sydd gan y Cyngor mewn perthynas â Trethi Busnes. Mae'r Cyngor, yn ei rôl fel "awdurdod bilio", yn caglu trethi busnes ac yn talu'r swm drosodd i Pŵl Ardrethi Annomestig Cenedlaethol Cymru, gyda'r Cyngor wedyn yn derbyn cyfran o gyfanswm y pŵl yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Y Pŵl Cenedlaethol sydd yn ysgwyddo baich ariannol pob ryddhad mandadol a ganiateir.

3. HAWL DEWISOL I OSTWNG ARDRETHI ANNOMESTIG

3.1 Mae Adran 47 o Ddeddf 1988 yn cynnwys darpariaeth ddewisol i awdurdodau bilio addasu ardrethi annomestig (heblaw am mewn achosion penodol megis eiddo awdurdod lleol), yn ychwanegol i'r rhyddhad mandadol a ganiateir trwy Adran 43. Rhaid i'r Cyngor ystyried pob cais am ryddhad o'r fath yn ôl ei haeddiant, ond lluniwyd fframwaith polisi er mwyn rhoi arweiniad gwrthrychol wrth ystyried os am ganiatáu rhyddhad dewisol lle nad yw'r trethdalwr yn elusen neu CASC, neu er mwyn cynyddu'r rhyddhad sydd ar gael i elusen / CASC o'r 80% mandadol i hyd at 100%.

3.2 Mae cost ariannol i'r awdurdod o ddefnyddio'i disgresiwn lleol i ganiatáu rhyddhad o'r fath. Yn unol â Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethi Annomestig (Cymru) 1992, mae cyfran y gost yma sy'n daladwy gan y trethdalwyr lleol yn amrywio ar sail natur y busnes sydd yn derbyn y rhyddhad:

Math	Uchafswm y Rhyddhad	Cyfran o'r gost sy'n dod o'r Pŵl Cenedlaethol	Cyfraniad o'r Gost sy'n dod gan y Cyngor
Rhyddhad dewisol ychwanegol i elusen (yn ychwanegol i'r 80% mandadol)	20% Ychwanegol	25%	75%
Rhyddhad dewisol pellach i CASC (yn ychwanegol i'r 80% mandadol)	20% Ychwanegol	90%	10%
Rhyddhad dewisol i gorff sydd ddim am elw, gydag amcanion elusennol neu sy'n ddyngarol neu grefyddol neu'n ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain	100%	90%	10%
Rhyddhad dewisol i gorff sydd ddim am elw, ac yn ymwneud â hamdden	100%	90%	10%

- 3.4 Yn ogystal â'r uchod, cyflwynodd Deddf Lleoliaeth 2011 addasiadau pellach i Ddeddf 1998 sydd nawr yn rhoi grym cyfreithiol i'r Cyngor ganiatáu rhyddhad dewisol i unrhyw gorff sydd ddim yn syrthio i un o'r categorïau uchod. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath:
- Byddai'n rhaid i'r Cyngor allu arddangos yn dryloyw ei fod yn fodlon y byddai'n rhesymol i roi'r rhyddhad dewisol, gan dalu sylw i fuddiannau pawb sy'n atebol am dalu Treth Cyngor.
 - Byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu 100% o ryddhad dewisol o'r fath, ni fyddai unrhyw gyfraniad o'r pŵl cenedlaethol.
- 3.5 Nid yw'r Cyngor eto wedi caniatáu unrhyw ryddhad gan ddefnyddio'r pwerau "Lleoliaeth" yma.
- 3.6 Ar hyn o bryd, mae'r Rhyddhad Dewisol a ganiateir yn costio oddeutu £300,000 y flwyddyn i Cyngor Gwynedd, gyda dros £280,000 o'r cyfanswm yma yn gost rhoi rhyddhad ychwanegol i elusennau uwchlaw'r 80% mandadol. Mewn cyfnod ble mae angen darganfod arbedion ariannol sylweddol, mae'n amserol i'r awdurdod ystyried os yw pob rhyddhad dewisol a ganiateir yn rhesymol, os dylid cwtagi ar rai o'r categorïau sy'n derbyn rhyddhad, neu ychwanegu categorïau cymwys ychwanegol.

4. CASGLIAD

- 4.1 Mae'n amserol i adolygu polisi'r Cyngor ar gyfer caniatáu rhyddhad dewisol rhag ardrethi annomestig, er mwyn:
- Adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ers sefydlu'r polisi cyfredol
 - Ystyried os oes modd adnabod arbedion ariannol, o ystyried y pwysau ariannol parhaus sydd ar y Cyngor a'r rhai sy'n talu Treth Cyngor
 - Gallu ymateb i sefyllfa economaidd Gwynedd, a'r amrywiaeth o sefydliadau a allai wneud cais am ryddhad yn y dyfodol
 - Canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cefnogi elusennau a chyrrff eraill lleol.
- 4.2 Mater i'r Cabinet fydd mabwysiadu Polisi newydd. Fodd bynnag, credir fod rôl gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wrth herio swyddogion a mynegi barn ar addasrwydd a phriodoldeb yr hyn fydd yn cael ei gynnig. Byddai hynny nid yn unig yn dod o fewn rôl statudol y Pwyllgor i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod yn unol â Mesur 2011, ond hefyd yn rhan o'i swyddogaeth craffu ar faterion corfforaethol.

5. ARGYMHELLIAD

- 5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried sefydlu Gweithgor i ymchwilio i Bolisi'r Cyngor ar ganiatáu rhyddhad dewisol, a chynnig arweiniad wrth lunio polisi newydd.

Trethi Annomestig Rhyddhad i Gyrrff Elusennol

Categori y Rhyddhad		Mandadol	Dewisol
1	NEUADDAU PENTREFI / NEUADDAU CYMUNEDOL / CANOLFANNAU CYMUNEDOL		
(a)	Wedi'u cofrestru'n elusen	80%	20%
(b)	Heb eu cofrestru'n elusen	0%	100%
2	MUDIADAU IEUENCTID		
(a)	Wedi'u cofrestru'n elusen gyda chysylltiadau lleol	80%	20%
(b)	Heb eu cofrestru'n elusen gyda chysylltiadau lleol	0%	50%
(c)	Wedi'u cofrestru'n elusen ond heb gysylltiadau lleol	80%	0%
3	MUDIADAU'N GWASANAETHU'R HENOED		
(a)	Wedi'u cofrestru'n elusen ac er budd pobl leol	80%	20%
(b)	Wedi'u cofrestru'n elusen ond heb gysylltiadau lleol.	80%	0%
(c)	Heb eu cofrestru'n elusen ond er budd pobl leol	0%	50%
(ch)	Heb eu cofrestru'n elusen gyda darpariaeth ar gyfer pobl tu allan i ardal y Cyngor, ond eto o natur dyngarol.	0%	10%
4	MUDIADAU NAD YDYNT YN GWNEUD ELW A'I AMCANION YN DDYNGAROL, LLENYDDOL NEU'N YMWNEUD A CHELFYDDYDAU CAIN		
(a)	Wedi'u cofrestru'n elusen er budd pobl leol a'r aelodaeth yn agored i unrhyw un .	80%	20%
(b)	Wedi eu cofrestru, er bydd y bobl leol ond gyda'r aelodaeth yn gyfyngedig.	80%	0%
(c)	Heb eu cofrestru ond er budd y bobl leol a'r aelodaeth yn agored i unrhyw un. (Swyddogion i gyfeirio achosion i'r Weithrediaeth lle mae amheuaeth ynglŷn a'u amcanion).	0%	100%
(ch)	Wedi'u cofrestru'n elusen ond heb gysylltiadau lleol	80%	0%

**Trethi Annomestig
Rhyddhad i Gyrrff Elusennol**

Categori y Rhyddhad		Mandadol	Dewisol
5	MUDIADAU O DDIDORDEB ARBENNIG I RAI e.e. MERCHED Y WAWR		
(a)	Wedi'u cofrestru'n Elusen ac er budd pobl leol	80%	20%
(b)	Heb eu cofrestru'n elusen ond er budd pobl leol	0%	50%
6	AMGUEDDFEYDD		
(a)	Wedi'u cofrestru'n Elusen	80%	20%
(b)	Heb eu cofrestru'n Elusen ond ddim yn gwneud elw ac er budd y bobl leol.	0%	100%
7	MUDIADAU ERAILL ADDYSGOL NEU'N YMWNEUD A DIWYLLIANT		
(a)	Wedi'u cofrestru'n elusen er budd pobl leol gyda'r aelodaeth yn agored, gan gynnwys Ysgolion dan Gymorth Gwirfoddol.	80%	20%
(b)	Wedi eu cofrestru, er bydd y bobl leol ond gydag aelodaeth gyfyngedig	80%	0%
(c)	Heb eu cofrestru ond yn bodoli er budd y gymuned leol gyda'r aelodaeth yn agored	0%	50%
8	COLEGAU	80%	0%
9	SIOPAU ELUSENNOL		
(a)	Ddim yn gwerthu "stoc newydd" na "nwyddau wedi'u prynu i fewn"	80%	20%
(b)	Yn gwerthu "stoc newydd" neu "nwyddau wedi'u prynu i fewn"	80%	0%
10	EIDDO'R YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL	80%	20%

Trethi Annomestig Rhyddhad i Gyrrff Elusennol

Categori y Rhyddhad		Mandadol	Dewisol
11	EIDDO HAMDDEN A REOLIR GAN FUDIADAU ELUSENNOL COFRESTRIDIG CENEDLAETHOL		
(a)	Hostelau Hamdden heb bar (neu weithgaredd masnachol arall).	80%	20%
(b)	Canolfan Hamdden gyda bar (neu weithgaredd masnachol arall).	80%	0%
12	EIDDO'R R.S.P.C.A. / R.S.P.B.	80%	20%
13	CYMDEITHASAU TAI (SWYDDFEYDD)	80%	20%
14	CLYBIAU CHWARAEON AMATUR / HAMDDEN e.e. CLWB RYGBI, GOLFF a.y.y.b.		
(a)	Gydag aelodaeth lleol (>90% yn byw yng Ngwynedd neu yn y siroedd sy'n amgylchynu Gwynedd) ond heb bar (neu weithgaredd masnachol arall).	0%	100%
(b)	Gydag aelodaeth lleol (>90% yn byw yng Ngwynedd neu yn y siroedd sy'n amgylchynu Gwynedd) a gyda bar (neu weithgaredd masnachol arall), elw blynyddol <£10,000 a chost ymaelodi <£25 y pen.	0%	100%
(c)	Gydag aelodaeth lleol (>90% yn byw yng Ngwynedd neu yn y siroedd sy'n amgylchynu Gwynedd) a gyda bar (neu weithgaredd masnachol arall).	0%	100%
15	CORFF SYDD HEB EI GOFRESTRU'N ELUSEN OND SY'N ELUSENNOL EI NATUR (Swyddogion i gyfeirio pob cais i'r Weithrediaeth).		
(a)	Addysgol	80%	0%
(b)	Cyffredinol, er budd y gymuned leol.	80%	0%

Bydd hawl gan fudiadau i apelio os ydynt yn credu eu bod yn teilyngu mwy o ryddhad nac eraill, a bydd y Weithrediaeth yn ystyried ceisiadau unigol o'r fath.